

# ADOLYGIAD TAI CYMRU



2015



**PRINCIPALITY**  
COMMERCIAL



Cardiff  
Metropolitan  
University

Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd

## Y Sefydliad Tai Siartredig: Adolygiad Tai Cymru 2015

Golygyd gan Julie Nicholas

© CIH Cymru 2015  
Cyhoeddwyd am y tro cyntaf ym mis Medi 2015

Nod y ddogfen hon yw cyflwyno barnau diweddar, sylwadau, dadansoddi a data ar y diwydiant tai yng Nghymru. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys dros 280 o gyfeiriadau at gyhoeddiadau diweddar, ymchwil ac erthyglau, gyda'r nod o ddarparu adnodd eang ei ystod a defnyddiol i fyfyrwyr tai, strategwyr ac ymarferwyr.

Y Sefydliad Tai Siartredig (CIH) yw'r llais annibynnol ar gyfer tai a chartref safonau proffesiynol. Mae ein nod yn syml - darparu'r cyngor, y gefnogaeth a'r wybodaeth y mae ar weithwyr tai proffesiynol a'u sefydliadau eu hangen i fod yn wych. Mae CIH yn elusen gofrestredig ac yn sefydliad dielw. Golyga hyn fod yr arian a wnawn yn cael ei roi'n ôl i'r sefydliad ac yn ariannu'r gweithgareddau a gynhalwn i gefnogi'r sector tai. Mae gennym aelodaeth amrywiol o bobl sy'n gweithio yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, mewn 20 gwlad ar bum cyfandir ar draws y byd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: [www.cih.org](http://www.cih.org).

Nod CIH yng Nghymru yw darparu llais proffesiynol a diduedd ar gyfer tai ar draws pob sector, er mwyn pwysleisio'r cyd-destun tai arbennig yng Nghymru ac i weithio gyda sefydliadau a gweithwyr proffesiynol i ddynodi atebion tai.

Y safbwytiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yw rhoi'r awduron ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwytiau CIH. Mae CIH yn cyhoeddi'r adroddiad hwn fel cyfraniad at drafodaeth a dadl.

Cysylltwch â thîm CIH Cymru i gael mwy o wybodaeth neu ewch i'n gwefan.

Gall aelodau CIH lawrlwytho copi o'r adroddiad hwn yn rhad ac am ddim fel PDF o'n gwefan. Er mwyn ymuno â CIH, ewch i'r wefan neu cysylltwch â'r tîm.

Cysylltwch â julie.nicholas@cih.org i gael rhagor o wybodaeth.

[www.cih.org/cymru](http://www.cih.org/cymru)

4 Ty<sup>o</sup> Purbeck, Cilgant Lambourne,  
Parc Busnes Caerdydd, Llanisien, Caerdydd.  
CF14 5GJ. Ffôn : 029 20765760

Ynghyd â'r data: Daw gwybodaeth am y stoc anheddu a'r math o aelwydydd ar gyfer Cymru o ystadegau swyddogol a chenedlaethol a gyfrifir ac a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru, Uned Ddata Cymru, Y Gofrestrfa Tir, yr adran Gymunedau a Llywodraeth Leol, a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r rhain yn seiliedig ar ffynonellau amryfal gan gynnwys cyfrifiadau'r boblogaeth, yr Arolwg o'r Llafurli ac arolygon eraill, dulliau casglu ymchwil a data a ddefnyddiwyd ac a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru fel y datganiad Stoc Tai Cymdeithasol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Stats Cymru.

## Diolchiadau

Diolch yn fawr i dri noddwr Adolygiad Tai Cymru 2015 am eu cefnogaeth barhaus i'n cyhoeddiad blaenllaw.

- Peter Hughes, Rheolwr Gyfarwyddwr, Cymdeithas Adeiladu'r Principality
- Judy Wayne, Cyfarwyddwr, Altair Consultancy and Advisory Services
- Jane Mudd, Uwch Ddarlithydd, y Ganolfan Astudiaethau Rhwngbroffesiynol, Prifysgol Ffropolitan Caerdydd



**PRINCIPALITY**  
COMMERCIAL



Cardiff  
Metropolitan  
University

Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd

Diolch yn fawr i holl gyfranwyr gwadd Adolygiad Tai Cymru 2015. Y gobaith yw y byddant yn rhoi safbwytiau amrywiol a didorol i ddarllenwyr o bob cwr o'r diwydiant tai. Cyfrifoldeb yr awduron yw'r safbwytiau a fynegir.

Diolch hefyd i'r bobl a'r sefydliadau canlynol am roi gwybodaeth, cyfeiriadau, hyfforddiant, negeseuon trydar, arbenigedd a chymorth i mi:

|                                    |  |
|------------------------------------|--|
| Jon Barnes                         | Melanie Rees                                   |
| Louise Fisher                      | Debbie Larner                                  |
| Sam Lister                         | David Pipe                                     |
| Gavin Smart                        | Housing Leadership                             |
| Welsh Local Government Association | Cymru  |
| Stats Wales                        | Edwina O'Hart                                  |
| Welsh Government                   | Mike Owen                                      |
| Amrit Singh                        | Tamsin Stirling                                |
| Dave Palmer                        | Paul Roberts                                   |
| Justin Cartwright                  | Shane Perkins                                  |
| Ashley Campbell                    | Simon Inkson                                   |
| Diolch i Melanie Davies            | The CIH Cymru board                            |
|                                    | sydd wedi cyfieithu ein dogfennau i'r Gymraeg. |

Diolch yn arbennig (ac unwaith eto!) i Anne Delaney, pencampwr bwrdd polisiau CIH Cymru, am ei chefnogaeth a'i chyfarwyddyd wrth lunio'r ddogfen hon.

**Julie Nicholas, Editor of the Welsh Housing Review September 2015**

# CYNNWYS

## PENNOD 1: CYFLWR Y GENEDL TAI

### 4 HELEN NORTHMORE, CYFARWYDDWR CIH CYMRU

## PENNOD 2: MATERION CYFOES

### 09 TRAETHAWD 1: Y DDEDDF HAWLIAU DYNOL, CYDRADDOLDEB A THAI

Alicja Zalesinska, Cyfarwyddwr, Tai Pawb

### 11 TRAETHAWD 2: DATGANOLI A THAI YNG NGHYMRU

Linda Whittaker, Prif Weithredwr Cartrefi NPT

### 13 TRAETHAWD 3: HER NEWID DYFODOL Y RHENG FLAEN

Melys Phinnemore a Penny Jeffreys, Ymgynghorwyr adnoddau dynol a datblygu sefydliadol

### 15 TRAETHAWD 4: NEWID I GYD – RHOI DYLET SWYDDAU DIGARTREFEDD NEWYDD AR WAITH YNG NGHYMRU

Chris Price, Y Cydlynnydd Digartrefedd a Chefnnogi Pobl, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

### 18 Y STORI I FYNY'R AFON: CEFNOGI POBL A'I LE MEWN GWEITHIO ATALIOL

Auriol Miller, Cyfarwyddwr, Cymorth Cymru

## PENNOD 3: SYLWADAU A DADANSODDI

**20.** Julie Nicholas, rheolwr polisiau a materion cyhoeddus CIH Cymru, sy'n darparu sylwadau ac yn dadansoddi'r prif dueddiadau a themâu tai yng Nghymru.

1. **RHAGARWEINIAD**
2. **DATGANOLI YN Y DEYRNAS UNEDIG**
3. **DEMOGRAFFEG**
4. **DEDDFWRIAETH NEWYDD A PHOLISIAU SY'N DOD I'R AMLWG**
5. **CYD-DESTUN ECONOMAIDD**
6. **DIWYGIADAU LLES**
7. **TAI CYMDEITHASOL**
8. **TAI SECTOR PREIFAT**
9. **LLYWODRAETHU AC AMRYWIAETH**
10. **CEFNOGI POBL, BYW YN ANNIBYNNOL A DIGARTREFEDD**
11. **BUDDSODDIAD MEWN TAI, ADFYWIO, ISADEILEDD AC ETHOLIADAU**
12. **WELSH HOUSING QUARTERLY 100**
13. **MANIFFESTO CIH CYMRU'N GOFYN AM ETHOLIADAU CYNULLIAD CYMRU 2016**

## CASGLIAD O DABLAU

**53** Vikki Hiscocks, y cyn ddarlithydd tai ym Mhrifysgol Ffropolitan Caerdydd, sy'n darparu set gynhwysfawr o dablau data ar ystadegau sy'n gysylltiedig â thai Cymru.



PENNOD 1

# CYFLWR Y GENEDL TAI

HELEN NORTHMORE, CYFARWYDDWR CIH CYMRU  
@HELENNORTHMORE



**PRINCIPALITY**  
COMMERCIAL



Cardiff  
Metropolitan  
University

Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd

Dyma fy nghyfile cyntaf i fod yn rhan o Adolygiad Tai Cymru ers cymryd y swydd ym mis Ionawr, a'r man cychwyn i mi oedd edrych ar y rhifynnau blaenorol a phrif faterion y cyfnod. Y sylw a'm tarodd fwyaf oedd un fy rhagflaenydd, Keith Edwards, a ysgrifennodd yn 2014;

*"Mae bob blwyddyn ym maes tai yn wahanol, ac mae cyflymder y newid yn cadw codi. Ond ar adegau, mae blynnyddoedd yn sefyll yn y cof ac mae gan 2014 y teimlad hwnnw."*

Keith Edwards

Rwy'n cytuno gyda'i sylwadau yngylch cyflymder y newid, ond byddwn i'n dadlau na ellir gwadu bod 2015 wedi bod yn flwyddyn sy'n sefyll yn y cof hefyd. Yn 2014, roedd y syniad o Lywodraeth Geidwadol i weld yn annhebygol, yn union fel y rhagolwg o ymestyn yr Hawl i Brynu i gymdeithasau tai yn Lloegr ac nid oedd gennym syniad sut byddai'r map llywodraeth leol i Gymru'n edrych yn y dyfodol. Mae toriadau pellach i'r diwygiadau lles sy'n cynnwys lleihau'r cap budd-daliadau, tynnu'r Budd-dal Tai i ffwrdd wrth bobl dan 21 oed a'r rhagolwg o ostyngiad mewn rhenti cymdeithasol yn cael eu cyhoeddi mor aml, mae'n anodd i unrhyw un yn y sector gadw i fyny gyda'r newidiadau na chael amser i ddeall yr effaith ar eu sefydliad cyn i'r polisi newydd nesaf gael ei gyhoeddi.

Mae'r newidiadau mor gyflym a graddfa lawn sy'n wynebu'r sector yn codi rhai cwestiynau mawr am y dyfodol. Yn ystod fy misoedd cyntaf yn CIH Cymru, cefais fy nharo gan yr angen arnom ni fel sector i feddwl am y goblygiadau hyn – sut mae'r dyfodol i dai yng Nghymru'n edrych?

### Pa wasanaethau fydd Awdurdodau Lleol yn eu cyflwyno yn y dyfodol?

*"Mae'r achos o blaid cael llai o awdurdodau lleol yng Nghymru yn un cryf ac mae wedi ei dderbyn yn helaeth. Allwn ni ddim fforddio colli'r cyfle hwn i ddiwygio ac ailffurfio ein cynghorau er mwyn i arian allu cael ei dargedu at wella gwasanaethau rheng flaen. Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod costau gwleidyddiaeth a gweinyddu mewn llywodraeth leol yn cael eu lleihau."*<sup>3</sup>.

Leighton Andrews

Cyhoeddwyd y map newydd ar gyfer dyfodol awdurdodau lleol yng Nghymru gan Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar 17 Mehefin 2015. Byddai ei map arfaethedig yn gweld gostyngiad yn nifer yr awdurdodau lleol, o 22 i wyth, neu naw o bosibl. Ymddengys bod y map newydd yn rhoi ffocws cynyddol ar ranbarthau dinesig a'r ffiniau'n dychwelyd i gyd-fynd yn

fras â'r cynghorau sir fel yr oedden nhw cyn 1996.

Dylai'r ffurf ddilyn ei swyddogaeth - ond ni chafwyd rhyw lawer o ddadlau cyhoeddus eto ar ba wasanaethau y bydd yr awdurdodau lleol mwy o faint newydd hyn yn eu cyflwyno. Mae hyn yn hollbwysig i'r gwasanaethau tai, oherwydd bydd gan yr awdurdodau arfaethedig newydd gymsgedd o swyddogaethau tai stoc a gadwyd a nas cadwyd yn uno. Yn ogystal, bydd effaith yr ad-drefnu ar swyddogaeth tai'r awdurdodau lleol yn llawer ehangach na swyddogaethau'r landlordiaid; bydd cyfleoedd yn agor mewn perthynas â gwasanaethau digartrefedd a dyrannu, gweithio mewn partneriaeth gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, rhannu arbenigedd buddiannau cymunedol a rheoleiddio'r sector rhent preifat.

Arhoswn am y Bil Uno a Diwygio yn yr Hydref a fydd yn cynwys ymgynghori pellach a ffurfiol ar yr uniadau arfaethedig. Ond mae angen i'r dadlau fod yn ehangach na'r ffurf, mae cwestiynau arwyddocaol yn codi yngylch swyddogaeth. Beth yw'r Awdurdod Lleol maint iawn ar gyfer tai? Oes cyfnewid rhwng darbodion maint ac agosatrwydd at y cwsmer? Ydy'r map newydd yn darparu'r cydbwysedd hwnnw? Wrth i bensaernïaeth y llywodraeth symud o gwmpas, sut bydd hyn yn effeithio ar sefydliadau tai eraill? Pa wasanaethau fydd yr Awdurdodau Lleol yn eu cyflwyno a pha rai maen nhw'n disgwyl eu trosglwyddo i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig? Sut dylai sefydliadau tai a phobl nad ydynt mewn llywodraeth leol ymateb i'r angen i ddihatru gwasanaethau a sut gallwn sicrhau mai partneriaeth yw hon, ac nid gollwng cyfrifoldeb?

### Ar gyfer pwy fydd tai cymdeithasol yn y dyfodol?

*"Mae tai cymdeithasol yn rhan hanfodol o'n marchnad dai. Mae'r rhenti is yn helpu pobl, yn enwedig pobl fregus nad ydynt yn gallu cael cartref ar y farchnad dai, boed trwy brynu cartref na thrwy ei rentu oddi wrth landlord preifat."*<sup>5</sup>

Lesley Griffiths

The Welsh Government has been unequivocal in its support for social housing, which seems to be increasingly at odds with the views of the UK government. There is increasing tension between Welsh housing policy and UK welfare policy which is being felt by social housing providers. The Welsh Government is keen to enable 16 and 17 year olds to enter tenancy agreements through the Renting Homes Bill, yet the UK government is withdrawing housing benefit from under 21s. The impact of welfare reform has been, and will continue to be, felt most in Wales, particularly the impact of the bedroom tax.

<sup>3</sup> Leighton Andrews, minister for public services statement - <http://gov.wales/newsroom/localgovernment/2015/options-published-future-configuration-local-government/?lang=en>

<sup>4</sup> <http://www.assembly.wales/ministerial%20statements%20documents/the%20future%20of%20right%20to%20buy%20and%20right%20to%20acquire/dat20150122-c.pdf>

<sup>5</sup> <http://www.insidehousing.co.uk/promised-land/7011105.blog>

Ar y llaw arall, gallwn ni yng Nghymru edrych ar Loegr a theimlo'n ddiolchgar. Gyda Hawl i Brynu'n cael ei ymestyn a gostyngiadau rhent cymdeithasol o 1% yn cael eu gosod yn Lloegr, mae rhai cymdeithasau tai'n paratoi i symud allan o ddarparu tai cymdeithasol a fforddiadwy yn gyfan gwbl, wrth i gymdeithasau eraill archwilio dadgofrestru a'r mwyafrif yn poeni yngylch eu cynlluniau busnes i'r dyfodol. Gallwn deimlo'n ddiolchgar am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r Grant Tai Cymdeithasol a'r ffait bod Hawl i Brynu ar fin cael ei diddymu. Gallwn deimlo'n ddiolchgar fod Llywodraeth Cymru wedi dewis ymgynghori'n briodol gyda'r sector ar oblygiadau posibl unrhyw ostyngiadau i rent cymdeithasol, yn hytrach na dim ond gosod eu hewylls nhw. Erbyn i'r Adolygiad Tai Cymru hwn gael ei gyhoeddi, gobeithio y byddwn yn gwybod beth mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu ei wneud, gan nad yw ansicrwydd byth yn dda. Dylai'r Gweinidog fod yn uchel ei gloch ac yn falch yngylch pa mor isel yw rhenti cymdeithasol yng Nghymru'n barod - gallai gosod toriad mewn rhent roi mwy o arian ym mhocedi'r tenantiaid ond, bydd yn golygu y bydd rhaid i bobl y mae angen tai cymdeithasol arnynt aros yn hwy wrth i gynlluniau busnes gael eu diwygio a chynlluniau datblygu gael eu rhoi o'r neilltu.

Gŵyr pob un ohonom fod angen i ni godi mwy o gartrefi yng Nghymru a bod angen i ni godi mwy o gartrefi fforddiadwy yn benodol. Mae rhenti'r sector rhent preifat yn codi mewn rhannau o Gymru - mae rhenti Caerdydd a Bryste bellach ar fin dod yn gydradd, sy'n golygu bod y prisau'n gorfodi pobl allan o'u hardal leol ac yn cynyddu'r pwysau ar dai cymdeithasol. Bydd effaith y gostyngiad yn y cap budd-daliadau fwyaf anodd i'r teuluoedd hynny gyda thri o blant neu'n rhagor, gan wthio llawer o bobl allan o'r sector rhent preifat o bosibl ac mewn angen tai cymdeithasol. Yn y cyfamser, mae mwyfwy o dystiolaeth fod darparwyr tai cymdeithasol yn cael trfferth gosod eiddo tair ystafell wely a mwy gan fod y 'dreth ystafell wely' yn cynyddu'r galw am eiddo un a dwy ystafell wely.

Oes gennym yr eiddo iawn yn yr ardaloedd iawn? A fydd y galw am dai cymdeithasol a'r diffyg cyflenwad ar y lefelau angenrheidiol yn golygu mai dim ond y rhai mewn angen dybryd fydd yn cael eu lletya mewn eiddo cymdeithasol? A fydd y diwygiadau lles yn golygu na fydd rhai pobl yn gallu fforddio tai cymdeithasol, hyd yn oed yn ôl cyfraddau'r rhenti cymdeithasol?

### Pwy fydd yn darparu tai cymdeithasol yn y dyfodol?

*"Rhaid i'r mudiad cymdeithas tai wynebu nifer o heriau sylfaenol...bydd rhaid cael mwy o gynghreiriau ac uniadau. Dyna chi. Rydw i wedi'i ddweud."*<sup>7</sup>

Keith Edwards

Mae cymdeithasau tai wedi bod yn ymateb i'r amgylchedd economaidd heriol hwn trwy ganolbwytio ar broffilio ac ymgysylltu â thenantiaid, gan gefnogi eu cwsmeriaid a dod o hyd i ffyrdd o gyflwyno gwasanaethau'n fwy effeithiol. Ond nawr, wynebwn ofynion hyd yn oed pellach yn sgil y diwygiadau lles, gwasanaethau'r Ilywodraeth leol yn cael eu tynnu'n ôl, pwysau ar y gwasanaethau cyngor annibynnol a ffactorau allanol eraill. Sut gall cymdeithasau tai ymateb i amgylchedd sy'n mynd yn fwyfwy heriol? Bydd angen dod o hyd i ffyrdd mwy effeithlon o gyflwyno gwasanaethau ac mae'r ffrwyth ar y canghennau isaf eisoes wedi cael eu cymryd. Mae graddfa'n un opsiwn - fel y mae canolbwytio'n lleol iawn. Yn ogystal, nid uniadau yw'r unig ddewis - sut gall cymdeithasau leihau eu costau gweinyddu trwy gonsortia caffael, rhannu swyddogaethau swyddfa gefn neu strwythurau wedi'u cyfuno?

### Beth sydd yn yr arfaeth i'r Sector Rhent Preifat?

*"Rydyn ni'n gwybod bod tua 184,000 o gartrefi Cymru - tua un o bob saith - yn cael eu rhentu'n breifat bellach. Gyda chymaint o bobl yn rhentu, mae'n hanfodol sicrhau sector cryf ag arferion gwaith da. Bydd y ddeddfwriaeth sy'n cael ei chyflwyno nid yn unig yn gwella'r sefyllfa ar gyfer tenantiaid - gan eu hysbysu am eu hawliau a'u cyfrifoldebau - bydd hefyd yn helpu landlordiaid da drwy wella enw da'r sector."*<sup>10</sup> Lesley Griffiths

Yn ôl pob golwg, gall pob un ohonom roi'n traed i fyny ac ystyried bod y gwaith wedi'i wneud. Oherwydd y cynllun trwyddedu newydd a'r diwygiadau tenantiaeth trwy'r Bil Rhentu Cartrefi, gallai deimlo'n hawdd fel petai'r sector rhent preifat wedi dod i drefn. Dylai fod gan y tenantiaid ddealltwriaeth glir o'u hawliau, y gallu i archwilio bod eu landlord yn achrededig a bod ganddynt gontract safonol. Mae'r landlordiaid bellach yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud o dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) wrth i Rentu Doeth Cymru gael ei lansio, a bwriad y cynllun yw gwella enw da landlordiaid da a'r sector cyfan.

Ond teimla fel petawn yn rheoleiddio rhywbeth nad ydym yn ei lwyd ddeall. Y farn draddodiadol gan mwyaf yw mai ateb dros dro i bobl ifanc yw rhentu hyd nes iddynt gynilo digon i brynu tŷ. Gŵyr pob un ohonom fod hyn yn newid a bod hyn yn trawsnewid y sector yn gynt nag y meddylawn. Dyblodd nifer yr aelwyd yd y sector rhent preifat yng Nghaerdydd rhwng 2001 a 2011 – a thyfodd nifer yr aelwyd yd y sector rhent preifat ymhliith pobl 35-64 oed dros 70% yn ystod yr un cyfnod. Mae marchnad deuluo yn dod i'r amlwg ar gyfer rhentwyr tymor hir, yn

<sup>7</sup> [http://www.insidehousing.co.uk/business/finance/rent/welsh-landlords-told-to-model-for-osborne-style-rent-cut/7011096.article](http://www.insidehousing.co.uk/business/finance/rent/welsh-landlords-told-to-model-for-osborne-style-rent-cut/)

<sup>8</sup> Presentation by Savills to CIH Cymru PRS Summit July 2015

<sup>9</sup> Welsh Housing Review 2014

<sup>10</sup> <http://gov.wales/newsroom/housing-and-regeneration/2015/150714-rent-smart-wales/?lang=en>

<sup>11</sup> [www.rentsma.gov.wales/en/](http://www.rentsma.gov.wales/en/)

<sup>12</sup> <http://www.cih.org/resources/PDF/Wales%20Events/PRS2015/Susan%20Emmett.pdf>

<sup>13</sup> <http://www.cih.org/resources/PDF/Wales%20Events/PRS2015/Susan%20Emmett.pdf>

ogystal â thenantiaethau tymor hir. Ond deellir hyn i gyd trwy ystadegau neu yn anecdotaidd. Beth yw prif bryderon tenantiaid a landlordiaid? Pa mor wirioneddol symudol yw tenantiaid? Gyda chynifer o landlordiaid bach, allwn ni fod yn siŵr y byddan nhw'n gwybod am y newidiadau sydd ar ddod – a throsglwyddo'r wybodaeth honno'n briodol i denantiaid? Ydy'r tenantiaid yn ddigon ymwybodol o'r ffynonellau cyngor a chefnogaeth sydd ar gael iddynt?

Mae angen i'r rhan fwyaf o ryngweithio rhwng awdurdodau lleol a landlordiaid preifat ymwneud â rhannu a chymhell arfer da, yn ogystal â gorfodi a rheoleiddio. Gydag 20 y cant amcanol o'r boblogaeth yn byw mewn eiddo rhent, a achoswyd gan angen yn fwy na dewis, a chan fod hyn yn debygol o dyfu ymhellach oni fydd fforddiadwyedd tai'n newid, mae'n bryd i ddarpariaeth eiddo'r sector rhent preifat gael ei hystyried yn well ar lefel strategol wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol, os ydym am ddenu buddsoddiad gan sefydliadau a buddsoddiad arall i greu adeiladau newydd yn y sector hwn. Bydd y diwygiadau lles ond yn cynyddu'r galw am eiddo bach ledled Cymru - ond ydy hynny'n cyfateb i amodau'r farchnad ac felly'n cynnig yr enillion gorau i'r landlordiaid?

Gyda sector sy'n newid mor gyflym, bydd monitro effaith y rheoliadau newydd yn allweddol - yn ogystal â monitro effeithiau sector sy'n newid mor gyflym ar y ddarpariaeth tai.

Wnâi orffen lle dechreuais i - trwy ddyfynnu Keith eto. Rwy'n eithriadol o ddiolchgar o fanteisio oddi ar ei ddoethineb, oherwydd allwn i ddim ei dweud hi'n well na hyn:

*"Gan ddychwelyd i'r cwestiwn - beth ddaw ohonom ni? Mae'r dewis yn syml i mi. Gallwn baratoi ar gyfer y gwaethaf a gobeithio goroesi'r storm nesaf o doriadau ac ymosodiadau. Neu gallwn wneud yr hyn yr arferwn ei wneud. Tynnu oddi ar ein creadigedd a'n harloesedd a chadw gweithio ar y prosiect i newid y byd er gwell, am byth."*

Ydy, mae'n dirwedd heriol ac mae cryn dipyn o'r her y tu hwnt i'n rheolaeth. Ac eto, rwy'n gadarnhaol y gallwn barhau i weithio tuag at nod CIH o sicrhau bod gan bawb gartref gweddus, fforddiadwy mewn cymuned ffyniannus a diogel<sup>15</sup>.

<sup>14</sup> <http://www.bshf.org/published-information/publication.cfm?thePubID=46C4A5EA-15C5-F4C0-99C662FE48B048B9>

<sup>15</sup> <http://www.cih.org/whoweare>



PENNOD 2

# MATERION CYFOES

- ALICJA ZALESINSKA ■
- LINDA WHITTAKER ■
- MELYS PHINNEMORE AND PENNY JEFFREYS ■
- CHRIS PRICE ■
- AURIOL MILLER ■



**PRINCIPALITY**  
COMMERCIAL



Cardiff  
Metropolitan  
University

Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd

## Pennod 2: Traethawd 1

# Y DDEDDF HAWLIAU DYNOL, CYDRADDOLDEB A THAI

**Alicja Zalesinska, Cyfarwyddwr, Tai Pawb  
@AlicjaTaiPawb**

*Ble, wedi'r cyfan, y mae hawliau dynol cyffredinol yn dechrau? Mewn mannau bach, yn agos at gartref ac mor fach fel na ellir eu gweld ar unrhyw un o fapiau'r byd. Ac eto, nhw yw byd y person unigol; y gymdogaeth mae'n byw ynddi; yr ysgol neu'r coleg mae'n ei fynychu; y ffatri neu'r fferm neu'r swyddfa lle mae'n gweithio. Dyna'r mannau y mae pob gwâr, gwraig a phlentyn yn chwilio am gyflawnder cyfartal, cyfle cyfartal, urddas cyfartal heb wahaniaethu. Oni fod gan yr hawliau hyn ystyr yn y lleoedd hynny, ychydig ystyr sydd ganddynt unrhyw le.*

*Eleanor Roosevelt*

Yn 2010, gweithiodd Tai Pawb a'i bartneriaid, gan gynnwys y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, gyda'n haelodau ar brosiect oedd yn canolbwytio ar ddatblygu dulliau hawliau dynol o droi at dai. Un o'r prif ddatganiadau yn y cyflwyniad i'r prosiect hwn oedd "na ellir tynnu hawliau dynol ymaith". Bum mlynedd yn ddiweddarach, ymddengys ein bod ni'n byw mewn byd holol wahanol gan fod hawliau dynol dan fygythiad ym Mhrydain.

Mae gan Brydain Fawr hanes hir o ddiogelu hawliau dynol ac mae'r gwerthoedd hyn wedi bod yn ganolog i'n system a'n cymdeithas ers blynnyddoedd lawer. Datblygwyd a drafliwyd y Comisiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol gan dwrneiod Prydain ar ôl erchyllterau'r Ail Ryfel Byd a Phrydain oedd y wlad gyntaf i gadarnhau'r Confensiwn. Ym 1998, ymgorfforodd Prydain y ddeddfwriaeth mewn cyfraith ddomestig trwy gyflwyno'r Ddeddf Hawliau Dynol. Golygai'r Ddeddf y gallai unigolion bellach herio awdurdodau neu'r llywodraeth mewn llysoedd domestig, heb orfol mynd i lysoedd Ewrop.

O ystyried y rôl allweddol hon y chwaraeodd Prydain yn natblygiad y ddeddfwriaeth Hawliau Dynol, mae'n anodd derbyn y dilysrwydd a'r rhesymeg y tu cefn i gynlluniau cyfredol y llywodraeth i ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol. Amlinellwyd y cynlluniau yn y lle cyntaf ym maniffesto'r Blaid Geidwadol, gydag adduned i ddiddymu'r Ddeddf ymhen 100 niwrnod cyntaf y senedd a chadarnhawyd hyn yn ddiweddarach yn Araith y Frenhines. Fodd bynnag, yn

dilyn cefnogaeth gyhoeddus gref o blaid y ddeddfwriaeth a gwirthwynebiad cryf i bob golwg gan rai Torïaid uwch, gadawyd y cynlluniau dros dro, gyda'r bwriad o ymgynghori ar y ddeddfwriaeth yn y lle cyntaf a'i hystyried yn ystod sesiwn nesaf y senedd.

Fodd bynnag, anghyfrifol fyddai meddwl fod y llywodraeth wedi rhoi'r gorau i'w bwriad. Dangoswyd hyn ym mis Gorffennaf 2015 yn sgil cyhoeddiad David Cameron ei fod yn awyddus i ddiogelu etifeddiaeth y Magna Carta trwy dynnu'n ôl o'r Ddeddf a'i disodli gyda "Bil Hawliau Dynol Brydeinig".

Yng ngolwg y datblygiadau pryderus hyn, mae'n bwysig meddwl rhywfaint yngylch pam mae'r Ddeddf Hawliau Dynol o bwys. Beth mae'n ei olygu i'r miloedd o weithwyr tai proffesiynol a'r tenantiaid yng Nghymru a beth allai sgil-effeithiau ei diddymu ei olygu?

## **Felly beth yw'r Ddeddf Hawliau Dynol a sut mae'n gweithio?**

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 (DHD) yn cyfundrefnu'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yng Nghyfraith y Deyrnas Unedig. Rhaid i bob awdurdod cyhoeddus (gan gynnwys cyrff sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus, e.e. darparwyr tai cymdeithasol) uffuddhau i hawliau'r Confensiwn.

Gall unigolion herio sefydliadau yn y Deyrnas Unedig ac nid oes rhaid iddynt fynd i Lys Hawliau Dynol Ewrop mwyach i ddadlau eu hachos. Gallai gwaredu ar y DHD olygu er mwyn cymryd achos, byddai angen i bobl fynd trwy'r llwybrau cyfreithiol yn y Deyrnas Unedig yn y lle cyntaf, a all gymryd blynnyddoedd, er mwyn gallu mynd i Strasbourg i fynnu eu hawliau. Mwy na thebyg y byddai hyn, ochr yn ochr â'r toriadau presennol i gymorth cyfreithiol yn rhoi grym i'r hen ddihareb "oedi cyflawnder yw gwadu cyflawnder" (justice delayed, is justice denied). Yr hyn sydd o ofid arbennig fan hyn, yw yn achos y DHD, byddai mynediad i gyflawnder yn cael ei wadu i'r rheiny sy'n ddiamddiffyn, gan gynnwys plant sydd wedi dioddef camdriniaeth a chael eu masnachu, y rhai sydd mewn cartrefi gofal, menywod sydd wedi bod trwy drais domestig a rhywiol, y rhai gydag anableddau, gyda chyflyrau iechyd meddwl ac sydd wedi dioddef trosedd – mae pob un o'r grwpiau hyn yn fwy tebygol o fwy mewn tai cymdeithasol. Y rhai ar gyflog isel ac mewn tai gwael fyddai ar eu colled - yn y pen draw rydyn ni'n sôn am filoedd o denantiaid tai cymdeithasol.

Y Ddeddf Hawliau Dynol sy'n gosod yr hawliau a'r rhyddidau sylfaenol y mae gan unigolion y Deyrnas Unedig fynediad iddynt. Mae rhai rhannau'n hynod berthnasol i dai, gan gynnwys Erthygl 3 – yr hawl i beidio â dioddef artaith neu driniaeth annynol neu ddiraddiol, Erthygl 6 – yr hawl i gael prawf teg a chyhoeddus ymhen cyfnod rhesymol o amser, Erthygl 8 – yr hawl i barch at fywyd

<sup>16</sup> [http://www.echr.coe.int/Documents/Convention\\_ENG.pdf](http://www.echr.coe.int/Documents/Convention_ENG.pdf)

<sup>17</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/42/contents>

<sup>18</sup> <http://www.lawsociety.org.uk/policy-campaigns/campaigns/criminal-legal-aid/>

<sup>19</sup> <http://www.theguardian.com/law/2015/may/28/keir-starmer-defends-human-rights-act-in-maiden-commons-speech>

preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth ac Erthygl 14 – yr hawl i fwynhau hawliau'r confensiwn heb wahaniaethu.

Mae gan hawliau dynol arwyddocâd arbennig mewn perthynas â thai cymdeithasol. Gall ansawdd tai gael effaith enfawr ar les. Cynydd a annigonol y risg o afiechyd difrifol ac anabledd; gall arwain hefyd at iechyd meddwl gwael, cyrhaeddiad addysgol is, diweithdra a thlodi.

Os eir ag achos DHD i'r llys a'i ennill, gall llysoedd y Deyrnas Unedig gyhoeddi datganiad o anghydnausedd, sy'n golygu y caiff penderfyniad neu gyfraith yn y Deyrnas Unedig ei ystyried yn anghydnaus â'r Confensiwn. At hynny, gall Senedd y Deyrnas Unedig ddiwygio neu ddiddymu'r ddeddf (ond mae hyn i fyny i'r Senedd).

Er 2000, arweiniodd y Ddeddf at ddymchwel llawer o benderfyniadau cysylltiedig â thai a chydraddoldeb yn ogystal â newidiadau yn y gyfraith. Yn aml, y DHD oedd yr unig rwystr i anghyfiawnder gan gorff neu wlad or-bwerus. Mae rheolau seiliedig ar y DHD wedi newid rhai arferion tai am byth, a allai fod wedi'u hystyried yn flaenorol i fod yn deg ac yn barchus i urddas pobl. Gallai'r penderfyniadau a fu'n hynod bwysig wrth ein hatgoffa ni fod arferion sefydliadol i weld yn deg oherwydd "rydyn ni wedi gwneud pethau fel hyn erioed" fod yn niweidiol yn eu hanfod a dinistrio bywydau pobl.

Mae'r cyfryngau poblogaidd yn hoffi tynnu'n sylw at achosion o hawliau dynol dadleuol, lle gallai fod yn anodd cadarnhau'r cydbwysedd rhwng yr unigolyn yn erbyn hawliau cymunedol, er enghraift. Yr hyn na ystyriwn yn aml yw y bydd mwyafriph penderfyniadau'r llys, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â thai cymdeithasol, bellach yn ymddangos fel synnwyr cyffredin neu'n ddiamheul o deg. Er enghraift, achosion cysylltiedig â'r DHD arweiniodd y ffordd at ddatblygu'r Ddeddf Cydnabod Rhyw, a gydnabyddodd am y tro cyntaf hawliau pobl Traws\*. Penderfyniad y DHD a ystyria bod rhannau o Ddeddf Tai 1996 yn anghyfreithlon oherwydd eu bod yn caniatáu diystyr u llety plentyn oedd yn destun rheolaeth mewnfudo wrth benderfynu a oedd gan ddinesydd Prydeinig angen blaenoriaethol am dai. Arweiniodd y Ddeddf Hawliau Dynol at newidiadau mewn deddfwriaeth iechyd a gallu meddyliol, a olygai yn y pen draw gydnabod yr angen i ddiogelu ac ystyried urddas y bobl hynny mewn ysbytai, unedau preswyl ac mewn llety â chymorth. Arweinia achosion DHD at newidiadau mewn arferion mewn cartrefi gofal a nrysio, gan leihau esgeulustod a chamdriniaeth y rheiny sy'n methu amddiffyn eu hunain.

Dim ond eleni, rheolodd y llysoedd na all y Lwfans Byw i'r Anabl gael ei drin yn gyffredinol fel incwm ychwanegol at ddibenion penderfynu cymhwyster am daliad tai yn ôl disgrifiwn. Defnyddiwyd DHD mewn sawl achos sy'n herio cyfreithlondeb diwygio lles a'r dreth ystafell wely,

yn enwedig lle mae'r tenantiaid yn blant, yn anabl neu wedi gwahanu.

Mae gan egwyddorion cyfranogiad y tenantiaid, sydd wrth wraidd gwerthoedd a ddiogelwyd gan gynifer o sefydliadau tai a chonglfaen y fframwaith rheoleiddio tai cymdeithasol yng Nghymru, eu tarddiad mewn dulliau seiliedig ar hawliau dynol.

Prif-ffrydiwyd egwyddorion a dulliau hawliau dynol yn rhagweithiol ac yn effeithiol o fewn nifer fawr o sefydliadau tai a cheir engrifftiau mynch o arfer gwych gan aelodau Tai Pawb. Yn ei hanfod, seiliwyd y symudiad tai cymdeithasol ar egwyddorion hawliau dynol.

Fodd bynnag, y broblem gyda'r cynlluniau i ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol yw nad yw rhai swyddogion tai neu weithwyr gwasanaeth cyhoeddus proffesiynol eraill yn debygol o hoffi hynny oherwydd mae'n herio'u hymddygiad ac yn aml, caiff ei hystyried yn rhwystri i wneud penderfyniadau cyflym. Dylem gofio nad yw grymoedd cyfreithiol y Ddeddf yno ar gyfer sefydliadau na'r llywodraethau, ond ar gyfer y bobl. Dylai pwysigrwydd cymryd dull hawliau dynol o droi at benderfyniadau tai a digartrefedd fod yn un o'r prif egwyddorion sy'n cael eu cyfleo a'u monitro'n rhagweithiol gan arweinwyr ar hyd a lled eu sefydliadau. Datganodd Harriet Harman yn ddiweddar fod "y Ddeddf Hawliau Dynol yn mynd i fod yn boendod bob amser i'r rheiny mewn grym oherwydd rydych chi eisiau bwrw ati a gwneud pethau. Ond mae'n iawn, fel gweinidog y llywodraeth, y dylai fod rhaid i chi edrych dros eich ysgwydd a bod eich grym chi'n cael ei gyfyngu gan hawliau pobl eraill."

Mae gan y symudiad tai cymdeithasol yng Nghymru gysylltiadau agos gyda dulliau hawliau dynol. Mewn sawl sefydliad tai, nid yn unig y mae'r dulliau hyn yn golygu bod y staff yn ystyried penderfyniadau'r llys yn y ffordd maen nhw'n delio â thenantiaid trwy droi at uffff-dod sylfaenol; maen nhw'n golygu bod gwerthoedd tegwch, parch, cydraddoldeb, urddas ac annibyniaeth hawliau dynol yn cael eu hyrwyddo'n weithgar. Cyflawnir hyn trwy rymuso staff a defnyddwyr y gwasanaeth, gan alluogi cyfranogiad ystyrlon yn y gymuned, sy'n canolbwytio ar y person a gwellia ansawdd y gwasanaethau.

Mae'r nifer fawr o benderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â thai cymdeithasol yn ystod y blynnyddoedd diwethaf yn adlewyrchu hefyd hanes hir Cymru o ymroi i gyflawni'r cymdeithasol a hawliau dynol. Amser a ddengys a fydd llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cydnabod pwysigrwydd cynnal yr ymrwymiad i gynnal hawliau dynol ei holl ddinas yng Nghymru neu a fydd yn dewis ymuno â gwledydd fel Belarws, lle nad yw hawliau unigolion o bwys.

20 <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/7/contents>

21 <http://nearlylegal.co.uk/blog/2011/09/morris-dancing/>

22 <http://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Admin/2015/890.html>

23 [http://www.harrietharman.org/harriet\\_harman\\_speech\\_in\\_defence\\_of\\_human\\_rights](http://www.harrietharman.org/harriet_harman_speech_in_defence_of_human_rights)

Pennod 2: Traethawd 2

# DATGANOLI A THAI YNG NGHYMRU

**Linda Whittaker, Prif Weithredwr Cartrefi NPT**  
**@LindaWhittaker7**

Mae gadael gwledydd i benderfynu eu tynged trwy refferendwm yn bwnc cyfoes ar hyn o bryd, gyda'r Alban a Gwlad Groeg wedi bod trwy'r broses hon yn ystod y misoedd diwethaf. Roedd y refferendwm olaf yng Nghymru ym mis Medi 1997 ac roedd hyn i benderfynu a oedd y bobl oedd yn byw yng Nghymru am gael eu llywodraeth eu hunain ac, yn y pen draw, eu senedd eu hunain. Er gwaetha'r ffaith mai nifer isel a ddaeth i bleidleisio, 'ie' oedd y canlyniad a hanes yw'r gweddill!

Ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Ron Davies oedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru a ddatganodd mai proses ac nid digwyddiad oedd datganoli; o edrych yn ôl bron i ddeunaw mlynedd yn ddiweddarach, roedd hwn yn sylw craff iawn. Ffurfiodd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 Gynlliad Cenedlaethol newydd Cymru a chynhalwyd yr etholiad cyntaf i greu'r Aelodau Cynlliad cyntaf ar 6 Mai 1999.

Ydy datganoli wedi cael effaith ar dai yng Nghymru? Dydw i ddim yn credu fod unrhyw amheuaeth, ymhlih y bobl sy'n gweithio yn y sector tai yn unrhyw un o bedair gwlad y DU, fod datganoli wedi cael effaith sylweddol ar y ffordd y mae polisi tai wedi datblygu'n wahanol ym mhob un o'r gwledydd, a byddaf yn archwilio hynny ychydig yn fwy ar nifer o agweddau tai allweddol.

## Safonau Tai

Yn y sector preifat, adeiladwyd yr holl dai i ufuddhau i Reoliadau Adeiladu ac roedd y rhain yn gyffredin ar draws Cymru a Lloegr. Roedd yr Alban wedi sefydlu ei hasiantaeth ei hun ond roedd tipyn o'r hyn a wnaethon nhw'n unol â Chymru a Lloegr. Penderfynodd Gweinidogion Cymru wedyn eu bod nhw am i Gymru fod o flaen nod datganedig Lloegr o gyrraedd adeiladau di-garben, ac i wella effeithlonrwydd thermol cartrefi newydd eu hadeiladu. Yr unig ffordd o sicrhau bod y targedau hyn yn cael eu cyflawni oedd trwy drosglwyddo'r Rheoliadau Adeiladu i Gymru ac mae hyn wedi'i wneud. Un o'r prif wahaniaethau a fydd yn cael ei deimlo yng Nghymru yw cyflwyno systemau chwistrellu ym mhob cartref newydd ei adeiladu o fis Ebrill 2016 ymlaen. Ni ellid bod wedi cyflawni hyn heb i'r Rheoliadau Adeiladu gael eu trosglwyddo.

Cyflawnwyd y gwelliant mewn safonau yn y sector tai cymdeithasol trwy gyflwyno a gweithredu Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Cyflwynwyd hon yn ffuriol yn 2002, ond fe'i datblygwyd dros gyfnod o ddwy flynedd cyn hynny gyda'r bwriad o greu safon a fyddai'n dod â holl eiddo'r awdurdod lleol a'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i safon addas i'r 21ain ganrif. Yn Lloegr, cyflwynwyd y Decent Homes Standard yn 2000 a disgwyliod iddi gael ei chyflawni erbyn 2010, ddwy flynedd cyn dyddiad cwblhau gwreiddiol SATC. Cyflwynodd yr Alban ei Scottish Housing Quality Standard ym mis Chwefror 2004 ac roedd disgwyliod iddi gael ei chyflawni erbyn Ebrill 2015. Mae'r safonau i gyd yn wahanol; foddy bynnag, mae rhai Cymru a'r Alban yn debyg iawn, gyda'r Decent Homes Standard yn llai llym neu feichus i'r landlordiaid. Hwyrach fod hyn wedi darparu rhagolygon mwy heriol i landlordiaid yng Nghymru na Lloegr, ond dydw i ddim yn credu y clywch chi ormod o denantiaid yn cwyno am y gwelliannau disgwyliedig i'w cartrefi.

Dechreuodd y gwaith o gyflawni gwelliannau SATC yn araf iawn yng Nghymru gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y cyntaf i gyfaddef nad oedd ganddynt yr adnoddau i ddiwallu'r Safon a rhoddodd bleidlais i denantiaid ddewis cael eu cartrefi wedi'u trosglwyddo i gymdeithas tai newydd, sef Cymoedd i'r Arfordir. Gwnaed y tenantiaid yn llwyr ymwybodol o'r dewisiadau a'r canlyniadau tebygol, roeddent yn rhan o ddatblygu'r Ddogfen Gynnig ac ar ôl pleidleisio 'ie' yn 2002, digwyddodd y trosglwyddiad stoc llawn, cyntaf yng Nghymru yn yr Haf 2003.

Rhoddodd pedwar awdurdod lleol ar ddeg arall gyfle i'w tenantiaid bleidleisio o blaids neu yn erbyn trosglwyddo'u cartrefi, pleidleisiodd y tenantiaid mewn deg awdurdod 'ie' a phleidleisiwyd 'na' mewn pedwar. Roedd rhaid i'r chwe awdurdod unedol oedd yn weddill ddangos i Lywodraeth Cymru trwy gynllun busnes 30 mlynedd y gallen nhw gyrraedd a chynnal SATC gyda'u hadnoddau eu hunain ac adnoddau wedi'u benthyg o bosibl.

Mae'r trosglwyddiad stoc yn llawer mwy datblygedig yn Lloegr lle dechreuodd y cyfnod cyntaf o drosglwyddiadau ym 1988. Dechreuodd ail gyfnod, yn debycach i'r rhai yng Nghymru o ran yr addewidion a wnaed i'r tenantiaid, ym 1997. Fel Cymru, mae rhyw hanner o'r holl awdurdodau tai lleol yn Lloegr wedi trosglwyddo'u stoc.

Roedd a wnelo'r gofynion y tu hwnt i ddiwallu gwelliannau ffisegol SATC yng Nghymru ag effaith atgynhyrchiol economaidd cynnal y gwaith. Roedd angen ymrwymiad gan yr awdurdodau lleol yn y Dogfennau Cynnig y byddai cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth gynaliadwy ar gael i bobl leol trwy'r broses o gyrraedd a chynnal y Safon. Nid oedd y gofyniad hwn yn amlwg yng nghyfnod cyntaf y trosglwyddiadau yn Lloegr ond ymddangosodd yn yr

24 <http://www.assembly.wales/en/abithome/role-of-assembly-how-it-works/Pages/history-welsh-devolution.aspx>

25 <http://www.assembly.wales/Research%20Documents/The%20Devolution%20of%20Building%20Regulations%20-%20Quick%20guide-18012012-229548/qg12-0003-English.pdf>

26 <http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/housing-quality/welsh-standard/?lang=en>

27 [http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+/www.direct.gov.uk/en/homeandcommunity/socialhousingandcarehomes/repairs tocouncilhomes/dg\\_10021332](http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+/www.direct.gov.uk/en/homeandcommunity/socialhousingandcarehomes/repairs tocouncilhomes/dg_10021332)

28 <http://www.gov.scot/Topics/Built-Environment/Housing/16342/shqs>

28 [http://www.v2c.org.uk/pdf/Information-leaflets-No.1-General-Information\\_NL.pdf](http://www.v2c.org.uk/pdf/Information-leaflets-No.1-General-Information_NL.pdf)

ail gyfnod, er bod 36% o'r trosglwyddiadau ar ôl 1997 yn Lloegr heb gael ymrwymiad mewn perthynas ag adfywio lleol. Gellir deall bod lefel y buddsoddiad yn Lloegr yn sylweddol fwy na Chymru gyda thros £24bn wedi'i wario dros y cyfnod o ugain mlynedd o 1988 i 2008, dros £20bn o hynny er 1997.

## Adeiladu Tai Fforddiadwy

Mae rhai ohonom yn ddigon hen i gofio'r dyddiau cyn y Grant Tai Cymdeithasol a'r angen i ychwanegu at gost eiddo newydd gyda benthyciadau gan sefydliadau cyllid preifat, sef banciau a chymdeithasau adeiladu gan mwyaf. Bydd yr un bobl hynny'n cofio grantiau ar gyfraddau o 79%, roeddem o'r farn fod pethau'n anodd bryd hynny, gan gadarnhau'r haeriad a ddatganwyd yn aml fod pobl sy'n gweithio mewn tai'n meddwl bod pethau'n anodd drwy'r amser.

Ar adeg datganoli, 58% oedd cyfradd y Grant Tai Cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn dal i fod yn wir yng Nghymru, ond nid ydyn nhw wedi bod ar y lefel honno yn Lloegr ers dros 15 mlynedd. Mae effaith y gwahanol gyfraddau wedi golygu bod cymdeithasau tai yng Nghymru wedi gallu adeiladu heb orfod troi at rai o'r gweithgareddau mwy peryglus y mae cymdeithasau Lloegr wedi gorfol troi atynt mewn ymdrech i sybsideiddio tai cymdeithasol. Ar y cyfan, mae mantolenni Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Cymru'n iachach o ran ufuddod i gyfamod y cyllidwyr ac nid yw'r cronfeydd wrth gefn i alluogi benthycia i'r dyfodol wedi'u disbyddu.

Nid yw nifer y cartrefi fforddiadwy a godir bob blwyddyn yng Nghymru mor uchel ag y mae angen iddi fod i fodloni'r galw; gellid dweud yr un peth am Loegr. Gellir cyfateb yr anterth o ychydig dros 2,500 o gartrefi yn 2008 ar gyfer Cymru gyfan gyda nifer y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn Lloegr sy'n adeiladu'r nifer honno mewn blwyddyn yr un. Mae maint y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn Lloegr o gymharu â Chymru'n cynnig cyferbyniad llwyr. Mae'r rhai mwyaf yng Nghymru'n hofran yn ddisgwylgar o gwmpas perchnogaeth a rheolaeth o 10,000 o gartrefi, ond yn Lloegr, byddai'r rhain yn cael eu cyfrif fel sefydliadau canolig eu maint.

Mae'r defnydd o Gytundebau Adran 106 gan gynllunwyr wedi bod yn llwyddiannus yng Nghymru a Lloegr er mwyn cyflawni mwy o gartrefi fforddiadwy. Cafodd Ymddiriedolaethau Tir Iwyddiant yn Lloegr ac mae hynny wedi'i ailadrodd yng Nghymru ar raddfa fach ond lleol, bwysig. Mae Tai Cydweithredol wedi cael llwyddiant yn Lloegr hefyd ac mae'r cynllun cyntaf ers sawl blwyddyn bellach wedi'i adeiladu yng Nghymru<sup>31</sup>.

## Cefnogi Pobl

Mae'r llif ariannu pwysig hwn a ddefnyddiwyd i gefnogi cynifer o denantiaid mewn tai cymdeithasol i gynnal eu tenantiaethau a byw'n llwyddiannus mewn cymunedau mwy diogel wedi'i weinyddu'n wahanol yng Nghymru erioed. Ar ôl datganoli a'r penderfyniad ar ôl y buddal tai trosiannol yngylch ble y dylai'r cyllid fynd, roedd Gweinidog Llywodraeth Cymru oedd â thai yn ei phortffolio am sicrhau bod y cynlluniau tai â chymorth gyda thenantiaid a chanddynt ymddygiad mwy heriol, oedd yn amhoblogaidd yn aml iawn, yn cael eu hariannu'n gywir ac yn gynaliadwy trwy arian Cefnogi Pobl.

Yn Lloegr, dosbarthwyd yr arian i awdurdodau lleol er mwyn iddynt benderfynu ble y dylai'r arian gael ei wario, lle yng Nghymru, rhannwyd yr arian rhwng cyllid i bobl hŷn a adneuwyd ac a ddosbarthwyd i awdurdodau lleol a dosbarthwyd y gweddill yn uniongyrchol i gefnogi darparwyr o Lywodraeth Cymru. Newidiodd hyn rai blynyddoedd yn ôl ond mae'n dangos yn glir fod datganoli wedi galluogi Lywodraeth Cymru a phobl Cymru i gael gwahanol brofiadau nag y bydden nhw'n eu cael yn Lloegr.

## I gloi

Mewn gwirionedd, nid oes neb wedi penderfynu eto, fel y dywedodd Ron Davies, proses yw hon ac rydym yn dal i fynd drwyddi. Dim ond rhai meysydd allweddol rydw i wedi cyffwrdd arnynt, bodola sawl un arall, megis y newidiadau i'r polisi digartrefedd, dwy Ddeddf Tai Cymru, atal Hawl i Brynu (HiB) ac o bosibl ei dynnu'n ôl yn gyfan gwbl yn erbyn profiad Lloegr lle bydd gan grŵp llawer ehangach o denantiaid rwydd hynt i brynu eu cartref. O gofio bod 45% o'r hen dai cyngor bellach wedi diflannu o'r stoc tai cymdeithasol oherwydd HiB ers diwedd y 1970au, mae'n anodd deall pam y gwnaed yr addewid hwn fel ymrwymiad manifesto pan na fu'r galw erioed yn fwy am dai cymdeithasol...i mi, dyma'r amser gorau i fod yn gweithio mewn tai, yng Nghymru.

<sup>30</sup> <http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/grants-and-funding/socialhousinggrant/?lang=en>

<sup>31</sup> <http://www.cch.coop/wp-content/uploads/2015/07/coop-housing-for-any-community.pdf>

<sup>32</sup> <http://www.cih.org/resources/PDFWales%20general/CIH%20Supporting%20People%20English.pdf>

<sup>33</sup> <http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/legislation/housing-act/?lang=en>

<sup>34</sup> <http://gov.wales/newsroom/housing-and-regeneration/2015/150122-minister-takes-action-to-protect-wales-social-housing-stock/?lang=en>

<sup>35</sup> <https://www.housing.org.uk/media/blog/right-to-buy-extension-estimated-to-cost-12-billion/>

Pennod 2: Traethawd 3

## HER NEWID DYFODOL Y RHENG FLAEN

**Melys Phinnemore a Penny Jeffreys, Ymgynghorwyr  
adnoddau dynol a datblygu sefydliadol**  
@melysphinnemore

Atseinia'r mantra 'mae angen i ni wneud mwy am lai' ar hyd y sectorau cyhoeddus a phrefiat. Mae a wnelo goroesi, mewn byd sy'n globaleiddio a byd o dechnoleg sy'n cyflym newid, â gallu i ymateb yn gyflym ac addasu i newid.

Mae tai fel sector yn wynebu set unigryw o ysgogwyr ariannol, cyfreithiol a gwleidyddol allweddol ar gyfer newid. Mae Diwygio Lles, Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf newydd Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles (Cymru) 2014, i gyd yn gorfodi newid radical wrth gyflwyno gwasanaethau a rheolaeth sefydliadol. Mae incwm rhent wedi cael ei gyfaddawdu a gwaethygir sefyllfa ariannol anodd yn fwyfwy gan doriadau dramatig i gyllid y llywodraeth ganolog a lleol. O gyd-gynhyrchu a chydweithred u i myrraeth gynnar ac atal, mae disgwyl i'r sector tai a'i weithwyr proffesiynol ddod yn chwaraewyr allweddol yn agenda'r llywodraeth o gyflawni 'mwy am lai'.

Mae hyn i gyd yn digwydd yng nghyd-destun disgwyliadau mwyfwy cynyddol rhanddeiliaid allweddol ar gyfer 'canlyniadau o ansawdd' ac atebolrwydd 'seiliedig ar ganlyniadau'; wrth i denantiaid a chomisiynwyr eisiau'n gywir mwy o wasanaethau arloesol, hyblyg, sy'n cael eu harwain gan anghenion.

Un o heriau newid yr 21ain ganrif yw sut i 'ddiogelu'r sector tai i'r dyfodol', a meithrin gweithluoedd y gellir eu haddasu a rhai gwydn.

### Sut mae hyn yn effeithio ar ddyfodol y gwasanaethau tai?

Tystiodd ymchwil Dyfodol Rheng-flaen CIH a gyhoeddwyd yn 2014 fod y sector yn sylweddoli nad oes a wnelo darparu gwasanaeth cyfartal â thrin pawb yr un fath. Nad yw model 'un maint i bawb' yn ariannol gynaliadwy.

Y pos yw gwneud y mwyaf o adnoddau cyfyngedig a'u targedu, wrth gyflawni o ran cyfrifoldebau corfforaethol a chymdeithasol. Ymddengys mai'r cwestiwn mawr yw 'sut ydym yn cydnabod ac yn ymateb i'r rhai a chanddynt yr angen mwyaf?

### Beth mae hyn i gyd yn ei olygu mewn gwirionedd?

Mae hyrwyddo annibyniaeth nid dibyniaeth yn hanfodol i gyflawni atebion ymarferol. Golyga partneriaeth greadigol ac effeithiol gyda'n tenantiaid a'n cymunedau wneud pethau 'gyda' yn hytrach nag 'ar gyfer' pobl. Rhaid i weithwyr a rheolwyr y rheng flaen fod yn barod a chael eu cefnogi i feddwl 'y tu hwnt i'r blwch'; mae hyrwyddo'n hyderus atebion neu strategaethau ymarferol, nad ydynt yn gosod cynseiliau peryglus nac yn gosod risgiau busnes anghynaliadwy yn allweddol i gyflawni hyn.

Cynrychiola hyn sifft sylweddol, o ddiwylliant gwneud penderfyniadau a ddiffinnir gan broses neu reolau i un lle gall gweithwyr herio a chwestiynu'r sefyllfa sydd ohoni. Mae angen i weithwyr y rheng flaen ddarllen yr arwyddion, ymyrryd yn rhagweithiol a mentro'n ofalus. Rhaid i reolwyr llinell adeiladu diwylliannau gweithio sy'n hyrwyddo'r defnydd o annibyniaeth a doethineb, gan gynnal atebolrwydd.

### Beth mae hyn yn ei olygu i'n gweithlu?

- I nifer fawr o sefydliadau, bydd y newid hwn yn golygu sifft ddiwylliannol sylweddol a her datblygu staff;
- Sut ydym yn adeiladu diwylliannau sefydliadol sy'n annog ffydd, yn galluogi annibyniaeth ac yn cyflawni atebolrwydd?
- Sut ydym yn datblygu gweithluoedd creadigol, gwydn sy'n addasu'n gadarnhaol ac yn gyflym i heriau newydd?

### Beth yw'r heriau datblygu rheolaeth?

Rhaid i reolwyr sy'n anelu at gyflawni'r math hwn o newid dderbyn llai o awdurdod neu rym o ran safle a gweithio mwy i ysbrydoli a dylanwadu ar y rhai sydd o'u cwmpas. Mae llwyddiant yn gofyn i staff y rheng flaen gael mwy o lais a mwy o reolaeth dros y ffordd maen nhw'n gweithio.

Mae ymchwil Datblygu Arweinyddiaeth y Ffowr Mymchwil Corfforaethol 2014 yn pwysleisio yn y dyfodol, bod angen i ni baratoi'r rheolwyr i:

- trefnu pobl eraill o gwmpas pwrpas a gweledigaeth ar y cyd;
- dangos gallu addasol a meddwl am systemau cryf;
- arddangos ystwythder dysgu;
- defnyddio hunanymwybyddiaeth a bod yn ddilys;
- arwain trwy gydweithrediad a dylanwad;
- meithrin diwylliannau arloesol uchel eu perfformiad a thimau effeithiol;
- arwain pobl yn hyderus trwy ansicrwydd.

36 <http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?Id=5664>

37 <http://www.cin.org/resources/PDF/Policy%20free%20download%20pdfs/Frontline%20futures%20report%20final.pdf>

38 [http://issuu.com/crforum/docs/leadership\\_development\\_exec\\_summary](http://issuu.com/crforum/docs/leadership_development_exec_summary)

## Gwneud y newid?

Bydd angen i reolwyr a rheolwyr llinell fanwl gyweirio eu mewnwelediadau personol er mwyn cynyddu eu gallu i ddeall, dylanwadu a chymhell pobl eraill i newid. Y camgymeriad y mae llawer ohonom yn ei wneud yw tybio y bydd dadleuon rhesymegol, rhesymol ar gyfer newid yn ddigon ar eu pen eu hunain. Os dyma'r achos, ni fyddai neb yn ysmygu nac yn datblygu dibyniaeth afiach. Yn anffodus, nid yw newid yn rhesymol nac yn rhesymegol:

'Nid yw pobl yn gwrthwynebu newid. Maen nhw'n gwrthwynebu cael eu newid!'

Peter Senge, 1999

Mewn gwirionedd, mae ar unigolion angen i gynnig neu fwriad ar gyfer newid gael ei werthu iddynt mewn ffordd y gallant ei weld a'i deimlo. Rhaid iddo wneud synnwyr iddynt, o'u safbwyt hwy o'r byd: mae angen ateb cwestiynau diliys fel 'beth sydd ynddo i mi' neu 'beth mae hyn yn ei olygu i mi' neu 'sut mae'r newid hwn yn cyd-fynd â pham rwy'n gwneud y pethau rwy'n eu gwneud'. Mae perchnogaeth ar y newid yn hanfodol. Ar ôl dwyn perswâd o'r nod neu'r amcan yn y pen draw; mae angen i bobl deimlo y gallant ddylanwadu ar ffurf y llwybr a chyflymder taith y newid. Mae angen sicrwydd arnynt yngylch eu rôl yn y dyfodol a chefnogaeth amserol ar eu taith newid bersonol. Mae Personal Transition Curve John Fisher yn cynnig darlun ymarferol o'r daith ac mae'n cynnig mewnwelediad gwych i'r ymatebion nodweddiadol ar gyfer yr heriau newid.

Yn ei hanfod, y ffordd orau o gyflawni unrhyw newid yw ei werthu mewn ffordd sy'n cydfynd â gwerthoedd hollbwysig rhywun, eu credoau a'r hyn sy'n eu cymell yn bersonol. Crefft gwireddu newid yw deall pam y gallai pobl gael anhawster neu wrthwynebu newid ac yna cael pecyn cymorth helaeth i helpu'u cefnogi ar eu trawsnewid neu newid taith.

## O gynnwys i gyd-destun: datblygu'r pecyn cymorth

Mae'r holl feddwl datblygu busnes diweddaraf yn atgyfnerthu pwysigrwydd llunio rhaglenni datblygu sy'n ymgorffori dysgu trwy brofiad, efelychiadau a gemau neu hwyl (CRF 2014). Mae'r dull traddodiadol, 'trochi defaid' yn y dosbarth 'aros i weld beth sy'n aros' o reoli newid wedi dyddio, ac yn ddull ar hap sydd prin yn cyflawni enillion da ar y buddsoddiad.

Y dysgu ansawdd uchaf a geir yw trwy brofiad sy'n golygu defnyddio'r ymennydd cyfan: y synhwyrau a'r swyddogaethau emosiynol yn ogystal â'r llwybrau rhesymegol a rhesymol. Mae'r rhaglenni datblygu gorau'n nodi ac yn gweithio ar y problemau sydd wrth wraidd, yn hytrach na dim ond ymateb i'r symptomau sy'n cyflwyno'u hunain.

Nododd Malcolm Knowles, un o'r ffigurau canolog wrth ddatblygu'r ddealltwriaeth o ddysgu oedolion yn ail hamner yr 20fed ganrif, chwe egwyddor sy'n sail i'r ffordd y mae oedolion yn dysgu:

1. Mae angen i oedolion wybod pam maen nhw'n dysgu rhywbeth.
2. Maen nhw'n dysgu trwy wneud.
3. Mae angen iddynt fod yn gyfrifol am eu penderfyniadau ar addysg a chymryd rhan mewn cynllunio a gwerthuso dysgu.
4. Maen nhw'n dysgu mwyaf o'r pynciau sy'n uniongyrchol berthnasol iddynt.
5. Mae eu dysgu'n cyfeirio tuag at ddatrys problemau yn hytrach na chynnwys neu ddamcaniaeth.
6. Maen nhw'n ymateb yn well i gymhellwyr mewnol nac allanol ar gyfer dysgu

Rhaid i raglenni datblygu llwyddiannus deimlo'n 'wirioneddol ac yn berthnasol' a chael eu darparu mewn amgylchedd dysgu cefnogol. Mae angen cael cysylltiadau clir â'r 'gwaith rwy'n ei wneud', gyda chyfleoedd i efelychu ac ymarfer cyn defnyddio. Mae angen iddynt ymestyn ond peidio â bod yn frawychus, gan feithrin dealltwriaeth, hyder a gwydnwch personol. Mae angen i ddefnydd ymarferol yn y gwaith alluogi ar gyfer datrys problemau'n greadigol a chynnwys adolygiad ffurfiol a myfyddod wedi'i saernio.

## Meithrin hunanymwybyddiaeth a gwydnwch

Ochr yn ochr â theori, sgiliau a hyder, mae a wnelo datblygu unigolion mwy gwydn â chreu mwy o fewnwelediad personol. Mae angen i bobl ddeall a defnyddio gwybodaeth am eu hunain i wella sut maen nhw'n dysgu ac yn ymateb i newid a straen.

Byddai helpu pobl i ennill mwy o hunanymwybyddiaeth yn gofyn i raglenni gynnwys elfennau megis:

- meithrin deallusrwydd emosiynol;
- deall arddulliau dysgu;
- datblygu rhwydweithiau cymorth adeiladol;
- byw ffyrdd o fyw iach;
- cydnabod ac ymateb yn gadarnhaol i straen.

## Ble nesaf?

Mae a wnelo diogelu'r sector i'r dyfodol â datblygu a meithrin y bobl sy'n gweithio ynddo; staff y rheng flaen a rheolwyr a all yruru a chyflawni newid sefydliadol a diwylliannol. Mae gwireddu newid ar gyfer eich busnes a'r sector tai'n gofyn am ddatblygu gweithwyr rheng flaen a rheolwyr llinell hyderus, hyblyg a gwydn, ac mae hyn yn gofyn am ymrwymiad sefydliadol.

Mae datblygiad ystyrlon yn cymryd amser a buddsoddiad. Nid gweithgaredd 'un tro' mohono ond proses barhaus

39 <http://www.businessballs.com/personalchangeprocess.htm>

40 <http://www.qotc.edu.au/resource/?page=65375>

a chynyddol. Mae angen i sefyllfaoedd go iawn gael eu hystyried o bob ongl ac ymarfer gwahanol sgiliau dro ar ôl tro i atgyfnerthu'r dysgu. Mae rhaglenni datblygu perthnasol, wedi'u saernio'n dda a chefnogol yn chwarae rôl hanfodol wrth helpu sefydliadau i fodloni'r her newid anodd sy'n ein hwynebu yn yr 21ain ganrif.

## Pennod 2: Traethawd 4

# NEWID I GYD: RHOI DYLETSWYDDAU DIGARTREFEDD NEWYDD AR WAITH YNG NGHYMRU

**Chris Price, Y Cydlynnydd Digartrefedd a Chefnogi Pobl, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**  
@crispy4

Mae Newid Deddfwriaeth Digartrefedd yn un newid a fydd yn arwain yn anochel at ragor. Adlewyrchiad personol yw'r traethawd hwn ar weithrediad dyletswyddau digartrefedd newydd Cymru a ddechreuodd eleni hyd yma, a golwg ar rai o'r heriau sydd o'n blaenau.

Dros y 12 mis diwethaf, rydw i wedi ymweld â phob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru; wedi siarad â darparwyr gwasanaethau iaelwydydd digartref; wedi siarad ag aelwydydd sydd wedi cael profiad o ddigartrefedd; wedi siarad â'r rhai sy'n gweithio yn y sector rhent preifat; cymdeithasau tai; darparwyr cymorth; asiantaethau dyledion ac eraill. Nod pob un o'r ymwelliadau a'r sgyrsiau hyn, sy'n rhoi cyflwyniadau ac yn mynychu cyfarfodydd diddiwedd i bob golwg, yw paratoi awdurdodau lleol ar gyfer newidiadau 2015 mewn deddfwriaeth digartrefedd.

Nawr bod Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi'i chyflawni a'r ddeddfwriaeth wedi dechrau i bob pwrpas, diben y darn hwn yw rhoi fy safbwytiau i o ran yr hyn rydw i wedi'i ddysgu, rhannu sut rwy'n meddwl bod pethau'n newid er gwell, ond tynnu sylw hefyd at y meysydd hynny lle rwy'n credu y bydd angen i ni ganolbwytio ar y misoedd a'r blynnyddoedd sydd i ddod. Er mwyn profi gwir newid a bodloni amcanion y Ddeddf, nid yw'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth yn unig, mae'n ymwneud â'r diwylliant.

### Y prif newidiadau yn y Ddeddf

Teimla'r Awdurdodau Lleol fod 3 phrif newid yn y Ddeddf a fydd yn esgor ar y goblygiadau mwyaf. Dyma nhw:

1. Dyletswydd newydd i gymryd camau rhesymol i atal / lleihau digartrefedd

2. Y newid i alluogi ar gyfer cyflawni unrhyw ddyletswydd tai i mewn i'r sector rhent preifat
3. Y newid yn statws angen blaenoriaethol y rhai sy'n ddigartref wrth adael y carchar

Gallai'r newid mewn statws angen blaenoriaethol i'r rhai sy'n gadael y carchar lenwi traethawd cyfan ar ei ben ei hun, felly byddaf yn canolbwytio'n hytrach ar y ddau newid allweddol cyntaf.

Mewn gwirionedd, nid yw'r ddyletswydd newydd i gymryd camau rhesymol i atal / lleihau digartrefedd yn ddyletswydd i atal neu leihau digartrefedd; yn sym, dyletswydd i geisio gwneud hynny ydyw. Mae'n newid y ffordd y mae awdurdodau lleol a phobl eraill yn delio â'r galw am wasanaethau. Mae'r newid i alluogi ar gyfer cyflawni dyletswyddau i mewn i'r sector rhent preifat yn effeithio ar y math o gyflenwad tai y gall awdurdodau lleol eu defnyddio. Mewn egwyddor, bydd yn cynyddu, ond fel y trafodir yn nes ymlaen, mae angen datod hyn ac ystyried ei oblygiadau.

### Newidiadau yn y ffordd y mae galw'n cael ei fodloni - Y ddyletswydd i gymryd camau rhesymol er mwyn atal a lleihau digartrefedd

Ar ôl trafod gydag awdurdodau lleol a gwrando arnynt, yr hyn sy'n wirioneddol bwysig am y newid hwn yw ei natur hollgynhwysfawr. Nid yw'r ddyletswydd hon yn ymwneud ag atal yr aelwydydd hynny sy'n debygol o fod yn yr hyn a elwir yn 'angen blaenoriaethol' rhag bod yn ddigartref, mae'r ddyletswydd hon yn golygu helpu pawb.

Yn draddodiadol, sefydlwyd gwasanaethau gyda'r hyn sy'n ymddangos fel llinell anweladwy wedi'i dynnu rhwngddyd. Os ydych chi mewn 'angen blaenoriaethol' rydych chi'n mynd i'r Cyngor, os nad ydych chi, byddwch chi'n cael help gan y sector gwirfoddol. Mae'r newidiadau yn y Ddeddf yn chwalu'r llinell anweladwy hon - mae gan yr awdurdod lleol bellach ddyletswydd arwyddocaol (nid dim ond i gynnig 'cyngor'), i bob aelwyd.

Cyn y Ddeddf, fel rheol byddai'n rhaid i aelwyd oedd yn cyflwyno'i hun i'r Cyngor nad oedd yn cael ei ystyried mewn 'angen blaenoriaethol' gael ei anfon / cyfeirio at / cael cyfarwyddyd i droi at ddarparwr arall. Erbyn hyn, rhaid i'r awdurdod ei hun weithredu, rhaid iddo ddatblygu cynllun tai, edrych ar beth all yr aelwyd ei wneud i helpu eu hunain, yn ogystal â'r hyn y gall yr awdurdod ei wneud i atal / lleihau digartrefedd yr aelwydydd.

Dyna pam mae angen newid diwylliannol wrth ddelio â'r galwadau ar wasanaethau digartrefedd yr awdurdodau lleol i'r dyfodol. Cyn y Ddeddf, roedd bron pob gweithiwr achos digartrefedd mewn awdurdod lleol yn ymateb yn awtomatig trwy asesu'n anymwybodol statws 'angen

blaenoriaethol' tebygol pob aelwyd oedd yn dod trwy'r drws. Os oedd aelwyd oedd yn cyflwyno'i hun i'r gweithiwr achos yn debygol o fod mewn angen blaenoriaethol, rodden nhw'n debygol o gael mwy o help na'r rhai nad oeddent. Dyna'r rheswm y mae newid ffordd o feddwl gweithwyr tai proffesiynol sy'n gweithio mewn gwasanaethau digartrefedd mor hanfodol bwysig i sicrhau llwyddiant y Ddeddf. Bydd gweithwyr achos bellach yn gweithio gyda phob aelwyd sy'n cyflwyno'i hun ac yn ceisio dod o hyd i ateb tai iddynt. Golyga hyn anwybyddu ydy aelwydydd yn gweddu i unrhyw gategori 'angen blaenoriaethol' penodol. Nid yw'r fath newid mewn diwylliant yn digwydd dros nos ar gyfer unrhyw wasanaeth.

Mae'r newid wedi dechrau, ond rhaid iddo barhau. Mewn trafodaethau, rydw i wedi canfod dymuniad gwirioneddol a chadarnhaol i wneud y newid diwylliant ac arfer hwn o'r gweithwyr tai proffesiynol rydw i wedi ymweld â nhw, a sawl arwydd o gynnydd. Mae awdurdodau lleol eisiau gweithio yn y ffordd newydd hon a chaiff ei hystyried gan nifer fawr yn ddilyniant naturiol o'r agenda atal, a fabwysiadwyd gan nifer fawr o gynghorau Cymru fel dull newydd yn oddeutu 2005. Fodd bynnag, ceir rhai pryderon hefyd.

Adeg ysgrifennu, rydyn ni bron i dri mis i ffwrdd o roi'r ddeddfwriaeth newydd ar waith. Nid yw'r hyn rydw i wedi'i glywed hyd yma'n cynnig tystiolaeth o ymchwyyd enfawr yn nifer yr aelwydydd sy'n troi at awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae'r adborth rydw i wedi'i gael yn ymwneud yn bennaf â'r galw sylweddol gynyddol ar dimau o ran yr amser a'r adnoddau y mae ar staff eu hangen i ymroi i bob achos. Nid yn unig y mae dyletswydd ar awdurdodau i helpu pawb sydd dan fygwyd i ddigartrefedd neu sy'n cael profiad o fod yn ddigartref, mae gan awdurdodau gyfrifoldeb cynyddol i gyfathrebu hefyd; rhaid iddynt ysgrifennu llythyrau i'r rhai sy'n cyflwyno'u hunain gan roi manylion ar ble maen nhw yn y broses, datblygu cynlluniau tai unigol, ysgrifennu mwy o lythyrau'n dweud wrth bobl eu bod nhw wedi symud o un adran y Ddeddf i'r nesaf ac ati.

Nid yn unig y mae hyn i gyd yn tynnu'r staff i ffwrdd o wneud y tasgau a allai atal digartrefedd, mae mewn perygl hefyd o ddrysau llawer o aelwydydd. Yn rhyfedd ddigon, yn aml iawn nid yw llythyr sy'n dweud wrth rywun eu bod nhw wedi symud o dyletswydd rhan 66 i ran 73 yn golygu rhyw lawer iddynt. Maen nhw'n debygol o ffonio'r swyddfa wedyn i ofyn beth mae'r llythyr yn ei olygu mewn gwirionedd. Rhaid i'r gweithiwr achos wedyn dreulio mwy o amser yn rhoi esboniad. Byddai'r bobl systemau meddwl yn galw hyn yn 'methiant y galw'.

Felly beth yw'r atebion i hyn? I ddechrau, mae angen i ni edrych ar sut gellir symleiddio a gwella rhai o'r prosesau a drafodwyd. Sut gall pawb weithio o fewn y ddeddfwriaeth, ond gwneud yn siŵr ei fod o werth i'r aelwyd sy'n troi at awdurdodau lleol a sefydliadau eraill? Yn ddelfrydol, bydd hyn yn golygu dod ag awdurdodau lleol, Shelter Cymru a Llywodraeth Cymru at ei gilydd i archwilio ffurdd effeithiol o symud ymlaen.

Mae angen dealltwriaeth ddyfnach o'r galw am wasanaethau digartrefedd, a sut gallai gael ei 'ddileu' ar gam cynharach o bosibl. O wynebu problem tai, mae gan yr aelwyd amrywiaeth o ddrysau i ddewis o'u plith er mwyn cael cyngor. Gall hyn fod ar ffurf Cymdeithas Dai, Shelter Cymru, asiantaeth sector gwirfoddol, darparwr rhaglen Cefnogi Pobl, landlord preifat, y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, asiantaeth cyflawnwr troseddol ac ati ac ati. Sut gallwn sicrhau bod yr holl asiantaethau hyn yn gwneud cyfraniad effeithiol at 'atal digartrefedd' ble bynnag y bo'n bosibl? Nodi problem bosibl i'r dyfodol a chymryd camau / tynnu i mewn y gefnogaeth berthnasol i osgoi argyfwng tebygol. Mae hyn yn gwbl hanfodol er mwyn i ni gyd lwyddo wrth fodloni amcanion y Ddeddf.

Mae'n bwysig hefyd tynnu sylw at y cyd-destun ehangach y bydd timau digartrefedd yn gweithredu ynddynt. Megis enghreifftiau o fesurau a fydd yn creu mwy o alw ar wasanaethau digartrefedd yw cyllideb ddiweddar y Deyrnas Unedig gyda'i diwygiadau lles pellach a thynnu'r Budd-dal Tai yn ôl ar gyfer y rheiny sydd o dan 21 oed.

Nid yw'r gwasanaethau dewisiadau tai'n ddiogel o'r toriadau sy'n wynebu pob un Cyngor, ac mae niferoedd y staff yn y tymor hir yn debygol o leihau. Felly, mae'n debygol y bydd mwy o alw, ond llai o adnoddau i'w defnyddio. Mae'n hanfodol bwysig fod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu canolbwytio ar yr hyn sydd wir yn bwysig.

### **Newidiadau wrth gyflawni'r cyflenwad - Y newid i alluogi ar gyfer cyflawni unrhyw dyletswydd tai i mewn i'r sector rhent preifat**

Cyn y ddeddfwriaeth, gallai'r awdurdodau gynnig eiddo i aelwyd (a gafwyd yn ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol) yn y sector rhent preifat. Nid oedd rheidrwydd ar yr aelwyd i gymryd hwn, fodd bynnag, a gallent aros am gynnig mewn tai cymdeithasol.

Nid dyma'r achos ers cyflwyno'r Ddeddf. Os daw aelwyd yn ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol, gall yr awdurdod lleol gyflawni'r dyletswydd hon gan gynnig eiddo sector rhent preifat, cyhyd â bod cytundeb tenantiaeth chwe mis a bod yr eiddo'n fforddiadwy ac yn addas. Os bydd yr aelwyd yn gwrthod y cynnig, yna gall yr awdurdod lleol dynnu ei gefnogaeth yn ôl.

Gall awdurdod hefyd gyflawni'r dyletswyddau atal a lleihau trwy gynnig yn y sector rhent preifat. Er enghraift, os bydd aelwyd yn troi at awdurdod gyda rhybudd gan landlord preifat, bydd gan yr awdurdod dyletswydd i'w helpu i ddod o hyd i lety arall. Gallai hyn fod yn y sector preifat (cyhyd â bod y llety'n fforddiadwy, yn addas ac yn debygol o bara 6 mis).

Mae'r newid hwn yn y ddeddfwriaeth yn rhoi cyfle i

42 <http://www.newstatesman.com/staggers/2015/07/budget-2015-what-welfare-changes-did-george-osborne-announce-and-what-do-they-mean>

awdurdodau lleol ddefnyddio'r sector rhent preifat i fodloni'r angen am dai. Mewn ymateb, mae pob awdurdod lleol bellach wedi datblygu 'cynnig' sy'n esbonio sut byddant yn gweithio gyda landlordiaid. Mae llawer ohonynt yn sefydlu 'asiantaethau gosod tai cymdeithasol' neu'n gweithio gydag asiantaethau sy'n bodoli a redir gan bartneriaid. Trwy ddefnyddio 'cronfa bontio' Llywodraeth Cymru, cyflogir pobl i ddatblygu partneriaethau, helpu aelwydydd digartref i droi at y sector rhent preifat a chefnogi'r landlordiaid sy'n eu lletya.

Mae hyn i gyd yn gadarnhaol ac os llwyddwn i wneud bethau'n iawn, bydd gan y sector rhent preifat rôl bwysig i'w chwarae wrth ddiwallu'r angen am dai. Fodd bynnag, byddaf yn tynnu sylw at ambell i ofid.

Er y gall awdurdodau bellach gynnig llety yn y sector rhent preifat, nid yw hynny'n golygu na fydd angen parhaus am dai cymdeithasol hefyd. Mae cyfran y gosodiadau mewn tai cymdeithasol i'r bobl hynny sy'n ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol wedi cwympo'n sydyn dros y blynnyddoedd diwethaf. 'Does bosibl nad oes neb am fynd nôl i'r dyddiau cyn 1977 pan oedd y rhai mwyaf diamdiffyf yn aml mewn llety sector rhent preifat ansawdd isel.

Yr ail ofid yw a oes gennym ddigon o wasanaethau a ariennir gan raglen Cefnogi Pobl ai peidio sy'n ddigon hyblyg i ymateb i gynnydd anochel y rheiny gydag anghenion cymorth sy'n mynd i mewn i'r sector rhent preifat. Rhaid i ail-gyflunio gwasanaethau'n gyflym ac yn effeithiol er mwyn adlewyrchu'r anghenion newidiol hyn gael ei ystyried yn flaenoriaeth bwysig, yn enwedig ar adeg pan fo cyllid i raglen Cefnogi Pobl yn debygol o gael ei leihau ymhellach.

Ceir rhai engriffiau gwych o wasanaethau cymorth sy'n dod i'r amlwg mewn lleoliadau (ni waeth beth yw'r ddeiliadaeth / 'prif angen'); cynnig cefnogaeth pan fo'r aelwyd ei heisiau; cefnogaeth seiliedig ar gydnabod cryfderau'r aelwyd yn hytrach na'i angen. Yn yr engriffiau hyn, mae swm yr amser sy'n cael ei dreulio ar lenwi ffurflenni, cynllunio cymorth a chasglu data wedi'i leihau'n fawr, gan ryddhau'r amser yn effeithiol i ddarparu cefnogaeth uniongyrchol. Er mwyn i aelwydydd gael eu cefnogi'n effeithiol yn y sector rhent preifat, bydd y datblygiadau hyn yn cynnig cyfle i edrych ar arfer arloesol a chyflwyno gwasanaethau sy'n canolbwytio ar yr hyn sydd o werth go iawn i'r aelwyd sy'n cael ei gefnogi.

Yn olaf, o ran y sector rhent preifat, ni allaf adael hyn heb drafod y cynnig yn y Bil Rhentu Cartrefi a fydd yn gweld y moratoriwm chwe mis yn cael ei ddiddymu ac yn galluogi landlordiaid yn y sector rhent preifat i gyhoeddi tenantiaethau un mis o hyd. Er y gellid dadlau hyn o'r ddwy ochr, nid yw llawer o awdurdodau lleol yn croesawu hyn. Heb os, mae er lles pawb i weld cymunedau cynaliadwy, nid rhai lle mae'r trigolion yn wynebu ansefydlogrwydd y posiblirwydd o orfod gadael eu cartref bob mis?

## I gloi

- Er mwyn i awdurdodau lleol a phartneriaid fodloni'r galw, mae angen iddynt ddatblygu prosesau sy'n galluogi gweithwyr achos y rheng flaen i ganolbwytio ar yr hyn sy'n bwysig i'r aelwyd
- Er mwyn atal digartrefedd yn effeithiol, mae angen datblygu diwylliant cadarnhaol ym mhob asiantaeth sy'n gweithio gyda phobl a allai fynd yn ddigartref er mwyn iddynt allu bod yn rhan o'r ateb a chael gwared ar y galw'n gynnar
- Bydd cyhoeddiadau diweddar Cyllideb y Deyrnas Unedig yn cynyddu'r galw, ond maen nhw'n debygol o leihau'r adnoddau sydd ar gael i fodloni'r galw hwn
- Bydd y sector rhent preifat bellach yn chwaraewr hyd yn oed pwysicach wrth fodloni angen tai y rhai sy'n cael profiad o ddigartrefedd
- Mae angen i dai cymdeithasol a darparwyr tai cymdeithasol barhau i chwarae'r rôl arwyddocaol yn fwy nag erioed
- Mae angen i wasanaethau a ariennir gan raglen Cefnogi Pobl fod yn ddigon hyblyg i gefnogi aelwydydd a fydd yn symud yn anochel i'r sector rhent preifat yn dilyn y newidiadau mewn deddfwriaeth.
- Ni fydd diddymu'r moratoriwm chwe mis a gynigir yn y 'Bil Rhentu Cartrefi' yn cefnogi cymunedau cynaliadwy nac yn atal digartrefedd.

## Pennod 2: Traethawd 5

# Y STORI I FNY'R AFON: CEFNOGI POBL A'I LE MEWN GWEITHIO ATALIOL

**Auriol Miller, Cyfarwyddwr, Cymorth Cymru**  
@auriol\_miller

Yng Nghymru, fel mewn mannau eraill, rydym yn canolbwytio'n wirioneddol ar y peth "atal" yma.

Dylai fod yn amlwg mewn gwirionedd. Ceir y "stori i fny'r afon" glasurol, y mae pob un ohonom fwy na thebyg wedi'i chlywed cymaint o weithiau, gallwn ei hadrodd yn ein cwsg: afon, pobl yn boddi, defnyddio egnï'n achub, cwestiwn sydyn yn gofyn pam, archwilio ymhellach i fny'r afon, sylweddoli nad oes rhwystr, codi rhwystr, nid yw'r bobl yn cwympo i mewn rhagor. Wedi'i ddatrys.

Yn dilyn y ddameg syml honno, y syniad y tu cefn i atal yw ein bod yn atal mwy o gostau (personol cymdeithasol ac ariannol) yn nes ymlaen trwy fuddsoddi mewn atal. Mae'r dull ataliol hwn wedi'i wau trwy ddeddfwriaeth ddiweddar yng Nghymru, megis Deddf Tai (Cymru) a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Yn ogystal ag ymdrechu i symud gwasanaethau cyhoeddus yn agosach i fny'r afon, mae dulliau newydd yn annog gweithio'n agosach gydag unigolion. Mae Gofal Iechyd Darbodus, dull "Gallu a Gallu'n Unig" y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn annog dinasyddion i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain yn hytrach na dim ond dibynnu ar wasanaethau. Bydd y dulliau hyn ond yn gweithio mewn system gwbl ataliol, ac mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod holl bobl Cymru'n ymwybodol o'r newidiadau mewn dulliau er mwyn iddynt beidio â chael eu synnu pan ofynnir iddynt gymryd rhan yn fwy yn eu triniaethau neu gefnogaeth eu hunain. Os nad oes systemau ataliol ar waith, yna dim ond y rhai sy'n freintiedig o ran hyder, cyfoeth neu addysg fydd yn gallu elwa ar ddulliau "darbodus" - y rhai a all lywio gwasanaethau, deall yr hyn sy'n ddisgwylledig, a gwybod beth allant ei gael. Heb wasanaethau ataliol, mae'n annhebygol y bydd y rhai sydd heb arfer â systemau cymhleth yn gallu cymryd rhan yn y ffordd sy'n ddisgwylledig.

Gan ddod â phethau nôl at y "ddameg i fny'r afon": ar hyn o bryd, mae gofal iechyd darbodus, "Gallu a Gallu'n Unig" a symudiadau eraill, yn awgrymu yn hytrach nag adeiladu rhwystr enfawr i stopio pobl rhag cwympo i'r afon, rydym yn hytrach yn rhybuddio pobl ynghylch y risgau o gwympo i mewn i'r afon, heb y gost o adeiladu'r rhwystr. Neu, o fod ar ein mwyaf gobethiol, yn gofyn i bobl adeiladu'r rhwystr eu hunain o gael y deunyddiau crai gennym ni.

Ar yr olwg, mae mantais i hynny.

Fodd bynnag, beth os ystyriwn na all rhai unigolion ddeall y rhybudd? Beth os nad oes gan rai unigolion yn eu rhan hwy o'r afon unrhyw syniad sut i helpu adeiladu'r rhwystr? Beth os oes rhai unigolion eisoes wedi mynd heibio'r rhwystr ac yn dal ymlaen wrth lan yr afon gerfydd eu hewinedd? Beth os cwympon nhw i mewn i'r afon flynyddoedd yn ôl ac yn ceisionofio'n ôl tuag at y lan ac eisiau tynnau eu hunain allan?

Amser i gamu i ffwrdd o'r gyfatebiaeth: dyma lle mae'r Raglen Cefnogi Pobl yn darganfod ei hun.

Mae'n rhwystr sy'n atal mwy o gost mewn sawl "afon" gwahanol, a dyma lle saif ei effeithiolrwydd - a'r anhawster wrth brofi'r effeithiolrwydd hwnnw.

Nid dim ond diogelu pobl rhag cwympo i mewn i un afon y mae Cefnogi Pobl yn ei wneud, ond rhag cwympo i mewn i sawl afon. Mae'n helpu delio ag argyfyngau, yn gweithio gyda phobl eisoes yn ddigartref neu mewn risg di-oed. Mae'n gweithio hefyd er mwyn i bobl hŷn neu bobl gydag anghenion dysgu allu byw mor annibynnol â phosibl am gyhyd â phosibl.

Llynedd, gweithiodd Rhaglen Cefnogi Pobl gyda thros 60,000 o bobl yng Nghymru. Mae'r manteision yn glir i'r rheiny sy'n gweithio o fewn y rhaglen. Mae'n arwain at lai o angen am wasanaethau mwy costus yn nes ymlaen. Nid dim ond rhethreg yw hyn; pobl go iawn gyda phrofiadau go iawn yw'r rhain.

Cafodd Sharon (newidiwyd ei henw) ei gosod yn Nhŷ Nightingale yng Nghaerdydd, ar ôl iddi ffoi o wyth mlynedd o drais yn y cartref. Roedd ganddi broblemau iechyd meddwl, a phe na bai hi wedi'i chefnogi, gallai fod wedi mynd i ragor o drafferthion, gan droi at wasanaethau statudol yn yr adran ddamweiniau a brys, er enghraift. Mae ei stori hi'n hynod gadarnhaol ac yn dangos y gall unrhyw un ohonom fynd trwy amser caled, ac y gall cefnogaeth weithio ac mae yn gweithio. Enillodd Sharon ddoethuriaeth mewn Mathemateg a chwblhaodd ei blwyddyn gyntaf yn astudio Meddygaeth. Mae hi nawr wedi symud allan o Dŷ Nightingale ac mae hi bellach yn astudio ei hail flwyddyn mewn meddygaeth yn y brifysgol ac eisiau bod yn feddyg teulu.

Gall Cefnogi Pobl weithredu fel gwasanaeth ataliol i sawl maes gwahanol: Iechyd, gofal cymdeithasol, tai, cyflawnwr troseddol, diogelwch cymunedol.

Wrth i'r heriau ariannol dyfu i'r gwasanaethau cyhoeddus ac i Gymru'n arbennig, mae'n hollbwysig ein bod ni'n cyflawni gweithio ataliol ar yr adeg iawn ac nad yw gweithio ataliol yn cael ei gadw at ddim ond y rhai sy'n ddigon hyderus i ofyn amdano, ond ei fod yno hefyd i'r sawl sydd fwyaf mewn angen ac a chanddynt y mwyaf i'w ennill ohono.

Yn anffodus, mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn wynebu cyfnod anodd.

Llynedd, cafodd ei chyllideb ei thorri gan 10% . Rydym wedi gweld engraiifftiau o ddarparwyr sydd wedi gweld nifer y bobl y gallant eu cefnogi'n cwympo. Mae hyn yn gwbl groes i'r hyn rydych chi ei eisiau mewn gwasanaeth ataliol. Dylai atal fod mor llithrig, eang ei ystod ac agored ag y gall fod, gydag ymyriadau'n nes ymlaen os ydy atal wedi methu â chael ei dargedu'n fwy ar y rhai mwyaf mewn angen. Trwy roi'r gyllideb hon dan bwysau ar adeg pan nad oedd erioed angen atal yn fwy, mae pob un ohonom mewn perygl o greu problemau enfawr yn nes ymlaen – i bob gwasanaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod mor gefnogol ag y gall fod, ac rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth barhaus gan bob plaid i'r rhaglen. Wrth i ni edrych ar osod y gyllideb ar gyfer blwyddyn olaf y Cynulliad, rydym yn obeithiol y gellir osgoi rhagor o doriadau, a gwyddwn fod y gwleidyddion yn awyddus i osgoi hynny hefyd os oes modd.

Mae tair prif her o'n blaenau ni i gyd wrth i ni gyd anelu at arddangos gwerth Cefnogi Pobl:

- 1. Codi proffil y rhaglen:** Er mwyn sicrhau y cedwir y grant ataliol hollbwysig hwn, rhaid meithrin cysylltiadau mewn iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn i'r holl wasanaethau weld ei bwysigrwydd. Mae hyn yn golygu codi'r proffil yn ehangach gyda'r cyhoedd ond ar draws gwahanol adrannau hefyd.
- 2. Dangos effeithiolrwydd y rhaglen:** gwyddwn fod Cefnogi Pobl yn gwneud gwahaniaeth. Mae edrych ar astudiaethau achos o unigolion yn dangos yr arbedion cost y gellir eu cyflawni trwy'r rhaglen. Fodd bynnag, yn yr un modd â rhaglenni tebyg fel Dechrau'n Deg, mae'n llawer mwy anodd tynnu llun cenedlaethol o'r cyfanswm costau a gynilwyd, oherwydd bod dadansoddi data yn her. Mae hyn yn rhannol oherwydd yr ystod eang o feisydd y mae Cefnogi Pobl yn eu cwmpasu, sy'n ei gwneud hi'n anos dod o hyd i garfan glir ac olrhain cynnydd. Ond mae'n rhywbeth rydym yn gweithio'n ddiflino arno er mwyn cefnogi gwaith yn y maes hwn.
- 3. Tynnu sylw at bobl "anweladwy":** mae tipyn o'r unigolion a gefnogwyd gan y rhaglen yn "anweladwy", y rhai a welir gan y cyhoedd dim ond pan fydd pethau'n mynd o'i le. Nid yw llawer o'r unigolion a gefnogwyd yn "boblogaidd", ond dyma'n union pam mae angen cefnogaeth arnynt ar frys a pham y mae angen iddynt wybod y bydd y gefnogaeth hon yn parhau i fod yno.

Mae pwysigrwydd Cefnogi Pobl yn glir, a dyna pam y mae Cymorth Cymru wedi ymuno â Chartrefi Cymunedol Cymru er mwyn ymgyrchu i gynyddu'r cyllid hwn, yn ein hymgyrch ar y cyd Gadewch i ni Barhau i Gefnogi Pobl . Mae'r gwaith yn parhau y tu ôl i'r llenni i ddarparu dystiolaeth feintiol gliriach o ran ei heffaith genedlaethol – ond mae ei heffaith leol eisoes yn amlwg, ac rydyn ni'n

benderfynol fod hyn yn ddigon i wneud penderfyniadau eleni i ddiogelu'r gyllideb hon.

Rydym am i'r sector cyfan fod ynghlwm, ac mae sawl ffordd wahanol y gallwch wneud hyn:

- Cael sgyrsiau gyda gwasanaethau cysylltiedig eraill (iechyd, gofal cymdeithasol etc) a gweld ydyn nhw'n ymwybodol o werth y rhaglen yn eu hardal eu hunain.
- Gwahodd cynghorwyr etholedig lleol (yn enwedig aelodau'r pwylgor craffu) ac Aelodau'r Cynulliad i'ch gwasanaethau, er mwyn iddynt allu gweld yr unigolion a gefnogant, a deall yn well y manteision ar gyfer eu hardal.
- Ysgrifennu blogiau am eich profiadau / syniadau ar Raglen Cefnogi Pobl, a'u hanfon at Cymorth Cymru / Cartrefi Cymunedol Cymru i'w rhannu ar-lein.
- Ymgynnll pobl rydych chi wedi'u cefnogi, a rhannu eu straeon gyda'r papurau lleol.
- Rhannu astudiaethau achos o bobl rydych chi wedi'u cefnogi gyda Cymorth Cymru / Cartrefi Cymunedol Cymru er mwyn i ni allu eu defnyddio i godi ymwybyddiaeth ar raddfa ehangach.
- Rhannu newyddion am yr ymgyrch arlein ac mewn cyfryngau eraill.
- Rhannu'ch gefnogaeth i'r ymgyrch yn gyhoeddus.

Mae sawl ffordd o gymryd rhan, a byddwn yn gwahodd pawb sy'n poeni am y rhaglen hon i ymuno gyda ni.

## Dychmygu

Os dychmygwn sut gallai Cymru edrych heb raglen Cefnogi Pobl, hwyrach y byddem yn cael hunllefau. Gwyddwn eisoes am y pwysigrwydd o'r newydd sydd ynghlwm ag atal. Cefnogi Pobl yw un o'r prif raglenni ataliol a heb arbenigedd, profiad a gwybodaeth y rhaglen, byddai pob un ohonom mewn man llawer tywyllach.

Gan ddychwelyd i'r "ddameg i fyny'r afon": mae pobl yn cael eu helpu'n gynnar, ac nid ydynt yn boddi mwyach. Mae rhai yn dal i gwympo trwedd – mae hynny'n anochel. Ond mae llawer wedi'u cefnogi i symud ymlaen. Heb y llif ariannu hwn, ble byddant yn mynd?

"I lawr yr afon. Ymhellach ac ymhellach "i lawr yr afon".

I grynhoi: mae mwy a mwy o bwysau ar y gwasanaethau statudol. Mwy a mwy o gost. Ond yn bwysicach na hynny: mae'n golygu bod bywydau a allai gael eu gwneud llawer yn well, yn cael eu galluogi i edwino, mynd yn ddibynnol ar wasanaethau a cholli gobaith o well dyfodol. Cenedl gymunedol yw Cymru, rydym yn cyd-dynnu i gefnogi pobl mewn trfferth. Mae'r rhaglen hon yn un engraiifft o hynny.

Felly Gadewch i Ni Barhau i Gefnogi Pobl.

So let's keep supporting people.

45 <http://www.insidehousing.co.uk/welsh-government-cuts-supporting-people-budget-by-10m/7006022.article>

46 <http://www.cymorthcymru.org.uk/en/policy/campaigns/lets-keep-supporting-people>



PENNOD 3

# SYLWADAU A DADANSODDI

JULIE NICHOLAS



**PRINCIPALITY**  
COMMERCIAL



Cardiff  
Metropolitan  
University

Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd

# 1: RHAGARWEINIAD

Dyma chweched Adolygiad Tai Cymru, a'r un cyntaf i gael ei ysgrifennu o fewn cyd-destun Deddf Tai Cymru a Llywodraeth Geidwadol fwyafrifol yn San Steffan, yn dilyn etholiad cyffredinol mis Mai 2015 .

Lansiwyd adolygiad y llynedd yn yr un mis ag y rhoddwyd y sêl Gymreig i Ddeddf Tai (Cymru) 2014 , y 13eg ddeddf i gael cydsyniad brenhinol ers dechrau pedwerydd tymor y cynulliad ym Mae Caerdydd. Mae'n darparu ar gyfer newid sylweddol i'r gymuned tai yng Nghymru, gydag addasiadau pellach yn cael eu gwneud yn sgil pasio Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) cyn etholiadau'r cynulliad ym mis Mai 2016.

Yn ogystal, lansiwyd adolygiad 2014 yn ystod yr un mis â refferendwm annibyniaeth yr Alban a'r ad-drefniant i gabinet Llywodraeth Cymru . Gwelodd yr un olaf y gweinidog tai ac adfywio, Carl Sargeant, yn symud i ddod yn weinidog cyfoeth naturiol, gan gadw dim ond cynllunio o'i bortffolio blaenorol. Yn y cyfamser, symudwyd y gyfarwyddiaeth tai ac adfywio i weinidogaeth cymunedau a threchu tlodi dan ofal ei gweinidog newydd, Lesley Griffiths. Er bod 'israddio' tai ac adfywio'n siom i'r nifer fawr yng nghymuned tai Cymru, ystyriwyd hefyd ei fod yn gyfle i ailldatgan yr achosiaeth uniongyrchol rhwng yr argyfwng tai a'r lefelau tlodi ac anghydraddoldeb sy'n codi.

Mae ein sylwadau a'n dadansoddiad yn 2015 yn:

- crynhoi'r datblygiadau datganoli diweddar a sylweddol yn y Deyrnas Unedig;
- archwilio deddfwriaeth a pholisiau San Steffan a Chymru sy'n berthnasol i'r sector tai;
- ystyried tueddiadau demograffig ac yn asesu'r effaith ar gyfer tai;
- dadansoddi'r cyd-destun economaidd ac yn cyflwyno diweddarriad ar gynnydd y diwygiadau lles a'u heffaith yng Nghymru;
- cyflwyno darpariaeth gyfredol tai cymdeithasol, cyd-destun y cyflenwad cyfredol a'r safonau yng Nghymru a'r fframweithiau ariannu cyfalaf ar draws y Deyrnas Unedig;
- cymryd golwg ar yr hyn sy'n digwydd yn y sector preifat – cartrefi i'w rhentu a pherchen-feddiannaeth, ac ymyriadau wrth gefnogi ei rôl wrth fodloni'r angen am dai yng Nghymru;
- trafod ymatebion y sector i wella Llywodraethu, gyda chrynodeb o gomisiwn Llywyddol CIH ar amrywiaeth mewn arweinyddiaeth tai;
- adlewyrchu ar effaith dulliau newydd o leihau digartrefedd a chynyddu annibyniaeth, gan gynnwys

diweddariadau ar y rhaglen cefnogi pobl;

- rhoi diweddariad ar brosiectau a pholisiau adfywio yng Nghymru ac yn ystyried effaith prosiectau isadeiledd mawr arfaethedig ar gyfer tai;
- dathlu 100fed rhifyn Welsh Housing Quarterly sydd ar ddod, ac yn dweud diolch wrth y ddau bencampwr gwleidyddol arweiniol ar gyfer tai Cymru, a fydd yn camu i lawr o'r Senedd ar ddiwedd tymor y cynulliad; ac yn
- cloi gyda maniffesto CIH Cymru sy'n gofyn am etholiadau Cynulliad Cymru 2016, yn dilyn ymgynghoriad gyda'n haelodaeth ym mis Awst 2015.

# 2: DATGANOLI YN Y DEYRNAS UNEDIG

Ym mhennod dau uchod, cyflwyna adolygiad eleni hanes datganoli yng Nghymru o safbwyt tai gan Linda Whittaker. Lansiwyd adolygiad y llynedd ar yr un diwrnod â'r refferendwm ar annibyniaeth yr Alban , 18 Medi 2014. Yn ystod y cyfnod cythryblus a arweiniodd at y refferendwm, awgrymodd y polau piniwn fod y canlyniad yn rhy agos i ddyfalu. Daeth yr wythnos hon yn un rhyfeddol o benawdau papur newydd ac addewidion gwleidyddol i bobl yr Alban. Yn y diwedd, ymddangosodd 84.6% i'r etholiad am refferendwm yr Alban gyda'r bleidlais na'n cywain 55.25%, gan olygu bod yr uniad yn parhau'n ddigywnewid. Ymddangosodd dros 90% i bleidleisio mewn rhai ardaloedd a olygai diwrnod da iawn i'r broses ddemocrataidd yn yr Alban .

Ddeuddydd ar ôl y refferendwm, sefydlwyd Comisiwn Smith , dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Smith o Kelvin, fel corff hollol annibynnol i hwyluso trafodaethau ar ddatganoli pwerau pellach i Senedd yr Alban, ac ym mis Hydref, cyhoeddodd y blaid Geidwadol, y Democratiaid Rhyddfrydol a Llafur bapur gorchymyn yn gosod y cynigion ar gyfer datganoli pellach. Cyhoeddodd comisiwn Smith ei adroddiad ar 27 Tachwedd 2014 yn rhoi manylion penawdau cytundeb ar ddatganoli pwerau pellach i Senedd yr Alban, gyda'r Arglwydd Smith yn atgoffa'r darllenwyr fod "Yr Alban wedi pleidleisio 'Na', ond iddi wneud hynny gyda phob un o dair prif bleidiau'r Deyrnas Unedig yn addo mwy o bwerau i Senedd yr Alban" . Ym mis Ionawr 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig bapur gorchymyn arall yn cynnwys cymalau drafft gyda'r nod o symud y penawdau cytundeb a gynhwyswyd yn Adroddiad Comisiwn Smith yn eu blaen.

Yng Nghymru, sefydlwyd comisiwn ar ddatganoli dan gadeiryddiaeth Paul Silk yn 2011 i adolygu'r trefniadau

47 <http://www.bbc.co.uk/news/election-2015-32633008>

48 <http://www.legislation.gov.uk/ana/w2014/7/contents/enacted>

49 <http://scotlandreferendum.info/>

50 <http://www.insidehousing.co.uk/wales-loses-housing-minister-role-from-cabinet/7005677.article>

51 <http://www.insidehousing.co.uk/business/regulation/marginalisation-fears-as-cabinet-post-scraped/7005781.article>

52 <http://www.insidehousing.co.uk/wales-loses-housing-minister-role-from-cabinet/7005677.article>

53 <https://www.gov.uk/government/topical-events/scottish-independence-referendum>

54 <http://www.dailypress.co.uk/news/politics/david-cameron-ed-miliband-nick-4265992>

55 <http://scotlandreferendum.info/>

56 <http://www.democraticaudit.com/?p=7793>

57 <http://www.smith-commission.scot/>

58 [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/363236/Command\\_paper.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/363236/Command_paper.pdf)

ariannol a chyfansoddiadol oedd ohonynt. Cyhoeddodd comisiwn Silk ei adroddiad cyntaf oedd yn canolbwytio ar bwerau cyllidol yn 2012 a'i ail adroddiad yn 2014 ar bwerau ehangach Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Datganodd Silk 1 fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unigryw mwy na thebyg, am fod ganddo 'bwerau deddfwriaethol a gwario ond nid pwerau treth a benthyg' a chasglodd y byddai cyfuniad o grant bloc parhaus ochr yn ochr â datganoli trethi dethol yn fodel cyllidol dewisol. Cynigiwyd ystod o drethi llai ar gyfer datganoli i Gymru gan gynnwys treth dir y dreth stamp.

Ym mis Mawrth 2014, adroddodd Silk 2 ei argymhellion ar y trefniadau cyfansoddiadol diwygiedig, a gynigiwyd o fewn amserlen weithredu graddol dros ddeng mlynedd. Argymhellodd y comisiwn y dylai'r model rhoi pwerau presennol gael ei ddisodli gan fodel cadw pwerau. Byddai hyn yn golygu y byddai'r trefniant yn gosod yn glir y cyfyngiadau ar faes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, gan leihau'r posiblwydd o amheuaeth yngylch ydy pwnc deddfwriaeth wedi'i roi neu heb ei ddatganoli, a gwneud deddfwriaeth yn llai tueddol o gael ei chyfeirio at y Goruchaf Lys. Argymhellodd y comisiwn y dylai'r system nawdd cymdeithasol barhau i fod heb ei datganoli. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i Silk 2 gan ddatgan ei chefnogaeth o blaid cyfeiriad y daith arfaethedig.

Yn San Steffan, cafodd Deddf Cymru 2014 gydsyniad brenhinol ar 17 Rhagfyr ar ôl tynnu ymaith y cynnig 'camu clos' dadleuol ac mae bellach yn ddeddf seneddol. Mae'n rhoi ar waith rhai o argymhellion Comisiwn Silk, gan gynnwys datganoli rhai trethi megis Treth Dir y Dreth Stamp, a darparu ar gyfer refferendwm yng Nghymru yngylch a dylai elfen o dreth incwm gael ei datganoli. Mae'n darparu hefyd ar gyfer benthyca gan Weinidogion Cymru gan gynnwys gosod terfyn ar swm y ddyled tai y gallai awdurdodau tai lleol unigol yng Nghymru sy'n cadw cyfrif refeniw tai ei ddal, ond mae trysorlys y Deyrnas Unedig yn cadw'r hawl i gyfyngu ar gyfanswm dyled tai y Cymru. Cynhaliwyd ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru yn gynharach eleni ar fformat treth newydd i ddisodli Treth Dir y Dreth Stamp yn 2018 ar gyfer gwerthiannau eiddo yng Nghymru.

Ym mis Rhagfyr 2014, cynhaliwyd cyfarfod pwyllgor gweinidogol ar y cyd ar newid cyfansoddiadol yn Downing Street, dan gadeiryddiaeth David Cameron, gyda phrif weinidog a dirprwy brif weinidog y Lywodraeth glymplaid yn San Steffan yn cyfarfod ag arweinwyr Lywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Lywodraeth Cymru. Gan nodi bod y dirwedd gyfansoddiadol wedi

newid yn sylfaenol ers y memorandwm o ddealltwriaeth blaenorol rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig yn 2012, gyda Silk 2 yng Nghymru (a drafodwyd yn adolygiad y llynedd) ac adroddiadau comisiwn Smith yn yr Alban wedi'u cyhoeddi, cafwyd cytundeb i gomisiynu gwaith ar femorandwm o ddealltwriaeth diwygiedig.

Mae Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, wedi datgan yn fynych ei ddyhead am gonfensiwn cyfansoddiadol i gefnogi undeb y Deyrnas Unedig, lle byddai Cymru'n cael ei thrin yn bartner cyfartal ynddi. Cefnogir ei safbwytiau gan etholaeth Cymru, os ydy canfyddiadau adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig a gyhoeddwyd yn 2015 yn wir.

Mae datblygiadau datganoli mwy diweddar yn cynnwys symudiad tuag at fwy o ddatganoli yn Lloegr megis trefniadau 'Devo Manc' sy'n cefnogi pwerdy gogleddol, gyda phwerau ychwanegol gan gynnwys cynllunio'n cael eu cyhoeddi yng nghyllideb Gorfennaf 2015, y rhagolwg o bleidleisiau Seisnig i gyfreithiau Seisnig datrys y cwestiwn 'West Lothian' bondigrybwyl, ac wrth gwrs y cwestiwn eithriadol dros ddyfodol fformiwlw Barnett lle cafodd diogelwch ei addo wrth arwain at refferendwm yr Alban tra gwnaeth Lywodraeth Cymru alwadau i fynd i'r afael â'r diffyg mewn fformiwlw; amcangyfrifir bod Cymru yn cael ei thanariannu gan £300m y flwyddyn".

Mae tai yn un o ugain o feysydd y mae Senedd y Deyrnas Unedig eisoes wedi trosglwyddo'r pŵer deddfwriaethol amdanyst i'r Cynulliad Cenedlaethol, dan Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, ac mae datganoli'n parhau i yrru cyflymder y newid mewn tai Cymru; mae'n anodd meddwl am faes tai nad yw'n cael ei effeithio gan ddeddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd ddiweddar gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu ganllawiau statudol sy'n deillio o Lywodraeth Cymru.

Mae dull tai cyfredol Lywodraeth Cymru yn ddull o blaid ymyrraeth ar draws y farchnad, 'steward system' sy'n canolbwytio ar gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth gyda Lywodraeth leol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac yn fwyfwy gyda'r sector preifat. Mae cyhoeddiadau diweddar ar fwriad polisi tai Lloegr megis ymestyn hawl i brynu, wedi gadael polisi tai Cymru ymhellach i ffwrdd o Loegr nag erioed o'r blaen. Yng Nghymru, mae ffocws y polisi ar gynyddu cyflenwad y cartrefi gwirioneddol fforddiadwy a gwella darpariaeth a safonau yn y sector preifat gydag ymrwymiad cryf i gyflawnedr cymdeithasol, adfywio a thai cymdeithasol

59 [http://www.smith-commission.scot/wp-content/uploads/2014/11/The\\_Smith\\_Commission\\_Report-1.pdf](http://www.smith-commission.scot/wp-content/uploads/2014/11/The_Smith_Commission_Report-1.pdf)

60 [http://www.smith-commission.scot/wp-content/uploads/2014/11/The\\_Smith\\_Commission\\_Report-1.pdf](http://www.smith-commission.scot/wp-content/uploads/2014/11/The_Smith_Commission_Report-1.pdf) page 3.

61 [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/397079/Scotland\\_EnduringSettlement\\_acc.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/397079/Scotland_EnduringSettlement_acc.pdf)

62 <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140605075122/http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/>

63 <http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/files/2012/11/English-WEB-Executive-Summary.pdf>

64 <http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/files/2014/03/Empowerment-Responsibility-Legislative-Powers-to-strengthen-Wales.pdf>

65 <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140605075122/http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/files/2014/03/Empowerment-Responsibility-Legislative-Powers-to-strengthen-Wales.pdf>

66 <https://assemblybrief.wordpress.com/tag/reserved-powers/>

67 <http://wales.gov.uk/docs/caecd/publications/140701-silk-2-response-en.pdf>

68 <http://services.parliament.uk/bills/2014-15/wales.html>

69 <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-29310648>


70 <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/29/section/24/wales/2015-02-17?view=plain>

71 <http://gov.wales/docs/caecd/consultation/150210-land-transaction-tax-en.pdf>


### 3: DEMOGRAFFEG

Rhoddodd cyfrifiad 2011 gyfanswm poblogaeth uwch na'r amcan o 3.063 miliwn, 0.9% yn uwch na'r amcan, ond nifer is na'r amcan o aelwydydd, sef 1.302m oedd 2.4% yn is na'r disgwyl, gyda maint aelwyd cyfartalog yn 2.30 person o gymharu â'r amcan o 2.23. Roedd poblogaeth y sefydliad cymunedol 20% yn uwch na 2011 ar 52,000.

Yn unol â datganiad ystadegol 2015 mae gan Gymru boblogaeth o ychydig dros dair miliwn o bobl yn byw mewn 1.3 miliwn o aelwydydd. Mae rhyw 25% o gyfanswm y boblogaeth yn byw mewn tair o ardaloedd trefol De Cymru; Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd. Mae trigolion Cymru'n gwneud 5% o gyfanswm poblogaeth y Deyrnas Unedig, a dywed 20% o boblogaeth Cymru y gallant siarad Cymraeg.



Dengys yr amcanestyniadau seiliedig ar gyfrifiad 2011 gynnydd blynnyddol parhaus yng nghyfanswm nifer yr aelwydydd yng Nghymru, gyda chyfartaedd ychwanegol o 8,800 yn fwy o aelwydydd fesul blwyddyn wedi'u rhagamcanu yn ystod y deng mlynedd nesaf; gan roi bron i 100,000 o aelwydydd newydd erbyn 2025, gan ddod â chyfanswm nifer yr amcanestyniadau aelwydydd i 1,427,677.



Gallwn weld fod yr amcanestyniadau aelwydydd yn amrywio'n ddramatig yn ôl ardal awdurdod lleol, gan amrywio o dwf negyddol ym Mlaenau Gwent (-0.40%) i dwf o fwy na 30% yng Nghaerdydd. Gyda chyfanswm twf aelwydydd Cymru ar 11.13% rhwng 2015 a 2035, rhagamcanwyd mai ardaloedd gogleddol a gwledig ar y cyfan oedd â'r twf isaf, gyda rhai eithriadau, yn nodedig Wrecsam yn y gogledd gyda ffugur twf amcanol o 20.64%.

72 <https://www.gov.uk/government/news/joint-ministerial-committee-communique-december-2014>

73 <https://www.gov.uk/government/publications/devolution-memorandum-of-understanding-and-supplementary-agreement>

74 <http://www.cih.org/resources/PDF/Wales%20Policy/CIH016%20Welsh%20Housing%20Review.pdf>

75 <http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/42c9ad1-555b-470c-a5d6-1709d8f1e544?startPos=7&autoplay=True#>

76 <http://www.iwa.org.uk/en/publications/view/242>

77 <http://www.theguardian.com/public-leaders-network/2014/nov/03/devo-manc-powers-greater-manchester-mayor>

78 <http://www.bbc.co.uk/news/uk-england-manchester-33448965>

79 <http://www.bbc.co.uk/news/uk-politics-33530765>

80 <http://www.parliament.uk/site-information/glossary/west-lothian-question/>

81 <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-29229801>

82 <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-29279701>


83 <http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-legislation.htm>

84 <http://www.cih.org/resources/PDF/Policy%20free%20download%20pdfs/UKHR%20Briefing%202015.pdf>


85 <http://www.instituteforgovernment.org.uk/news/latest/stewardiaeth-y-system-%E2%80%93-system-stewardship-welsh-style>

86 source: Stats Wales presentation at Housing Information Group April 2015

87 <http://gov.wales/statistics-and-research/wales-summary/?lang=en>



Awgryma adroddiad Homelessness Monitor Wales a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Crisis a JRF gan ddefnyddio data arolwg o'r llafur er y cafwyd dirywiad mewn ffuriant aelwydydd newydd yng Nghymru, yn enwedig er 2010, yn y grŵp oedran 20-34, ceir nifer gynyddol o aelwydydd cudd nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn y data; byddai nifer gynyddol y sefydliadau cymunedol yn cefnogi'r canfyddiad hwn.




Disodlwyd yr arolwg byw yng Nghymru a gynhaliwyd am y tro olaf yn 2008 gan Arolwg Cenedlaethol Cymru, gyda data cysylltiedig â thai cyfyngedig iawn. Fodd bynnag, gan ddefnyddio'r English housing survey gallwn weld bod tueddiadau tai rhwng cenedlaethau'n parhau i ffafrio pobl hŷn o ran perchnogaeth ar dai, cyfoeth ac asedau.

88 [http://www.crisis.org.uk/data/files/publications/HomelessnessMonitorWales2015\\_final.pdf](http://www.crisis.org.uk/data/files/publications/HomelessnessMonitorWales2015_final.pdf)

89 <http://gov.wales/statistics-and-research/living-in-wales-survey/?lang=en>

90 <https://www.gov.uk/government/collections/english-housing-survey>

Gan adlewyrchu effeithiau'r dirwasgiad, y tangyflenwad tai a'r newidiadau mewn budd-daliadau lles, awgrymant fod y dirywiad hwn yn arwydd o'r aelwydydd cudd cynyddol; bod Cymru bellach yn dilyn tuedd Lloegr o ran y canlyniadau gwahaniaethol rhwng cenedlaethau.



## 4: 4. DEDDFWRIAETH NEWYDD, RHEOLIADAU A PHOLISIAU SY'N DOD I'R AMLWG

Wrth gwrs, Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) oedd y bil aelodau preifat cyntaf, a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol gan Peter Black o'r Democratiaid Rhyddfrydol yn 2012, a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig â thai cyntaf, a gafodd gydsyniad brenhinol ym mis Tachwedd 2013. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf Tai (Cymru) newydd yn gam enfawr ymlaen i'r sector, gan ddiffinio'n glir uchelgais llywodraeth Cymru ar gyfer rôl tai yng Nghymru, eu dull o droi ato a'u dealltwriaeth ohono; fel math o isadeiledd hollbwysig; grym ar gyfer cyfiawnder cymdeithasol, a chydubyddiaeth glir o fwriad parhaus y llywodraeth i edrych ar y diwydiant tai fel system marchnad gyfan. Mae deddfwriaeth sy'n deillio o'r Senedd yn darparu atebion Cymreig amlwg i fynd i'r afael â materion Cymreig.

Pasiwyd sawl deddf newydd gyda chynnwys cysylltiedig â thai ers yr adolygiad diwethaf.

Deddf Tai (Cymru) 2014, 17 Medi 2014 .

Prif ddibenion y ddeddf yw:

- cyflwyno cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol ar gyfer landlordiaid y sector rhent preifat ac asiantaethau gosod a rheoli;
- diwygio'r gyfraith ddigartrefedd, gan gynnwys gosod dyletswydd gryfach ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd a'u galluogi i ddefnyddio llety addas yn y sector preifat;
- gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle mae angen wedi'i nodi;
- cyflwyno safonau i'r awdurdodau lleol ar renti, ffioedd gwasanaeth ac ansawdd y llety;
- diwygio system Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai;
- rhoi grym i'r awdurdodau lleol godi 50% yn fwy na chyfradd safonol y dreth gyngor ar gartrefi sydd wedi bod yn wag ers blwyddyn neu'n fwy; a
- chynorthwyo'r ddarpariaeth tai trwy gymdeithasau tai cydweithredol.

<sup>91</sup> <http://www.senedd.assemblywales.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Id=4729>  
<sup>92</sup> <http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?Id=8220>

Mae ymgynghoriadau sylweddol, deddfwriaeth eilaidd a chanllawiau wedi dilyn esgyniad y ddeddf. Dan ran un y ddeddf, bydd cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol i bob landlord ac asiantaeth sy'n darparu cartrefi rhent preifat yng Nghymru'n dod i rym yn yr hydref 2015. Daeth ymgynghoriad i ben ym mis Mai ar God Ymarfer i Landlordiaid ac Asiantaethau'r Sector Rhent Preifat, sy'n ymwneud â'r darpariaethau a gyflwynwyd yn rhan un ddeddf 2014.

Lansiwyd gwasanaeth Rhentu Doeth Cymru ym mis Gorffennaf 2015 gan ddisodli'r cynllun Achredu Landlordiaid Cymru gwirfoddol presennol, a weithredwyd yn flaenorol gan Gyngor Caerdydd. Gwasanaeth cenedlaethol sengl fydd hwn fydd yn gweithredu ar ran pob awdurdod lleol yng Nghymru. Trafodir hwn yn fanylach yn nes ymlaen yn y rhan ar y sector rhent preifat.

Dan ran dau'r ddeddf newydd, mae dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaeth atal digartrefedd statudol, fel y trafodir ym Mhennod 2 gan y traethodydd gwadd, Chris Price. I gyd-fynd â hyn, cyhoeddwyd cod arweiniad i'r awdurdodau lleol ar ddyrannu llety a digartrefedd ym mis Awst 2015 er mwyn arwain gweithrediad y ddeddf newydd. Mae rhan un y cod yn ymwneud â dyrannu llety yn unol â rhan pedwar Deddf Tai 1996, a ddiweddarwyd i adlewyrchu'r newidiadau mewn deddfwriaeth a chyfraith achosion, wrth i ran dau'r cod gwmpasu rhan dau deddf 2014, gan gynnwys y dyletswydd atal newydd.

Adeg ysgrifennu, roedd ymgynghoriad agored ar waith i gasglu safbwytiau ar y llwybr cenedlaethol drafft ar gyfer gwasanaethau digartrefedd i blant, pobl ifanc ac oedolion yn yr ystâd ddiogeled mewn ymateb i ran 70 deddf tai, sy'n newid y statws digartrefedd 'angen blaenoriaethol' i'r rheiny sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa.


### **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, 29 Ebrill 201<sup>93</sup>**

Prif ddibenion y ddeddf yw:

- gosod fframwaith lle bydd awdurdodau cyhoeddus penodedig Cymru'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain (yr egwyddor datblygu cynaliadwy);
- rhoi nodau llesiant ar waith y dylai'r awdurdodau hynny geisio'u cyflawni er mwyn gwella llesiant nawr ac yn y dyfodol;

- nodi sut dylai'r awdurdodau hynny ddangos eu bod yn gweithio tuag at y nodau llesiant,
- rhoi byrddau gwasanaethau cyhoeddus a chynlluniau llesiant lleol ar sail statudol ac, wrth wneud hynny, symleiddio'r gofynion cyfredol o ran cynllunio cymunedol integredig; a
- sefydlu comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol i Gymru er mwyn hyrwyddo cenedlaethau'r dyfodol a fydd yn cyngori ac yn cefnogi awdurdodau cyhoeddus Cymru wrth gynnal eu dyletswyddau dan y bil.

Rhododd y ddeddf saith nod llesiant ar waith. Yn cyd-fynd â'r ddeddf oedd proiect 'Y Gymru a Garem'; sef sgwrs cenedlaethol i wella dealltwriaeth o'r materion tymor hir y gallai cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru eu hwynebu, annog pobl i gofrestru fel 'pencampwyr y dyfodol' a ffurio'r agenda ar gyfer y camau y gall y gwasanaeth cyhoeddus datganoledig, yn arbennig, eu cymryd. Gyda deuddeg maes pwnc,



y mae tai'n un ohonynt, canolbwytio ar gyflenwad, safonau, digartrefedd ac effeithlonrwydd ynni; mae taflen ffeithiau tai sy'n ymwneud a'r Ddeddf a'r sgwrs ar gael.

### **Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, 29 Ebrill 201<sup>100</sup>**

Bwriad darpariaethau'r bil yw sicrhau ffocws ar draws y sector cyhoeddus ar atal y materion hyn, diogelwch y dioddefwyr a'r gefnogaeth i'r sawl sy'n cael eu heffeithio gan y materion hynny.

Mae'r bil yn gosod dyletswyddau ar weinidogion Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i baratoi a chyhoeddi strategaethau gyda'r nod â dod â cham-drin domestig, trais seiliedig ar rywedd a thrais rhywiol i ben. At hynny, mae'r bil yn rhoi pŵer i weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau perthnasol ar sut dylent gyflawni eu

93 <http://gov.wales/consultations/housing-and-regeneration/private-rented-sector-code-of-practice-for-landlords-and-agents/?status=closed&lang=en>

94 <https://www.welshlandlords.org.uk/>

95 <http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/managing-social-housing/allocate/?lang=en>

96 <http://gov.wales/consultations/housing-and-regeneration/national-pathway-for-homelessness-services/?status=open&lang=en>

97 <http://www.senedd.assembly.wales/mgtIssueHistoryHome.aspx?Id=10103>

98 <http://thewalessewwant.co.uk/about>

99 <http://thewalessewwant.co.uk/themes/housing>

100 <http://www.senedd.assembly.wales/mgtIssueHistoryHome.aspx?Id=10028>

swyddogaethau gyda'r bwriad o gyfrannu at roi diwedd ar gam-drin domestig, trais seiliedig ar rywedd a thrais rhywiol. Mae'r bil yn cynnwys darparu ar gyfer penodi ymgynghorydd gweinidogol.

Mae'r canllawiau statudol drafat ar y fframwaith hyfforddiant cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Cynigia'r fframwaith, a chanddo'r nod o sicrhau ffocws ar draws y sector cyhoeddus ar atal y materion hyn, diogelu'r dioddefwyr a'r gefnogaeth i'r rheiny sy'n cael eu heffeithio gan y materion hynny, lefelau hyfforddiant a ddisgrifir fel 'grwpiau' ac o dan y rhain, mae'n datgan y math o weithwyr proffesiynol y disgwylir iddynt gymryd rhan yn y grwpiau hyfforddiant.

Mae llywodraeth Cymru wedi cynnwys gweithwyr tai, dewisiadau tai a digartrefedd dan 'Grŵp 2' sy'n berthnasol i staff gwasanaeth cyhoeddus sy'n destun gofynion hyfforddi. Felly, bydd yn ofynnol i hyfforddeion 'Grŵp 2', sy'n cynnwys gweithwyr tai proffesiynol, ymgymryd â'r hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu" newydd, sy'n canolbwytio ar ddatblygu sgiliau i ymgymryd ag ymholaï targedig ar gyfer staff sy'n wynebu'r cyhoedd, o fewn cynllun cyflawni cychwynnol o bum mlynedd

### Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, 6 Gorffennaf 2015<sup>102</sup>

Prif ddibenion y bil yw:

- Cryfhau'r dull dan arweiniad cynlluniau o gynllunio. Mae'r Bil yn cyflwyno fframwaith cyfreithiol newydd i Weinidogion Cymru allu paratoi cynllun defnydd tir cenedlaethol, a elwir yn fframwaith datblygu cenedlaethol Cymru. Bydd y fframwaith yn nodi blaenoriaethau defnydd tir cenedlaethol a gofynion isadeiledd ar gyfer Cymru.
- Gwneud darpariaeth ar gyfer llunio cynlluniau datblygu strategol, i fynd i'r afael â materion traws-ffiniol nad ydynt yn rhai lleol, fel cyflenwad tai ac ardaloedd ar gyfer twf ac adfywio economaidd.
- Gwneud darpariaeth ar gyfer ymgynghori cyn ymgeisio, a gofyn i awdurdodau cynllunio lleol ddarparu gwasanaethau cyn ymgeisio.
- Gwneud darpariaeth i wneud ceisiadau cynllunio ar gyfer prosiectau o bwys cenedlaethol i Weinidogion Cymru. Bydd ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio yn gallu gwneud cais i Weinidogion Cymru hefyd am ganiatâd cynllunio lle ystyri'r bod awdurdod cynllunio lleol yn perfformio'n wael.
- Diwygio'r system o reoli datblygu i symleiddio gweithdrefnau, er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau yn brydlon, gan roi sicrwydd i ddatblygwyr a chymunedau.
- Gwella gweithdrefnau gorfodi ac apelio. Gwneir

newidiadau hefyd mewn perthynas ag adennill costau ar gyfer partïon sy'n gysylltiedig ag achosion cynllunio.

- Gwneud newidiadau mewn perthynas â cheisiadau i gofrestro meysydd tref a phentref.

Nod y ddeddf yw pwysleisio dull cynllunio cadarnhaol ac i wneud darpariaeth i'r cyhoedd gymryd rhan mewn cynllunio'n gynnar. Croesawodd RTPI Cymru y ddeddf gan ddatgan y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn 'darparu fframwaith newydd i gyflawni system gynllunio gadarnhaol, gydweithredol ac integredig lle mae'r prif ffocws ar ganlyniadau a chyflawni datblygiad cynaliadwy.'

Cafodd gofyniad newydd ei gynnwys yn Nedd Mewnfudo 2014 i landlordiaid preifat wirio statws mewnfudo darpar denantiaid lle dylai landlordiaid, gan gynnwys lletywyr ac is-osodwyr wirio hawl darpar denantiaid i rentu cyn eu galluogi i fyw mewn eiddo, er mwyn osgoi atebolwydd am gosb sifil. A bydd angen archwiliadau dilyn i fyny i'r tenantiaid hynny sydd ond yn dangos dystiolaeth o gyfnod amser cyfyngedig i fyw yn y Deyrnas Unedig.

Cyhoeddwyd gweithrediad graddol gyda'r cyhoeddiad y byddai cam un, prosiect peilot yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, yn cael ei werthuso cyn dechrau cam dau, sef cyflwyno'r gweithrediad ledled y wlad. Dechreuodd y prosiect peilot ym mis Rhagfyr 2014, gan gwmpasu Birmingham, Walsall, Sandwell, Dudley a Wolverhampton. Roedd angen i landlordiaid a chanddynt eiddo yn y pum ardal hyn gyflawni archwiliadau hawl i rentu ar gyfer cytundebau tenantiaeth newydd er mwyn cadarnhau a oedd gan eu tenantiaid yr hawl i fyw'n gyfreithlon yn y Deyrnas Unedig. Roedd y dogfennau derbyniol yn cynnwys pasport, cerdyn preswylio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd neu drwydded breswylio biometrig.

Ym mis Awst 2015, cyhoeddodd Llywodraeth San Steffan y mesur hawl i rentu a fyddai'n cael ei gyflwyno'n genedlaethol, er gwaetha'r canlyniadau llai naq aruthrol sydd ar gael yn rhannol gan y peilot, sydd heb eu cyhoeddi'n llawn eto.

Er y croesewir mesurau i fynd i'r afael â landlordiaid diegwyddor, ceir pryderon y bydd awdurdodau lleol yn cael trfferth bodloni'r adnoddau ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer gorfodaeth a bydd landlordiaid preifat yn dioddef baich costau ychwanegol afresymol. Roedd y Sefydliad Tai Siartredig yn feirniadol o'r cyhoeddiad i'w gyflwyno, gyda Terrie Alafat, prif weithredwr CIH yn datgan "Rhentu preifat yw'r unig ddewis i lawer, ac os tynnir hwn ymaith, gallai digartrefedd a thlodi ddilyn. Hwyrach mai mewnfudwyr anghyfreithlon fydd y rhai yr effeithir lleiaf arnynt, gan eu bod nhw mwy na thebyg eisoes wedi gorfol defnyddio'r mathau o

<sup>101</sup> <http://gov.wales/consultations/people-and-communities/national-training-framework-on-violence-abuse/?status=open&lang=en>

<sup>102</sup> <http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?Id=11271>

<sup>103</sup> <http://gov.wales/newsroom/planning/2015/150706-planning-act-receives-royal-assent/?lang=en>

<sup>104</sup> [http://www.rtpi.org.uk/the-rtpi-near-you/rtpi-cymru/policy-in-wales/wales-legislative-programme/planning-\(wales\)-act/](http://www.rtpi.org.uk/the-rtpi-near-you/rtpi-cymru/policy-in-wales/wales-legislative-programme/planning-(wales)-act/)

<sup>105</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/22/contents/enacted>

<sup>106</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/right-to-rent-landlords-code-of-practice>

<sup>107</sup> <http://www.theguardian.com/uk-news/2015/aug/06/pilot-scheme-forcing-landlords-check-tenants-immigration-status-failed> Welsh Housing Review 2015

landlordiaid sy'n gofyn dim un cwestiwn ac a fydd yn rhentu llety o safon wael i unrhyw un fydd yn talu'r rhent."

Yng Nghymru, ymunodd CIH Cymru â Thai Pawb, a sefydliadau tai eraill i ysgrifennu at lywodraeth Cymru yn mynegi'u pryderon dybryd o ran y mesur newydd a'i oblygiadau. Gofynnodd y llythyr i weinidog Llywodraeth Cymru ystyried beth ellir ei wneud yng Nghymru i liniaru yn erbyn effaith y mesur newydd. Nododd y dystiolaeth a ddaeth i'r amlwg o'r peilot arfer gwahaniaethol, y blaendaliadau uwch a'r costau eraill a drosglwyddwyd i'r tenantiaid, yn ogystal â diffyg effeithiolwydd y cynllun. Gofynnodd y sefydliadau am gamau i sicrhau bod gwerthusiad priodol yn cael ei wneud yng Nghymru a bod cyfleoedd dan ran un Deddf Tai newydd (Cymru) 2014 yn cael eu defnyddio i sicrhau bod gan landlordiaid fynediad i hyfforddiant priodol.

### Deddfwriaeth a rheoliadau sydd ar ddod

Mae deddfwriaeth sydd naill ai'n gwneud ei ffordd trwy'r Senedd neu i'w disgwyl yn ystod y 12 mis nesaf yn cynnwys:

Roedd y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) ar gam dau'r broses ddeddfwriaethol adeg ysgrifennu. Ar sail adroddiad Rhentu Cartrefi Comisiwn y Gyfraith, mae'r bil yn cynnig diwygio tenantiaeth ar raddfa lawn, a disgwylir iddo gael ei basio'n ddeddf erbyn dechrau 2016, gan wneud Cymru'r wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i symud cynigion Comisiwn y Gyfraith yn eu blaen, degawd cyfan ar ôl iddynt gael eu gwneud. Nod y bil yw disodli maes cysylltiedig â thai, sydd ar hyn o bryd yn ddryslyd ac yn gymhleth, gyda fframwaith cliriach, symlach a haws.

Mae'r bil yn disodli pob math o denantiaethau a thrwyddedau yng Nghymru gyda dau gcontract meddiannaeth:

- A secure contract modelled on the current secure tenancy issued by local authorities, to be used by both registered social landlords and local authorities for social housing tenancies.
- A standard contract modelled on the current assured shorthold tenancy used mainly in the private rented sector. A standard contract can be either "periodic", typically running from week to week or month to month, or "fixed term", running for a pre-agreed set period.

Cynigia'r bil ddyletswydd i ddarparu datganiad ysgrifenedig o gcontract a chynnwys amod 'ymddygiad gwaharddedig' sy'n golygu bod cam-drin domestig yn torri'r contract meddiannaeth. Bydd yr hyn sy'n cyfansoddi toriad yr amodau

<sup>108</sup> [http://www.cih.org/news-article/display/vpathDCR/templatedata/cih/news-article/data/CIH\\_comment\\_on\\_right\\_to\\_rent\\_measures](http://www.cih.org/news-article/display/vpathDCR/templatedata/cih/news-article/data/CIH_comment_on_right_to_rent_measures)

<sup>109</sup> <http://www.taipawb.org/article.aspx?ref=176>

<sup>110</sup> <http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?Id=12055>

<sup>111</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/renting-homes-final-report>

<sup>112</sup> <http://gov.wales/consultations/healthsocialcare/?status=closed&lang=en>

<sup>113</sup> <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/sswellbeingact/?lang=en>

<sup>114</sup> <http://gov.wales/docs/strategies/150616-progress-en.pdf>

'ymddygiad gwaharddedig' yn ehanguach na dim ond gweithredoedd o drais gwirioneddol ac mi fydd yn cynnwys cam-drin emosiynal a seicolegol. Cynigia'r bil ffyrrd newydd o ddelio â deiliaid contract ar y cyd hefyd gan alluogi'r landlord i ddod â'r contract i ben i un delydd contract ar y cyd ond ei gadw'n weithredol ar gyfer y llall.

Nid yw'r bil yn rhydd o ddadleuon. Un ohonynt yw dileu Sail 8, sy'n galluogi landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i wneud cais i orfodi troi tenantiaid allan o dai cymdeithasol am ôl-ddyledion rhent difrifol (dros ddeufis), a dod â'r moratoriwm chwe mis i ben ar gyfer y sector rhent preifat, a bydd yr adolygiad yn edrych ar y rhain yn ddyfnach yn nes ymlaen.

Cynhalwyd sawl ymgynghoriad ar reoliadau a chodau ymarfer yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mewn perthynas â gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan gynnwys y cod ymarfer mewn perthynas â rhan deg (Cwynion, Sylwadau a Gwasanaethau Eirioli) y ddeddf ac mewn perthynas â rhan pump (Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol) y ddeddf. Yn gynharach yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn dyblu'r arian sydd ar gael trwy'r grant cyflawni trawsnewid i £3m er mwyn cefnogi gweithrediad y ddeddf a'r strategaeth genedlaethol dysgu a datblygu. Roedd hyn yn ogystal â'r £20m ychwanegol i barhau â gwaith y prosiectau a ariannwyd trwy'r gronfa gofal canolraddol a'r cynnydd o £10m yn y grant cymorth refeniw at ddibenion y gwasanaethau cymdeithasol. Nod y gronfa gofal canolraddol yw chwalu'r rhwystrau rhwng iechyd, tai, gofal cymdeithasol a llywodraeth leol er mwyn cadw pobl hŷn a diamdiffyn yn annibynnol ac allan o'r ysbyty.

Cyflwynwyd y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) ar 13 Gorffennaf 2015 gyda'r nod o roi'r fframwaith cyfreithiol ar waith i gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru. Gan sefydlu awdurdod refeniw Cymru, gyda phwerau i nodi a chasglu treth ddatganoledig, hwn yw'r bil cyntaf o dri a fydd yn sefydlu trefniadau treth ddatganoledig gyda'i gilydd yng Nghymru; yn dilyn hyn fydd deddfwriaeth ar gyfer trethi datganoledig newydd Cymru gan gynnwys y dreth trafodiadau tir a drafodwyd yn gynharach yn y rhan ar ddatganoli.

Adeg ysgrifennu, roedd Bil Llywodraeth Leol (Cymru) yn mynd rhagddo trwy'r cynulliad cenedlaethol lle mae ystyriaeth cam tri ar fin cael ei chynnal mewn sesiwn lawn ar 29 Medi 2015. Mae'r bil yn dilyn canfyddiadau Comisiwn Williams 2014 i lywodraethu a chyflawni gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a drafodwyd yn adolygiad y llynedd. Fe'i cyhoeddwyd

ym mis Ionawr 2015, sef yr un mis ag y cyhoeddodd y gweinidog gwasanaethau cyhoeddus, Leighton Andrews AC, fod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod uniadau gwirfoddol y cyngorau a roddwyd gerbron gan rai awdurdodau mewn ymateb i Williams . Datganodd y Gweinidog fap newydd cyngorau Cymru a fyddai'n cael ei gyhoeddi gan llywodraeth Cymru cyn Gorffennaf. Mae darpariaethau'r bil yn caniatáu ar gyfer cynnal gwaith paratoi cyn cychwyn y gwaith o uno a diwygio'r llywodraeth leol. Yn y bil hefyd, mae darpariaeth i hwyluso uniad gwirfoddol cynnar dau awdurdod lleol neu'n fwy erbyn mis Ebrill 2018.

Rhagwelir bellach Bil Uno a Diwygio (Cymru) a fydd yn cael ei gyhoeddi ac a fydd yn destun ymgynghoriad yn ystod yr hydref 2015. Fodd bynnag, disgwylir na

fydd hwn yn mynd i'r prosesau deddfwriaethol tan ar ôl etholiad y cynulliad ym mis Mai 2016.

Ar ôl cyhoeddi bil Llywodraeth Leol (Cymru), cyhoeddiad datganiad ysgrifenedig ar ddyfodol llywodraeth leol yng Nghymru ym mis Mehefin 2015 gan roi dau fap yn amlinellu'r cynigion i dorri i lawr ar nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru o 22 i wyth neu naw. Mae'r cynigion yn fwy na haneru nifer yr awdurdodau lleol sydd gan Gymru ar hyn o bryd, gyda'r uniadau'n golygu troi'n ôl i linellau ffiniau tebyg yr awdurdodau lleol fel yr oeddent cyn 1996.

Dywedodd Leighton Andrews, y Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus, yn y datganiad fod "achos grymus a dderbynir ar raddfa eang" o blaid llai o awdurdodau lleol ac aeth ati i amlygu'r cyfle i leihau

|  | Local authority   | Retained council housing              | Large scale voluntary transfer                       | Status of housing stock |             |              |
|--|---|---------------------------------------|--|-------------------------|-------------|--------------|
|  |   |                                       |  | All retained            | Mixed stock | All transfer |
| Proposed Local authority mergers: 8 councils | 1. Isle of Anglesey<br>Gwynedd<br>Conwy                               | Isle of Anglesey                      | Gwynedd<br>Conwy                                     |                         | X           |              |
|  | 2. Flintshire<br>Wrexham<br>Denbighshire                              | Flintshire<br>Wrexham<br>Denbighshire |  | X                       |             |              |
|  | 3. Ceredigion<br>Pembrokeshire<br>Camarthenshire                      | Pembrokeshire<br>Camarthenshire       | Ceredigion   |                         | X           |              |
|  | 4. Neath Port Talbot<br>Swansea                                       | Swansea                               | Neath Port Talbot                                    |                         | X           |              |
|  | 5. Bridgend<br>Rhondda Cynon Taff<br>Merthyr Tydfil                   |                                       | Bridgend<br>Rhondda Cynon<br>Taff Merthyr Tydfil     |                         |             | X            |
|  | 6. Cardiff<br>The Vale of Glamorgan                                   | Cardiff<br>The Vale of Glamorgan      |  | X                       |             |              |
|  | 7. Blaenau Gwent<br>Caerphilly<br>Torfaen<br>Monmouthshire<br>Newport | Caerphilly                            | Blaenau Gwent<br>Torfaen<br>Monmouthshire<br>Newport |                         | X           |              |
|  | 8. Powys  | Powys                                 |  | X                       |             |              |
| Proposed local authority mergers: 9 councils | 1. Isle of Anglesey<br>Gwynedd  | Isle of Anglesey                      | Gwynedd  |                         | X           |              |
|  | 2. Conwy<br>Denbighshire  | Denbighshire                          | Conwy  |                         | X           |              |
|  | 3. Flintshire<br>Wrexham  | Flintshire<br>Wrexham                 |  | X                       |             |              |
|  | 4. Ceredigion<br>Pembrokeshire<br>Camarthenshire                      | Pembrokeshire<br>Camarthenshire       | Ceredigion   |                         | X           |              |
|  | 5. Neath Port Talbot<br>Swansea                                       | Swansea                               | Neath Port Talbot<br>Bridgend                        |                         | X           |              |
|  | 6. Bridgend<br>Rhondda Cynon Taff<br>Merthyr Tydfil                   |                                       | Bridgend<br>Rhondda Cynon<br>Taff Merthyr Tydfil     |                         |             | X            |
|  | 7. Cardiff<br>The Vale of Glamorgan                                   | Cardiff<br>The Vale of Glam.          |  | X                       |             |              |
|  | 8. Blaenau Gwent<br>Caerphilly<br>Torfaen<br>Monmouthshire<br>Newport | Caerphilly                            | Blaenau Gwent<br>Torfaen<br>Monmouthshire<br>Newport |                         | X           |              |
|  | 9. Powys  | Powys                                 |  | X                       |             |              |

115 <http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?Id=12989>

116 <http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?Id=11809>

117 <http://gov.wales/topics/improvingservices/public-service-governance-and-delivery/report/?lang=en>

118 <http://www.wlga.gov.uk/reforming-local-government>

119 <https://assemblyinbrief.wordpress.com/tag/williams-commission/>

120 [http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/lfuture/?lang=en&utm\\_source=Chartered+Institute+of+Housing&utm\\_medium=email&utm\\_campaign=5831020\\_Wales+-+Rapid+response+-+New+local+government+plans+published&dm\\_i=YRX.3GZ8S.7054S8.CFFF9.1](http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/lfuture/?lang=en&utm_source=Chartered+Institute+of+Housing&utm_medium=email&utm_campaign=5831020_Wales+-+Rapid+response+-+New+local+government+plans+published&dm_i=YRX.3GZ8S.7054S8.CFFF9.1)

costau wrth wella gwasanaethau'r rheng flaen.

Arweinia'r ddau fap newydd arfaethedig at uniadau lle bydd rhai awdurdodau a chanddynt stoc a gadwyd yn uno â'r rhai a gyflawnodd drosglwyddiad tai gwirfoddol graddfa fawr. Bydd hyn yn arwain yn anochel at oblygiadau y mae angen eu hystyried yng nghamau cyntaf y cynigion i'r dyfodol. Yn y cynnig am wyth cyngor, byddai Gwent, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe; Dyfed a Gwynedd; Conwy ac Ynys Môn i gyd yn dod yn awdurdodau dal stoc gymysg. Dan y cynllun am naw cyngor, byddai Gwynedd ac Ynys Môn; a Chonwy a Sir Ddinbych yn dod yn awdurdodau cymysg hefyd.

Yng nghyd-destun diwygio llywodraeth leol yng Nghymru, mae CIH Cymru wedi galw am dai i aros yn flaenoriaeth strategol allweddol ar ôl yr ad-drefnu, ac am gynigion i gydnabod ac ymateb yn briodol i effaith ad-drefnu ar staff a gweithwyr tai proffesiynol, sy'n ystyried yn briodol bod swyddogaeth tai'r awdurdodau lleol yn llawer ehangach na swyddogaethau'r landlordiaid. Yn Lloegr, effaith y gostyngiadau ariannu ar wasanaethau tai'r llywodraeth leol fu gostyngiad o 37.9% mewn cyllidebau ar gyfer swyddogaethau strategaeth tai yn unol â'r Swyddfua Archwilio Genedlaethol .

Serch hynny, mae cyfleoedd yn dod i'r amlwg i gyflawni gwasanaethau cysylltiedig â thai dan yr ad-drefnu, a gallai'r rhain gynnwys digartrefedd cydlynol a gwasanaethau dyrannu, gwell gweithio mewn partneriaeth gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, rhannu arbenigedd adfywio a buddiannau cymunedol, comisiynu ac adolygu swyddogaethau, cyfleoedd i gryfhau'r swyddogaeth gynllunio strategol a chynyddu'r cyflenwad cartrefi fforddiadwy. Wrth gwrs, mae digon o gyfleoedd eraill yn codi o ad-drefnu'r llywodraeth leol, a nodwyd yn gryno gan Sefydliad Bevan ; mentrau iechyd, tai a gofal cymdeithasol ar y cyd a mwy o rôl ar gyfer technoleg ddigidol wrth gyflawni gwasanaethau i enwi dau yn unig. Mae'r cyfleoedd i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, sy'n fusnesau cymdeithasol Cymreig arwyddocaol , ac yn deillio o drawsnewid yr agenda gwasanaethau cyhoeddus, o ddiddordeb cynyddol hefyd.

Ym mis Chwefror 2015, cyhoeddodd Edwina Hart, gweinidog yr economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth ei bod hi wedi ailbenodi pum aelod o'r comisiwn Cymreig ar gwmniau cydweithredol a chydfuddiannol i adolygu'r camau a gymerwyd i roi ei 25 argymhelliaid gwreiddiol ar waith . Canfu'r adroddiad gwreiddiol fod cymdeithasau tai cydfuddiannol Cymru, a chanddynt

wariant o £740 miliwn, wedi cadw 80% o'r ffigur hwnnw yng Nghymru, ac wedi cydnabod potensial y sector i ddatblygu sgil-gwasanaethau, yn ogystal â chyfeirnodi datblygiad deiliadaeth gydweithredol newydd trwy'r prosiect tai seiliedig yng Nghanolfan Gydweithredol Cymru, a nodwyd yn wreiddiol ym mhapur gwyn 2012 ar gyfer bywydau gwell a chymunedau gwell .

Yn ogystal â'r comisiwn, yn 2014, penododd Llywodraeth Cymru Keith Edwards, cyn gyfarwyddwr Sefydliad Tai Siartredig Cymru, i archwilio sut gallai awdurdodau lleol oedd yn dymuno datblygu modelau cydfuddiannol neu gydweithredol er mwyn cyflawni rhai gwasanaethau gael eu cefnogi i wneud hynny. Adeiladodd y gwaith hwn ar y themâu a osodwyd yn y Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol: Gym i Bobl Leol . Wrth gwrs, mae rhai awdurdodau lleol eisoes wedi cymryd camau tuag at ddatblygu modelau cyflawni eraill ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus: symudodd gwasanaethau hamdden Torfaen i ymddiriedolaeth yn 2013. Fodd bynnag, gydag ergyd ddwbl o agenda cyni barhaus San Steffan a newid demograffig , mae'r pwysau ychwanegol hyn ar wasanaethau cyhoeddus Cymru'n debygol o sicrhau ymdeimlad cynyddol o frys i ddiwygio llywodraeth leol yn yr agenda trawsnewid ehangach.

Cyhoeddwyd yr adroddiad deilliannol 'Ai cydfuddiannaeth yw'r ffordd ymlaen?' ym mis Gorffennaf 2015 ac archwiliodd y ffyrdd newydd posibl o ddylunio a chyflawni gwasanaethau cyhoeddus, gyda ffocws ar ddatblygu modelau cydfuddiannol a chydweithredol newydd. Amlygwyd cymdeithasau tai a chwmniau cydfuddiannol yn yr adroddiad fel partneriaid potensial a sefydledig awdurdodau lleol. Casglodd yr adroddiad y bydd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn aml yn rhannu'r un gwerthoedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol â llywodraeth Cymru a llywodraeth leol a'u bod yn brofiadol wrth ddatblygu a chyflawni mentrau 'housing plus' ar draws y wlad. Gallent gynnig dewis go iawn yn lle preifateiddio neu gau gwasanaethau cyhoeddus.

Seiniodd dros 60% o'r ymatebwyr a gymerodd ran mewn arolwg a gomisiynwyd gan CIH Cymru yn TAI 2015 , ganfyddiadau'r adroddiad yn fuan ar ôl iddo gael ei gyhoeddi; gan gytuno y dylai sefydliadau tai 'fynd ati'n frwd i gofleidio'r cyfleoedd a gyflwynir gan agenda drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus llywodraeth Cymru'.

Dyfodol Hawl i Brynu a Hawl i Gaffael; Papur Gwyn. Ym mis Ebrill 2015, daeth Llywodraeth Cymru â'i

<sup>121</sup> [http://www.cih.org/news-article/display/vpathDCR/templatedata/cih/news-article/data/Wales/council\\_reorg](http://www.cih.org/news-article/display/vpathDCR/templatedata/cih/news-article/data/Wales/council_reorg)

<sup>122</sup> p32 <http://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2014/11/Impact-of-funding-reductions-on-local-authorities.pdf>

<sup>123</sup> <http://www.bevanfoundation.org/commentary/thoughts-on-local-government-reorganisation/>

<sup>124</sup> <http://www.everyonesbusiness.coop/en/2015/07/30/new-approaches-to-public-services-in-wales-2/>

<sup>125</sup> <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/coopmutuals/?lang=en>

<sup>126</sup> <http://gov.wales/docs/det/publications/140221coopreporen.pdf?lang=en>

<sup>127</sup> <https://walescooperative.wordpress.com/2014/11/03/developing-co-operative-housing-in-wales/>

<sup>128</sup> <http://gov.wales/consultations/housing-and-regeneration/housewhitepaper/?lang=en>


ymgyngoriad ar gynigion i ben i orffen hawl i brynu ar gyfer tai cymdeithasol. Yn ddi-os, mae polisi blaenllaw Thatcher, oedd yn galluogi tenantiaid tai cymdeithasol i brynu eu cartrefi gan landlodiaid am bris sylweddol is na lefel y farchnad wedi galluogi llawer o aelwydydd i fynd ar drywydd perchen-feddiannaeth, a allai fel arall fod wedi cael trfferth gwneud hynny. Fodd bynnag, rhaid ystyried bwriad y polisi i gefnogi 'democratiaeth perchen ar eiddo' yng nghyd-destun ei effaith negyddol ar ystadau a chymunedau, dihysbyddu'r cyflenwad tai fforddiadwy, sifft niferoedd sylweddol o hen gartrefi'r cyngor i'r sector rhent marchnad breifat (a'r baich ar y system budd-daliadau tai yn dilyn hynny) a'r nifer fach o stoc tai cymdeithasol.

Yng Nghymru, mae gan hawl i brynu uchafswm disgownt o £16,000 ar hyn o bryd, y nenfwd isaf o'r gwledydd hynny sy'n parhau i'w gynnig. Yn yr Alban, daeth y polisi i ben dan ddeddfwriaeth yn Neddf Tai (Yr Alban) newydd ym mis Mehefin 2014. Gwelodd hawl awdurdodau lleol i allu gwneud cais i'w ohirio mewn ardaloedd lle'r oedd pwysau am dai am gyfnod o hyd at bum mlynedd dan Fesur Tai (Cymru) 2011, y cais llwyddiannus cyntaf gan gyngor Sir Caerfyrddin yn 2015. Ar yr un pryd â chyhoeddi'r gohiriad hwn, cyhoeddodd y gweinidog y papur gwyn hwn yn rhoi gerbron dau gynnig am ymgyngoriad cyhoeddus. I ddechrau, trwy newid y ddeddfwriaeth bresennol i leihau'r uchafswm disgownt sydd ar gael i naill ai landlord awdurdod lleol neu gymdeithas tai i uchafswm disgownt arfaethedig o £6,000, ac yn ail, cynnig datblygu deddfwriaeth newydd yn y rhaglen ddeddfwriaethol nesaf i ddod â Hawl i Brynu a'r hawl i gaffael i ben yng Nghymru. Mae gan y gostyngiad cychwynnol yn y disgownt y bwriad o 'dawelu'r ymchwyydd' mewn ceisiadau cyn diwedd y polisi hwn, er mwyn osgoi ychwanegu at y 138,000 o gartrefi cyngor a werthir dan Hawl i Brynu rhwng 1981 a 2014.

Wrth gwrs, mae hwn yn enghraift arall o'r gwahaniaeth datganoliadol cynyddol yn y Deyrnas Unedig. Gwnaeth CIH Cymru daith o'r gwledydd cartref, gan archwilio'r amrywiaeth mewn polisiau Hawl i Brynu yn rhifyn 98 y Welsh Housing Quarterly ac roedd hyn cyn y cyhoeddiad i ymestyn Hawl i Brynu i gymdeithasau tai gan Lywodraeth San Steffan ym mis Mai, sy'n achosi pryder mawr i'n cydweithwyr

yn Lloegr. Yn ddiweddar iawn, adroddodd Inside Housing fod bron i 40% o hen gartrefi'r cyngor a werthwyd dan hawl i brynu bellach yn y sector rhent preifat, gan ladd ar unrhyw honiad fod y polisi'n cefnogi'r ddemocratiaeth perchen ar eiddo.

Mae dod â hawl i brynu i ben yng Nghymru yn gwneud synnwyr, yn enwedig gan fod terfynu system cymhorthdal y cyfrif refeniw tai ar gyfer yr un ar ddeg Cyngor yng Nghymru sydd wedi cadw'u stoc tai bellach mewn grym. Ym mis Ebrill 2015, daeth Cymru â chymhorthdal y cyfrif refeniw stoc i ben o'r diwedd, sef y gyfundrefn gymhorthdal negyddol olaf yn y Deyrnas Unedig, dair blynedd ar ôl iddi ddod i ben yn Lloegr. Cefnogwyd y cynnig i atal Hawl i Brynu gan CIH Cymru, gan fod buddsoddi mewn a chyflawni tai cymdeithasol newydd heb y risg o orfod derbyn gwerthiannau hawl i brynu pellach yn ddull rhesymegol, sy'n lleihau risg ac yn cynnig bargain decach i genedlaethau tenantiaid tai cymdeithasol y dyfodol, gan ddiogelu lefel y stoc.



129 <http://gov.wales/consultations/localgovernment/power-to-local-people/?lang=en>

130 <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-23117771>

131 Committee on Public Service and Demographic Change Ready for Ageing?

House of Lords: March 2013 <http://www.publications.parliament.uk/pa/l201213/lselect/lpublic/140/140.pdf>

132 <http://gov.wales/topics/improvingservices/publications/is-the-feeling-mutual-report/?lang=en>

133 Survey undertaken by Strategic Marketing April 2015 [http://www.cih.org/news-article/display/vpathDCR/templatedata/cih/news-article/data/Wales/mutual\\_friends](http://www.cih.org/news-article/display/vpathDCR/templatedata/cih/news-article/data/Wales/mutual_friends)

134 <http://gov.wales/consultations/housing-and-regeneration/future-of-right-to-buy/?status=closed&lang=en>

135 <http://www.insidehousing.co.uk/analysis-and-data/analysis/right-to-buy-shock-the-reaction/7011330.article>

136 <http://www.legislation.gov.uk/asp/2014/14/contents/enacted>

137 <http://newsroom.carmarthenshire.gov.uk/news-archive/2015/01/carmarthenshire-is-first-welsh-authority-to-suspend-right-to-buy/#.VdOlWd0zrc>

138 [http://www.whq.org.uk/main/articleDetail.php?ART\\_id=1505](http://www.whq.org.uk/main/articleDetail.php?ART_id=1505)

139 <https://www.gov.uk/government/news/over-a-million-more-people-given-the-chance-to-own-their-own-home>

140 <http://www.insidehousing.co.uk/rtb-extension-will-fundamentally-change-housing-associations/7010032.article>

141 <http://www.insidehousing.co.uk/right-to-buy-to-let/7011233.article>

142 <http://www.insidehousing.co.uk/business/development/financial-freedoms-will-build-hundreds-of-welsh-homes/7009017.article>


143 <http://www.tradingeconomics.com/united-kingdom/government-debt-to-gdp>

144 [http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171778\\_345191.pdf](http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171778_345191.pdf)


145 <http://gov.wales/docs/strategies/150616-progress-en.pdf>

146 <http://www.ons.gov.uk/ons/rel/gva/gross-domestic-product--preliminary-estimate/q2-2015/index.html>

## UK GDP and main components, Q1 2008-Q2 2015 (Index 2011=100)



### Welsh Indices of Production and Construction (2011=100) by section and year



## 5: CYD-DESTUN ECONOMAIDD

Mae dyled y llywodraeth yn y Deyrnas Unedig ar 89.4% fel canran o gynnrych domestig gros , ei lefel uchaf er 1980. Mae'r dangosydd hwn yn bwysig oherwydd caiff ei ddefnyddio gan fuddsoddwyr i fesur gallu gwlad i wneud taliadau ar ei dyled i'r dyfodol, ac felly'n effeithio ar gostau benthyg ac elw bondiau llywodraeth y wlad.

Mesur o'r cynnydd yng ngwerth yr economi yn sgil y cynhyrchiad nwyddau a gwasanaethau yw gwerth ychwanegol gros (GVA). Ceir bwlch cyfoeth sylweddol rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig

(DU); yn 2015, datganodd adroddiad Holtham i'r Sefydliad Materion Cymreig mai ffigur GVA 1999 ar gyfer Cymru oedd 72.4% o gyfartaledd y DU, ac yn 2013 roedd bron yn ddifyfnewid ar 72.2%. Fodd bynnag, adroddodd llywodraeth Cymru fod y GVA fesul pen yn tyfu'n gynt yng Nghymru na sawl rhan arall o'r DU gan gynnwys Llundain, mae'n awgrymu ei bod yn dangos hyder y sector preifat.

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol , y newidiadau mewn cynnyrch domestig gros (GDP) yw'r prif ddangosydd o ran twf economaidd. Yn Ch2 2015, amcangyfrifwyd bod y GDP yn y Deyrnas Unedig wedi cynyddu gan 0.7% o gymharu â thwf o 0.4% yn Ch1 a 2.6% yn uwch nag yn Ch2 yn 2014. Fodd bynnag, roedd y twf yn y maes adeiladu yn wastad. Dengys diwydiannau gwahanol dueddiadau yn

<sup>147</sup> <http://www.jrf.org.uk/publications/cost-cuts-impact-local-government-and-poorer-communities>

<sup>148</sup> Recent developments in the distribution of wages in Europe [http://www.eurofound.europa.eu/sites/default/files/ef\\_publication/file\\_ef\\_document/ef1510en.pdf](http://www.eurofound.europa.eu/sites/default/files/ef_publication/file_ef_document/ef1510en.pdf)

<sup>149</sup> <http://www.lse.ac.uk/newsAndMedia/news/archives/2015/03/Unequal-legacy-of-crisis-leaves-young-with-economic-mountain-to-climb,-according-to-new-LSE-report.aspx>

<sup>150</sup> <http://sticerd.lse.ac.uk/dps/case/spcc/RR05.pdf>

<sup>151</sup> <http://www.centreforcities.org/publication/cities-outlook-2015/>

dilyn dirywiad 2008, gydag adeiladu a chynhyrchu wedi'u heffeithio'n fwy difrifol. Mae'r diwydiannau gwasanaethau wedi tyfu'n fwy sefydlog, er y bu'r twf hynny'n araf, gyda'r allbwn yn taro'r lefel cyn y dirywiad yn Ch3 2011.

Awgryma'r tueddiadau fod economi'r Deyrnas Unedig yn gwella, ond mae'n adferiad araf ac yn adferiad anghyfartal hefyd, o ran cenedlaethau, yn ddaearyddol ac yn gymdeithasol. Canfu adroddiad JRF 2015 yn dilyn astudiaeth dair blynedd yn Lloegr a'r Alban fod toriadau i gyllidebau'r awdurdodau lleol yn cael effaith ddofn ar wasanaethau, gyda'r cymunedau a'r trigolion tlotaf yn cael eu taro galetaf a'r rheiny sy'n lleiaf abl i ymdopi â thynnun ôl o'r gwasanaethau'n wynebu'r cyni. Canfu adroddiad diweddar Eurofound mai'r Deyrnas Unedig oedd y wlad Undeb Ewropeaidd fwyaf anghyfartal o ran lefel yr anghydraddoldeb mewn cyflogau. Casglodd yr LSE yn ei adroddiad 'Falling behind, getting ahead' mai pobl yn eu hugeiniau sydd wedi'u heffeithio waethaf gan yr argyfwng economaidd a chanfu hefyd mai tenantiaid y cyngor a chymdeithasau tai ddaeth allan waethaf yn y farchnad lafur bresennol.

Mae adroddiad 'Cities Outlook' 2015 yn dangos bod y bwlc rhwng y dinasoedd gorau a gwaethaf eu perfformiad ym Mhrydain wedi lledu'n ddramatig er 2004 – gan greu economi ddwy haen, sef twf a dirywiad. Mae'n canfod mai cymhareb y swyddi a grëwyd yn ne Lloegr o gymharu â gweddill Prydain Fawr oedd 12:1 rhwng 2004 a 2013 gan ddefnyddio mynegai'r 64 o ddinasoedd a threfi mwyaf yn y Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd yng Nghymru. Cymru fydd yn cael yr ergyd drymaf yn sgil effaith y newidiadau polisi i weithlu'r sector cyhoeddus. Mae hyn yng nghydd-destun polisi cyni Ilywodraeth San Steffan, sydd wedi gweld cyllideb aneddiadau Ilywodraeth Cymru yn cael ei thorri gan oddeutu 8% mewn gwir dermau er 2011.

Bydd y cap o 1% ar dâl y sector cyhoeddus dros y bedair blynedd nesaf yn effeithio'n anghymesur ar aelwydydd Cymru, gan fod cyfran y bobl a gyflogir yn y sector cyhoeddus yn llawer mwy fan hyn nag ydyw yng ngweddill y Deyrnas Unedig, a bydd niferoedd dirywiol y bobl mewn cyflogaeth sector cyhoeddus hefyd yn effeithio ar economi Cymru am yr un rheswm; gostyngodd y swyddi sector cyhoeddus ar draws y DU gan 22,000 o Ch4 2014 i 5.372 miliwn, ei lefel isaf, ers cychwyn casglu'r data gan ONS ym 1999.

Dengys y ffigurau diweddaraf gan Gyngor ar Bopeth nad yw effaith yr adferiad economaidd wedi'i deimlo gan nifer fawr o bobl eto; adroddant fod niferoedd cynyddol o bobl yn 'cael trafferth cael dau ben llinyn ynghyd' gyda mwy na 106,000 o gleientiaid yn ystod cyfnod 2014/15; cynnydd o 14% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Fodd bynnag, mae yna rywfaint o newyddion da o ran yr economi i Gymru; dengys ffigurau diweithdra'r ONS ar Ch1 2015 i Gymru fod y niferoedd yn cwympo gydag adroddiad o gwmp yn nifer y bobl ddi-waith i 90,000, mae hyn i lawr 9,000 ar y chwarter blaenorol ac i lawr 8,000 ar y flwyddyn flaenorol. Mae cyflogaeth yng Nghymru wedi cynyddu 42,000 dros y chwarter diwethaf - mwy nag unrhyw wlad neu ranbarth arall yn y Deyrnas Unedig. Ni ddylai hyn goramcangyfrif y berthynas rhwng diweithdra a thlodi, gyda lefelau cynyddol o dodi yn y gwaith ar draws y Deyrnas Unedig; datganodd adroddiad diweddar JRF fod 60% o bobl a symudodd i waith yn 2012/13 yn cael eu talu llai na'r cyflog byw, a bod 50% o'r holl bobl mewn tlodi mewn teulu gweithio.

## 6: DIWYGIADAU LLES

Mae diwygiadau lles yn parhau i fod yn ofid sylweddol i Gymru. Croesawyd y broses o greu system symmach sy'n gwneud i waith dalu gan nifer fawr, gan gynnwys CIH. Fodd bynnag, mae effaith y toriadau sylweddol i nawdd cymdeithasol sydd eisoes ar waith a'r rhai sydd ar ddod (yn fwyaf diweddar, gostyngiad yn y cap budd-daliadau a thynnur Budd-dal Tai i bobl dan 21 oed a gyhoeddwyd yng nghyllideb yr haf) yn creu pwysau digynsail ar deuluoedd a gwasanaethau ar draws y wlad.

Wrth gwrs, mae hyn yn effeithio ar waith gweithwyr tai proffesiynol y rheng flaen sy'n cymryd rhan yn fwyfwy mewn gwaith cyflawni gwasanaeth housing plus, er enghraift cynhwysiant ariannol a digidol, fel y nodwyd yn adroddiad ymchwil tirnod CIH 'New era, changing role for housing officers', yn 2014. Trafodir yr heriau dysgu canlyniadol, datblygu a newid diwylliannol pwysig ar gyfer sefydliadau yn y traethawd gan Melys Phinnemore a Penny Jeffreys ym mhennod dau uchod.

Mae adroddiadau a thystiolaeth yn tyfu sy'n dangos yr effaith anghymesur ar Gymru, ac ar y rhai sy'n byw

152 <http://gov.wales/docs/strategies/150616-progress-en.pdf>

153 <http://www.independent.co.uk/news/uk/politics/public-sector-pay-rises-to-be-capped-at-1-per-cent-for-another-four-years-osborne-announces-10374980.html>

154 <http://www.assembly.wales/NAFW%20Documents/ki-014.pdf%20-%20200312011/ki-014-English.pdf>

155 <http://www.ons.gov.uk/ons/rel/pse/public-sector-employment/q1-2015/stb-pse-2015q1.html>

156 <https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/policy/policy-research-topics/citizens-advice-cymru-wales-policy-research/advice-trends-in-wales-2014-15/>

157 <http://www.ons.gov.uk/ons/rel/lms/labour-market-statistics/august-2015/sty-labour-market-statistics--august-2015.html>

158 <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-33881356>

159 <http://www.jrf.org.uk/publications/housing-and-poverty>

160 <http://www.cih.org/resources/PDF/Policy%20free%20download%20pdfs/What%20you%20need%20to%20know%20about%20the%20summer%20budget%202015.pdf>

161 <http://www.cih.org/resources/PDF/Policy%20free%20download%20pdfs/Frontline%20futures%20report%20final.pdf>

mewn llety rhent yn arbennig yn sgil y toriadau hyn. Amcangyfrifwyd bod effaith diwygio lles ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig gan Lywodraeth Cymru wedi cymryd bron £1 biliwn o economi Cymru ar hyn o bryd. Datganodd adroddiad diweddar Oxfam Cymru 'Toesen Cymru' fod 40% o aelwydydd Cymru'n cael profiad o dodi tanwydd a 25% o'r boblogaeth yn byw mewn tlodi incwm cymharol.

Cadarnhaodd adroddiad Ionawr 2015 gan archwilydd cyffredinol Cymru fod y newidiadau a wnaed o ganlyniad i weithredu'r rhaglen diwygio lles wedi effeithio ar gyfran fwy o'r tenantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru nag yn Lloegr neu'r Alban. Canfu'r adroddiad hefyd fod tlodi, dyledion ac eithrio cynyddol ymhliith rhai tenantiaid tai cymdeithasol, sy'n cyd-daro â'r newidiadau hyn. Mae ôl-ddyledion rhent tenantiaid tai cymdeithasol cyfredol yng Nghymru wedi cynyddu hefyd; aeth nifer y tenantiaid mewn ôl-ddyledion i fyny gan 23.3 y cant yn y chwe mis cyntaf yn dilyn cyflwyno'r cap budd-dal a chymhorthdal ystafell sbâr.


Mae astudiaeth ddiweddar gan LSE wedi dangos

Mae'r UK Housing Review yn casglu bod y toriadau diwygio lles wedi bod yn ddewis polisi'n hytrach nag o ganlyniad y dirywiad economaidd; 'y rheiny yn hanner isaf y dosbarthiad incwm o gollwyr net o'r newidiadau i dreth a budd-daliadau, tra gwnaeth yr holl bobl hynny yn hanner uchaf y dosbarthiad incwm (ac eithrio'r 5% uchaf) enillion net.

Cafodd aelwydydd Cymru glustog yn erbyn effaith datganoli'r system budd-dal treth gyngor a ddisodlwyd trwy gefnogaeth Ilywodraeth Cymru; gyda chyllid ychwanegol o £22m yn 2014/15 ac ymrwymiad i gynnal y trefniadau hyn am ddwy flynedd arall. Fodd bynnag, effeithiodd toriadau nawdd cymdeithasol eraill a weithredwyd trwy ddiwygio lles yn anghymesur ar Gymru. Edrychodd adolygiad y llynedd ar effaith drom y gosb tanfeddiannaeth neu'r dreth ystafell wely ac effaith botensial y taliadau uniongyrchol ar Gymru yn fanwl.

Mae deilliannau'r heriau cyfreithiol i newid polisiau nawdd cymdeithasol yn parhau yn 2015; ym mis Mawrth, canfu'r goruchaf lys fod y cap budd-

### Housing Benefit claimants with Spare room subsidy (bedroom tax) reduction applied May 2015 by LA



bod effaith diwygiadau treth a lles Ilywodraeth glymbiaid 2010-2015 wedi profi'n ariannol niwtral, mae'r gostyngiadau mewn budd-daliadau a chredydau treth wedi ariannu rhan o'r toriadau mewn trethi uniongyrchol. Awgryma polisiau mor atchweliadol y bydd y newidiadau'n cael eu teimlo fwyaf yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig a chan y bobl fwyaf diamddiffyn, gydag effeithiau ôl-ddilynol ar wasanaethau cyhoeddus.

daliadau'n gyfreithlon er gwaetha'r ffaith ei fod yn torri'n glir ar rwymedigaethau'r Deyrnas Unedig o ran hawliau plant rhyngwladol (mae hyn cyn y gostyngiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar), a gellir canfod diweddarriadau cyfraith achosion ar y dreth ystafell wely ar y blog Nearly Legal . Digon yw dweud bod y dda bolisi'n parhau ar waith.

Yn 2015, adroddodd DWP fod 30,505 o aelwydydd Cymru'n destun y dreth ystafell wely, gyda gostyngiad

162 <http://regenwales.org/upload/pdf/042814110201Executive%20Summary%20English.pdf>

163 <http://policy-practice.oxfam.org.uk/publications/the-welsh-doughnut-a-framework-for-environmental-sustainability-and-social-just-346207>

164 [http://www.audit.wales/system/files/publications/welfare\\_reform\\_change\\_social\\_housing\\_2015\\_english.pdf](http://www.audit.wales/system/files/publications/welfare_reform_change_social_housing_2015_english.pdf)

165 De Agostini, Hills & Sutherland *Were we really all in it together? LSE & Political Science 2015* <https://www.iser.essex.ac.uk/research/publications/working-papers/euromod/em13-15>

166 <http://ppiw.org.uk/report-publication-the-impact-of-welfare-reforms-on-housing-policy-in-wales-a-rapid-evidence-review/>

167 p12 UK Wilcox, Perry & Williams. *Housing Review 2015, CIH & CHP*

168 <http://gov.wales/topics/localgovernment/finanfunding/counciltax/council-tax-support/?lang=en>

169 <http://www.theguardian.com/society/2015/mar/18/uk-benefit-cap-is-lawful-supreme-court-rules>

170 <http://nearlylegal.co.uk/bedroom-tax-fit-decisions/>

171 <https://www.gov.uk/government/statistics/housing-benefit-caseload-statistics#history>

172 <http://ppiw.org.uk/report-publication-the-impact-of-welfare-reforms-on-housing-policy-in-wales-a-rapid-evidence-review/>

173 <http://www.insidehousing.co.uk/one-in-three-welsh-social-tenants-now-in-rent-arrears/7008585.article?adfeuccess=1>

174 [http://www.crisis.org.uk/data/files/publications/HomelessnessMonitorWales2015\\_ExecutiveSummary.pdf](http://www.crisis.org.uk/data/files/publications/HomelessnessMonitorWales2015_ExecutiveSummary.pdf)

budd-dal tai cyfartalog o £14.15 yr wythnos.

hwn i brosesau dyrannu gwestiynau pwysig i'r gymuned tai cymdeithasol ynghylch gwerthoedd a phwrrpas, yn ogystal â'r effaith ar y berthynas gydag

Canfu'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru fod effaith anghymesur y dreth ystafell wely'n parhau gyda diffyg eiddo llai o faint yn y sector i ddarparu ar gyfer y niferoedd yr effeithir arnynt. Mae mwyaf y tenantiaid sydd wedi'u taro gan y gosb naill ai'n symud i'r sector rhent preifat, neu'n fwy tebygol o geisio 'aros a thalu' am y diffyg. O ganlyniad, mae landlordiaid cymdeithasol yn gweld cynnydd mewn ôl-ddyledion rhent gyda'r diwygiadau lles yn cael eu datgan fel y prif ffactor sy'n cyfrannu at hyn gan lywodraeth Cymru. Dangosodd yr ystadegau a gyhoeddwyd yn y gwanwyn fod yr ôl-ddyledion ar eu lefel uchaf er 2009-10, gyda 33% o aelwydydd tai cymdeithasol

mewn ôl-ddyledion rhent o 31 Mawrth 2014 ymlaen, cynnydd sylweddol o 4.8% ar y flwyddyn flaenorol. Roedd y cynnydd yn niferoedd yr ôl-ddyledion dipyn yn uwch i denantiaid y cyngor na thenantiaid landlordiaid cymdeithasol cofrestredig; gydag awdurdodau lleol yn gweld cynnydd o 9.3% mewn ôl-ddyledion.

Canfu adroddiad yr Homelessness Monitor 2015 ar gyfartaledd, er bod colledion sy'n codi o ddiwygio lles yn gwneud cyfanswm i gyfartaledd o £470 y flwyddyn ar gyfer pob oedolyn oed gweithio ledled Prydain Fawr, Cymru sy'n cael ei tharo galetaf gyda phump o'r pump ar hugain o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Ne Cymru (Merthyr Tudful £720, Blaenau Gwent £700, Castell-needd Port Talbot £700, Rhondda Cynon Taf £670 a Chaerffili £640).

Canfu adroddiad Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru fod rhai cymdeithasau tai'n newid eu polisiau dyrannu er mwyn ffafrio tenantiaid sy'n gweithio er mwyn mynd i'r afael â'r materion fforddiadwyedd sy'n codi yn sgil y toriadau nawdd cymdeithasol. Os na all aelwydydd incwm isel fforddio tenantiaethau cymdeithasol, yna beth yw eu dewisiadau tai nhw? Cyflwyna'r newid

|   | <b>HB</b> | <b>UC</b> |                 |
|---|-----------|-----------|-----------------|
| <b>Single aged under 25 – on main phase ESA</b>   | £72.40    | £57.53    | <b>-£14.87</b>  |
| Single aged under 25 – other                      | £57.35    | £57.53    | £0.18           |
| Single aged 25+                                   | £72.40    | £72.62    | £0.22           |
| <b>Lone parentaged 18+ but under 25</b>           | £72.40    | £57.53    | <b>-£14.87</b>  |
| Lone parentaged 25+                               | £72.40    | £72.62    | £0.22           |
| <b>Couple at least one aged 18+ both under 25</b> | £113.70   | £90.30    | <b>-£23.40</b>  |
| Couple at least one aged 25+                      | £113.70   | £113.99   | £0.29           |
| First child                                       | £63.28    | £63.36    | £0.08           |
| Each other child                                  | £52.78    | £52.89    | £0.11           |
| Disability premium single                         | £31.85    | £0.00     | <b>-£31.85</b>  |
| Disability premium couple (one/both qualifying)   | £45.40    | £0.00     | <b>-£45.40</b>  |
| Disabled child + Enhanced disability(Higher rate) | £83.58    | £83.75    | £0.17           |
| <b>Disabled child (Lower rate)</b>                | £24.08    | £28.81    | <b>£4.73</b>    |
| EDP adult single                                  | £15.55    | £0.00     | <b>-£15.55</b>  |
| EDP adult couple (one/both qualifying)            | £22.35    | £0.00     | <b>-£22.35</b>  |
| Work related activity component (LCW)             | £28.75    | £28.81    | £0.06           |
| <b>Support component (LCWRA)</b>                  | £35.75    | £71.97    | <b>£36.22</b>   |
| Carer premium claimant or partner or each         | £34.20    | £34.29    | £0.09           |
| <b>Severe disability premium single rate</b>      | £61.10    | £0.00     | <b>-£61.10</b>  |
| <b>Severe disability premium double rate</b>      | £122.20   | £0.00     | <b>-£122.20</b> |

awdurdodau lleol o ran dulliau ar y cyd newydd o atal digartrefedd.

Mae taliadau tai yn ôl disgrifiwn yn parhau i gael eu defnyddio yng Nghymru fel math o gymorth ariannol dros dro i aelwydydd sy'n profi diffyg mewn budd-dal tai, er mwyn lliniaru yn erbyn effaith diwygio lles. Cyhoeddodd yr adran gwaith a phensiynau ganllawiau i awdurdodau lleol yn 2015. Cefnogodd Ilywodraeth Cymru waith clwb diwygio lles ar ran 20 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru am fframwaith sy'n gweithredu ochr yn ochr â chanllawiau'r adran gwaith a phensiynau gyda'r nod o gyflwyno mwy o gysondeb a blaenoriaethu i weinyddu taliadau tai yn ôl disgrifiwn yng Nghymru.

Mae'r gwaith o gyflwyno'r credyd cynhwysol yn parhau. Mae'r credyd cynhwysol yn disodli chwech o'r 'budd-daliadau sy'n bodoli' i ddarparu budd-dal oed gweithio newydd (a adlewyrchir gan gredyd pensiwn) a delir yn fisol mewn ôl-ddyledion fel un dyfarniad fesul aelwyd, a weinyddir gan y DWP. Mae'r cyfnod aros o 7 niwrnod i hawlwyd newydd a'r cyfngiadau ar ôl-ddyddio hawliadau i fis yn ofid.

175 [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/453392/discretionary-housing-payments-guide-aug-15.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/453392/discretionary-housing-payments-guide-aug-15.pdf)

176 <http://welfareformclub.net/138-2/welfare-reform-club-news/>

177 <http://www.ifs.org.uk/publications/5414>

178 <https://www.gov.uk/government/organisations/homes-and-communities-agency>

179 <https://www.gov.uk/government/collections/affordable-homes-programme-2015-to-2018-guidance-and-allocations>

180 <http://www.publicfinance.co.uk/news/2015/07/fitch-budget-rent-cuts-threaten-creditworthiness-social-landlords>

Cychwynna'r cyfnodau asesu ar ddiwrnod cyntaf yr hawl i gredyd cynhwysol ac mae'n para un mis calendr. Gwneir unrhyw newidiadau sy'n digwydd rhan o'r ffordd trwy gyfnod asesu o gychwyn y cyfnod ac nid yn ôl cyfran. Golyga hyn y bydd aelwydydd ar eu hennill os ydy'r newid yn fanteisiol a'i fod yn digwydd cyn diweddu y cyfnod asesu, ond byddant ar eu colled os ydyw'n newid anfanteisiol sy'n digwydd ar ddiweddu y cyfnod asesu.

Bwriedir i'r credyd cynhwysol gael ei gwmpasu ar draws holl swyddfeydd y Ganolfan Waith erbyn diweddu 2015 i aelwydydd un person newydd sy'n hawlio ar y lwfans ceiswyr gwaith, a gyfyngir i nifer gyfyngedig o ardaloedd. Felly, pan fydd hawliwr ar gredyd cynhwysol, bydd yn aros ar y system hyd yn oed os bydd yn symud i ardal newydd neu'n newid canolfan waith. Disgwylir y bydd y garfan yn cael ei lledu i gynnwys yr hawlwr unigol hynny a chanddynt newid mawr mewn amgylchiadau, gan ehangu i deuluoedd a chyplau tuag at ddiweddu 2017. Disgwylir i'r mudo mewn bloc i'r credyd cynhwysol gael ei gwblhau yn 2020.

Canfu dadansoddiad yn 2011 gan yr Institute of Fiscal Studies ei bod hi'n debygol, dan y gyfundrefn

| Tenure                                       | West Highland, Inverness<br>Authority, rural<br>Scotland and rural Argyll | Other rural                                  | City and urban                               |
|--|---|--|--|
| RSL social rent - greater <sup>181</sup>     | £7.2k (3 person<br>equivalent, benchmark)                                 | £7.3k (3 person<br>equivalent,<br>benchmark) | £7.3k (3 person<br>equivalent,<br>benchmark) |
| RSL social rent - other                      | £6.8k (3 person<br>equivalent, benchmark)                                 | £6.8k (3 person<br>equivalent,<br>benchmark) | £5.8k (3 person<br>equivalent,<br>benchmark) |
| RSL mid-market rent - greater <sup>182</sup> | £3.4k (3 person equivalent, benchmark)                                    |  |  |
| RSL mid-market rent - other                  | £3.0k (3 person equivalent, benchmark)                                    |  |  |
| Council social rent - greater <sup>183</sup> | £5.0k (mid rate benchmark for council projects)                           |  |  |
| Council social rent - other                  | £4.8k (mid rate benchmark for council projects)                           |  |  |

<sup>181</sup> To qualify for the higher 'greater' values from the Scottish Homes Investment Scheme, the building must cost for the new homes meet Level 2, Other Level, of the 2007 Building Regulations in respect of both Conservation Element and Energy for New Homes. Source: Scottish Government (2012).

credyd cynhwysol newydd, y bydd rhyw 2.5 miliwn o aelwydydd ar eu hennill o dan y lwfansau newydd, gydag 1.4 miliwn o ddeiliaid tai'n cael gostyngiad mewn lwfansau, a 2.5 miliwn yn gweld dim newid.

Lwfansau newydd dan gredyd Cynhwysol o gymharu â Budd-dal Tai:

Bydd 60% isaf yr incymau'n ennill ar gyfartaledd, gyda'r 40% uchaf yn colli ychydig. Mae'r IFS yn disgwyl mai cyplau gyda phlant fydd fwyaf ar eu hennill o'r newid hwn.

## 7: TAI CYMDEITHASOL

Amrywia'r grant tai cyfalaf er mwyn cyflawni tai'r is-farchnad yn fawr ar draws y pedair gwlad, mewn enw, argaeledd, dyraniad a phroses. Mae crynodeb isod o sut mae'r buddsoddiad cyfalaf yn y broses dai'n gweithio ar draws pedair gwlad Prydain.

Lloegr: enw grant cyfalaf tai Lloegr yw'r affordable homes programme (AHP). Gweinyddir y rhaglen gan yr Homes and Communities Agency (HCA) sy'n rhyddhau cyllid mewn camau trwy gyfres o brosesau cynnig cystadleuol. Mae'r HCA yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol, a noddir gan yr adran cymunedau a llywodraeth leol. Cyfanswm y grant AHP ar draws y pedair blynedd 2011/12-2014/15 oedd £4.5bn. Ar gyfer y cyfnod nesaf o dair blynedd o 2015/16-2017/18, lleihawyd AHP yn sylweddol i £1.7bn. Nid oes methodoleg dyrannu ragnodedig ond y bwriad ar gyfer y cyllid a ddyrennir o fis Medi 2014 ymlaen yw codi 68,500 o gartrefi, y mae'r mwyafri ohonynt (57,000) at ddibenion rhent fforddiadwy. Bwriad yr 11,000 o gartrefi sy'n weddill yw bod at ddibenion perchen ar gartrefi fforddiadwy. Er y cytunwyd ar y toriad hwn cyn y gostyngiadau rhent o 1% y flwyddyn, a gyhoeddwyd yn y gyllideb ddiweddar a fydd yn disodli cyhoeddiad 2014 y byddai'r cynnydd mewn rhent yn seiliedig ar y CPI+1% am ddeng mlynedd, gallai'r cyhoeddiad hwn arwain at sawl darparwr tai yn ail-drafod datblygiad tai fforddiadwy a'r defnydd o AHP.

Yr Alban: Yn yr Alban, y grant cyfalaf yw'r affordable housing supply programme (AHSP). Cyfanswm y grant ar gyfer 2013/14 oedd £315m, yn 2014/15, roedd yn £341m ac yn 2015/16, disgwylir iddo fod yn £463m. Ceir lefelau cymhorthdal meincnod yn seiliedig ar wahanol fathau o ddeiliadaeth, effeithlonrwydd ynni a daearyddiaeth, ond gellir dyfarnu'r symiau hyn uwchlaw'r lefelau meincnod dan rai amgylchiadau.

Canllawiau SG ar y lefelau meincnodi yw:

Deiliadaeth Gorllewin yr Ucheldiroedd, Awdurdodau'r Ynysoedd, Argyll anghysbell ac/neu

181 [http://www.dsdoi.gov.uk/print/index/hsdiv-housing/ha\\_guide/hagc-calculating-grant-contents/hagc-tci-summary.htm](http://www.dsdoi.gov.uk/print/index/hsdiv-housing/ha_guide/hagc-calculating-grant-contents/hagc-tci-summary.htm)

182 <http://www.insidehousing.co.uk/grant-rate-to-rise-above-50-in-northern-ireland/7006430.article>


183 <https://www.co-ownership.org/>

## wledig Gwledig arall Dinas a threfol

Darperir isafswm tybiaethau grant o dair blynedd i gynghorau'r Alban bellach er mwyn cynorthwyo â chynllunio'r ddarpariaeth tai fforddiadwy yn y strategaeth tai lleol. Llofnodir hyn gan Lywodraeth yr Alban i sicrhau cydbwysedd o ran datblygiadau'r awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, gyda Glasgow a Chaeredin yn gyfrifol am reoli eu dyraniad cyllid eu hunain. Mae Llywodraeth yr Alban yn cadw rhan o'r gyllideb ar gyfer cynlluniau prynu am y tro cyntaf, cefnogaeth i berchnogion cartrefi a chymhorthdal ychwanegol ar gyfer cartrefi a adeiladwyd i'r safon wyrddach.

**Gogledd Iwerddon:** Enw'r grant cyfalaf yng Ngogledd Iwerddon yw housing association grant (HAG). Cyfanswm y grant ar gyfer 2013/14 oedd oddeutu £84m gyda tharged i gyflawni 1,250 o gartrefi cymdeithasol. Yn 2014/15, cododd y ffigur hwnni i £97.5m gyda tharged o 2000, ac yn 2015/16, cododd ymhellach i £101m er bod y ffigur hwn yn cynnwys arian am bryniannau tir uwch, gyda tharged cyflawni o 1,500 o gartrefi newydd.

Canlyniad cyfrifiad seiliedig ar y 'cyfanswm dangosydd cost' (CDC) yw taliadau grant, ar gyfer y grŵp cost wedi'i luosi gan gyfradd y grant. Ar gyfartaledd, 52%



yw'r grantiau yn seiliedig ar y cynnydd a gyhoeddwyd ar ddiwedd 2014, i fyny o 46-7%. Darperir yr holl dai deiliadaeth ganolradd gan y Co-ownership Housing Association . Fel gyda HAG, nid oes canran osod ar gyfer datblygiad deiliadaeth ganolradd. Yn 14/15, cafodd datblygiad cydberchnogaeth yng Ngogledd Iwerddon HAG cyfartalog o £44,000 fesul eiddo.

Darperir tai cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon gan y Social Housing Development Programme (SHDP) a reolir gan Grŵp Rhaglen Datblygu Gweithrediaeth Tai Gogledd Iwerddon, a ariennir yn ei dro gan yr Adran Datblygiad Cymdeithasol.

Mae'r Grŵp Rhaglen Datblygu'n darparu cyllid grant yn uniongyrchol i gymdeithasau tai er mwyn iddynt allu adeiladu neu gaffael tai cymdeithasol newydd. Rheolir yr SHDP bob 3 blynedd ar hyn o bryd. Nid yw Gweithrediaeth Tai Gogledd Iwerddon bellach yn codi tai cymdeithasol; cyflawnir yr holl gartrefi adeilad newydd fforddiadwy ar y farchnad gan gymdeithasau tai.

**Cymru:** Yng Nghymru, gelwir y grant cyfalaf yn grant tai cymdeithasol a'r cyfanswm grant ar gyfer 2013/14 oedd £74.4 miliwn, gan leihau i £63.8 miliwn yn 2014/15, ac ar adeg ysgrifennu, nid oedd y ffigur ar gyfer y cyfnod 2015/16 ar gael. Lefel y grant tai cymdeithasol ar gyfer cyflawni tai cymdeithasol yw 58% o'r cyfanswm cost, gyda thai fforddiadwy (rhenti canolradd) wedi'u capio ar 25%. Gwna Llywodraeth Cymru ddyraniad blynnyddol i'r 22 awdurdod lleol seiliedig ar fformiwlâu a delir yn unol â hynny, ac yn uniongyrchol i'r cynghorau hyn. Wedyn, mae'r awdurdodau hyn yn gweithio gyda, ac yn trosglwyddo'r grant tai cymdeithasol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n gweithredu yn yr ardal, i gyflawni cartrefi newydd, yn unol â'r strategaeth tai lleol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar gostau derbyniol diwygiedig yn 2015. Darperir ffigurau canllawiau ar gostau derbyniol fel canllawiau ar dderbynioldeb tebygol costau'r cynllun at ddibenion grant tai cymdeithasol. Disgwylia Llywodraeth Cymru i fwyafri y cynlluniau allu cael eu cynhyrchu ar neu islaw'r canllawiau ar gostau derbyniol.

Fel y gellir gweld o'r gymhariaeth traws gwledydd uchod, mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru i gyflawni tai cymdeithasol a thai fforddiadwy'n cymharu'n dda yn erbyn gwledydd eraill y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae targed presennol Llywodraeth Cymru o 10,000 o gartrefi fforddiadwy newydd, sydd wedi'u hamserlennu i'w cyflawni erbyn diwedd tymor cyfredol Cynulliad Cymru, ymhell o gyrraedd yr angen presennol a amcangyfrif o 25,000 ar gyfer y cyfnod. Mae hyn yn seiliedig ar yr amcangyfrif o 284,000 o gartrefi ychwanegol y mae eu hangen yng Nghymru rhwng 2006 a 2026, y mae Holmans a Monk yn datgan y dylai 101,000 ohonynt fod yn dai nad ydynt ar gyfer y farchnad. Dylid nodi bod Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal ailasesiad o'r amcangyfrif hwn, gan gredu y gallai'r gofyniad fod wedi syrthio oherwydd y lefelau

<sup>184</sup> <http://gov.wales/docs/desh/publications/150401-acceptable-cost-guidance-en.pdf>

<sup>185</sup> <http://m.insidehousing.co.uk/housebuilding-increases-in-wales/7010200.article>

<sup>186</sup> [http://www.whnb.org.uk/uploads/media/100707housingdemandneedfuller\\_full\\_report.pdf](http://www.whnb.org.uk/uploads/media/100707housingdemandneedfuller_full_report.pdf)

<sup>187</sup> [http://www.whnb.org.uk/uploads/media/100707housingdemandneeden\\_summary.pdf](http://www.whnb.org.uk/uploads/media/100707housingdemandneeden_summary.pdf)

<sup>188</sup> Wilcox, Perry & Williams, UK Housing Review 2015, CIH p72

<sup>189</sup> <http://www.cih.org/news-article/display/vpathDCR/templatedata/cih/news-article/data/Wales/housebuildstatsjune15>

<sup>190</sup> <http://gov.wales/statistics-and-research/new-house-building/?lang=en>

<sup>191</sup> <http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-housing-quality-standard/?lang=en>

<sup>192</sup> <http://www.insidehousing.co.uk/business/development/financial-freedoms-will-build-hundreds-of-welsh-homes/7009017.article>

<sup>193</sup> UK Housing Review 2015, data table 77.


<sup>194</sup> [http://www.whq.org.uk/main/articleDetailPrintable.php?ART\\_id=1395](http://www.whq.org.uk/main/articleDetailPrintable.php?ART_id=1395)

<sup>195</sup> <http://www.wlga.gov.uk/exiting-from-the-housing-revenue-account-subsidy-system1>

twf aelwydydd is na'r disgwl .

Dengys ystadegau a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2015 fod nifer yr anheddu newydd a gychwynnwyd yng Nghymru wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf, gan gynnwys cynnydd

Tai Cymru (SATC), y mae'r dyddiad targed amdani wedi'i ymestyn i 2020, fel y trafodwyd yn adolygiad y llynedd. Rhyddheir data bob mis Hydref mewn diweddarriad gan lywodraeth Cymru , ac fel ar 31 Mawrth 2014, adroddodd Llywodraeth Cymru fod 67% o anheddu tai cymdeithasol (149,755 o gartrefi) yn uffudhau i SATC (gan gynnwys methiannau derbyniol), cynnydd o 7% ar 2013.



Source: WLGA article, issue 95, WHQ

arwyddocaoi yn 2014-15 o 20% ar y flwyddyn flaenorol. Yn ogystal, mae adeiladau wedi'u cwblhau wedi cynyddu dros y ddwy flynedd diwethaf gyda 6,170 o anheddu newydd wedi'u cwblhau yng Nghymru yn 2014-15. Er y croesewir y ffigur hwn, mae'n dal i fod yn llai na hanner nifer y cartrefi y mae adroddiad Holmans & Hunt yn datgan bod angen i Gymru eu codi bob blwyddyn.

Adroddodd Llywodraeth Cymru yn ystod 2014-15 fod y tai a gwblhawyd ar gyfer y sector preifat wedi cynyddu gan 3%, wrth i nifer y tai a gwblhawyd ar gyfer y sector cymdeithasol wedi cynyddu 25% i 837, sef y nifer uchaf a gofnodwyd er 2010-11. Tuedda'r rhan fwyaf o anheddu newydd a gwblhawyd yng Nghymru fod yn eiddo 3 ystafell wely, sy'n cyfrif am 38 y cant o'r holl dai a gwblhawyd yn ystod 2014-15.

Er bod Cymru'n aros am gyhoeddiad yr ymchwil ddiwygiedig ar angen tai heb ei fodloni yng Nghymru, mae adroddiad diweddar y Sefydliad Materion Cymreig 'Strategaeth Economaidd i Gymru', yn datgan cynnydd yn y buddsoddiad mewn tai fel enghraift flaenoriaethol o ddulliau i gulhau'r bwllch cyfoeth rhwng Cymru a'r Deyrnas Unedig; gan ddatgan buddsoddiad o £500 - £750 miliwn dros ac uwchlaw rhaglenni presennol llywodraeth Cymru a allai alluogi ar gyfer codi 10,000 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol, ac yn y broses, cefnogi rhwng 5,000 a 7,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALI).

Mae'r buddsoddiad yn y stoc tai cymdeithasol presennol yn parhau trwy gyflawni Safon Ansawdd

Mae ffenestri a synwyryddion mwg trydanol yn parhau i feddu ar lefelau uchel o uffud-dod, wrth i ystafelloedd ymolchi a cheginau feddu ar y lefelau uffud-dod isaf ar 31 Mawrth 2014. Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn parhau i adrodd ar lefelau uffud-dod uwch sef uffud-dod o 83%, o gymharu â 44% o anheddu awdurdodau lleol.

Golyga'r ymadawiad â Chymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai yn 2015, fel y trafodwyd yn gynharach, fod y gyfundrefn gymhorthdal negyddol olaf yn y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ar gyfer yr un ar ddeg cyngor yng Nghymru a chanddynt stoc tai a gadwyd. Cyfanswm y taliad cymhorthdal negyddol dan system Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai i Drysorlys Ei Mawrhydi oedd -£72.8 miliwn yn 2013/14 . Dan y setliad newydd, o gael sail statudol yn Neddf Tai (Cymru) newydd 2014, bydd yr awdurdodau lleol a chanddynt stoc a gadwyd yn gweld y taliad cymhorthdal negyddol hwn yn cael ei ddisodli o fis Ebrill 2015 ymlaen gan daliad o £40 miliwn o ffioedd llog ar fenthyciadau gan y bwrdd benthyciadau gwaith cyhoeddus , sef ad-daliad o'r swm am adael y system yr amcangyfrifir iddo fod yn £919 miliwn. Mae'r cynghorau hyn bellach wedi dechrau ar reolaeth lawn dros eu hincwm rhent, er bod hynny gyda chapiau ar fenthyc a cysylltiedig â thai a osodwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi ar £1.85 biliwn ar bob awdurdod, i reoli benthyca sector cyhoeddus .

Mae Cymdeithas llywodraeth leol Cymru (CLIC) yn amcangyfrif y bydd £358 miliwn o'r £1.85 biliwn sydd wedi'i gapio'n cael ei ddefnyddio i ddod â chartrefi dan berchnogaeth y Cyngor i fyny at SATC, gan adael rhwng £112 miliwn ar gyfer rhaglenni adeiladau newydd ac adfywio.

I nifer fawr o'r cynghorau hyn, buddsoddiad yn eu stoc i gyrraedd SATC fydd y flaenoriaeth, fodd bynnag i'r rhai sydd eisoes wedi cyrraedd SATC, bydd y rhaglenni adeiladau newydd wedyn, sy'n golygu y bydd y rhaglenni tai cyngor newydd cyntaf mewn


196 <http://www.insidehousing.co.uk/financial-freedoms-will-build-hundreds-of-welsh-homes/7009017.article?adfeuccess=1>

197 <http://www.mandg.co.uk/-/media/Press%20Releases/600-new-homes-South-Wales-50-million-funding-secured.pdf>

198 <http://www.socialhousing.co.uk/welsh-government-eyes-stock-transfers-for-capital-markets-funding/7010997.article>

199 <http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/grants-and-funding/housing-finance-grant/?lang=en>

200 <http://www.socialhousing.co.uk/news/V2c-lands-first-placement-for-welsh-stock-transfer-rsl/7010995.article>



cenhedlaeth yn dechrau, gyda rhai awdurdodau lleol sydd heb gyrraedd SATC eto'n cynllunio rhaglen o adeiladau newydd ac adfywio

### Grant Cyllid Tai Cymru

Lansiwyd cyfnod cyntaf y rhaglen grant cyllid yn 2013, gyda tharged i godi dros 1,000 o gartrefi newydd mewn dwy flynedd. Yn sail iddo roedd cymhorthdal refeniw 30 mlynedd llywodraeth Cymru o £4 miliwn y flwyddyn. Cyhoeddwyd ail gyfnod (a drafodwyd yn adolygiad y llynedd) yn 2014, ac mae'n golygu buddsoddiad ychwanegol o £250m dros 30 mlynedd, gan drebulu'r buddsoddiad gwreiddiol, gyda tharged i ddarparu 2,000 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol. Mae disgwyl i'r ail gyfnod ddechrau o 2017-18 ymlaen.

Ym mis Chwefror 2015, cyhoeddodd cymdeithas tai United Welsh fod benthyciad o £50m gan M&G Investments wedi'i sicrhau i ddarparu 600 o gartrefi newydd yn ne Cymru mewn bargin ariannu tymor hir, yn dilyn benthyciad cychwynnol a wnaed ar y cyd â grant cyllid tai Cymru.

Ym mis Gorffennaf 2015, adroddwyd bod llywodraeth Cymru'n gweithio ar gynlluniau newydd ar gyfer grant cyllid tai Cymru, gyda'r bwriad o roi mynediad i'r un ar ddeg cymdeithas trosglwyddo stoc yng Nghymru i'r marchnadoedd cyfalaf dyled. Gweithiodd llywodraeth Cymru gyda'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig hyn i fynd i'r afael â materion sydd wedi atal trosglwyddiadau stoc graddfa fawr rhag cymryd rhan yn y cynnrych cyllid ar y cyd hyd yma, oherwydd materion gyda benthycwyr. Ym mis Gorffennaf 2015, cyhoeddwyd mai'r trosglwyddiad stoc cyntaf yng Nghymru, Valleys to Coast, oedd y landlord tai cyntaf o'r fath i sicrhau benthyciad yn dilyn cwblhau ei raglen gwella stoc (SATC) yn 2015; sicrhawyd benthyciad gwerth £25 miliwn gan M&G mewn

bargin 30 mlynedd fel rhan o raglen datblygu i gyflawni 600 o gartrefi newydd dros y 10 mlynedd nesaf.

### Polisi rhenti Cymru

Cyflwynwyd polisi rhenti pum mlynedd newydd gan Lywodraeth Cymru yn 2014 ar gyfer cymdeithasau tai gyda rhai eithriadau, er enghraift tai â chymorth. Rhoddwyd y polisi ar waith i awdurdodau lleol yn 2015, yn dilyn yr ymadawiad o Gymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai (gweler uchod). Mae rhenti cymdeithasol bellach yn adlewyrchu'r math, y maint a lleoliad eiddo'r landlord; gyda'r bwriad o beri cydgyfeirio rhwng rhenti awdurdodau lleol a rhenti cymdeithasau tai a gofyniad newydd i ffioedd gwasanaethau gael eu gwahanu o'r rhenti a godwyd.

Mae Deddf Tai (Cymru) yn gosod safonau i'w bodloni gan awdurdodau lleol sydd ym mediant stoc ar gyfer rhenti a ffioedd gwasanaethau. Mae'n ofynnol cwblhau'r gwaith o wahanu'r ffioedd gwasanaeth wrth rent ar gyfer pob landlord cymdeithasol erbyn mis Mawrth 2016. Gyda'r newyddion diweddar fod landlordiaid cymdeithasol Cymru wedi'u gofyn i fodelu nifer o newidiadau i'r polisi rhent, yn dilyn y toriad o 1% a gyhoeddwyd i renti cymdeithasol yn Lloegr am bedair blynedd o 2016 yn y gyllideb ddiweddar, roedd y setliad rhent yng Nghymru ymhell o fod yn sicr adeg ysgrifennu.

Wrth gwrs, ni fydd y rhan fwyaf o denantiaid yn elwa'n uniongyrchol ar doriadau rhent yng Nghymru, oherwydd bydd y gostyngiad yn effeithio gyntaf ar daliadau budd-dal tai lle maen nhw ar waith ar gyfer aelwydydd. Yn wir, mae cyfran fwy o faint o denantiaid tai cymdeithasol Cymru'n hawlio budd-dal tai na Lloegr neu'r Alban, yn ôl adroddiad archwilio diweddar Cymru ; 73.7% yng Nghymru o gymharu â 69.7% yn Lloegr a 63% yn yr Alban. Yn ogystal, o'r rhain mae cyfran uwch yn destun y dreth ystafell wely/cymhorthdal ystafell sbâr.

Mae rhenti yng Nghymru wedi codi ar gyfradd dipyn yn is na Lloegr gyda'r swyddfa ystadegau gwladol yn adrodd mai Cymru oedd y man mwyaf fforddiadol yng Nghymru a Lloegr (o'i chymharu ochr yn ochr â rhanbarthau Lloegr) ac roedd ganddi'r ardal awdurdod rhent tai cymdeithasol isaf, sef Sir Benfro,

201 <https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Housing/Social-Housing-Quality/ComplianceWithTheOverallWelshHousingQualityStandard-By-Provider-Measure>

202 <http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/managing-social-housing/social-housing-rents-policy/?lang=en>

203 <http://www.insidehousing.co.uk/welsh-landlords-told-to-model-for-osborne-style-rent-cut/7011096.article?adfsuccess=1>

204 <http://www.24dash.com/news/housing/2015-07-08-Summer-Budget-Revenge-as-government-reduces-social-housing-rents>

205 [http://page\\_21http://www.audit.wales/system/files/publications/welfare\\_reform\\_change\\_social\\_housing\\_2015\\_english.pdf](http://page_21http://www.audit.wales/system/files/publications/welfare_reform_change_social_housing_2015_english.pdf)


206 <http://visual.ons.gov.uk/social-housing-affordability/>

gyda'r rhenti yno bron hanner pris uchaf yr ardal ddrutaf, ym mwrdeistref Newham yn Llundain.

Er bod llywodraeth yr Alban wedi penderfynu peidio â thorri rhenti , erys darparwyr tai cymdeithasol Cymru'n bryderus am benderfyniad y gweinidog, yn y gobaith y bydd llywodraeth Cymru'n 'peidio ag ildio' er mwyn cynnal y setliad rhent cyfredol, yn hytrach na chyhoeddi gostyngiad a fydd yn effeithio'n sylwedol ar gynllunio busnes tymor hir landlordiaid cymdeithasol

### Rhenti cartrefi a dileu Sail 8

Cynigia Bil Rhenti Cartrefi (Cymru) ddileu 'Sail 8' o'r contract diogel newydd arfaethedig a fydd yn cael ei ddefnyddio gan 'landlordiaid cymunedol' (landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol), ar gyfer tenantiaethau tai cymdeithasol ar ddechrau'r rheoliadau newydd. Sail 8 yw un o'r seiliau gorfodol am fod ym meddiant tenantiaeth sicr a restrir yn Nedd Tair 1988 Atodlen 2. Golyga fod yr unig amddiffyniad sydd ar gael i'r tenant am resymau trefniadol, a ffuria un o'r prif wahaniaethau rhwng tenantiaeth sicr a ddefnyddir gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ar hyn o bryd a thenantiaeth sicr a ddefnyddir gan landlordiaid y cyngor ar hyn o bryd. Cafwyd rhyw fath o foratoriwm answyddogol gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru ar ddefnyddio'r sail, ond mae pryderon yn parhau y bydd effaith diwygio lles yn arwain at gynyddu'r defnydd ohono.



gyda Chomisiwn y Gyfraith , Shelter Cymru , Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru , Tenantiaid Cymru a TPAS Cymru i gefnogi'r cynnig i'w dileu.

Dadleua'r rheiny sy'n galw am gadw Sail 8 fod y sail yn arf casglu dyledion effeithiol, ei bod ond yn cael ei defnyddio fel dewis olaf un ac y bydd yn cynyddu'r risg ariannol i sefydliadau gan effeithio'n negyddol ar gytundebau benthyg gyda benthycwyr. Mae'r achos o blaid ei dileu'n cynnwys y dylai'r contract diogel newydd 'godi'r lefel' ar amrywiadau diogelwch cyfredol er budd tenantiaid tai cymdeithasol, bod yr hawl i oruchwyliaeth farnwrol yn egwyddor bwysig i bobl sydd mewn perygl o golli eu cartrefi, yn enwedig yng nghyd-destun cosbau tanfediannaeth ('y dreth ystafell wely') a thaliadau uniongyrchol yn y gyfundrefn budd-daliadau lles newydd, bod defnyddio sail orfodol am droi tenantiaid allan am 8 wythnos o ôl-ddyledion rhent yn anghymesur, gan fod Comisiwn y Gyfraith yn dadlau bod Sail 8 yn groes i ddatblygiadau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sy'n gofyn i'r llysoedd feddu ar gwmpas am oruchwyliaeth farnwrol o achosion



207 <http://www.insidehousing.co.uk/welsh-landlords-told-to-model-for-osborne-style-rent-cut/7011096.article?adfeuccess=1>

208 <http://m.insidehousing.co.uk/status quo/7011057.article>

209 <http://nearlylegal.co.uk/2006/12/what-do-we-do-with-a-problem-like-ground-8/>

210 <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1988/50/schedule/2>

211 [http://www.whq.org.uk/main/articleDetail.php?ART\\_id=1498](http://www.whq.org.uk/main/articleDetail.php?ART_id=1498)

212 <http://www.insidehousing.co.uk/cin-backs-welsh-government-proposal-to-scrap-ground-8/6528357.article?adfeuccess=1>

213 [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/272281/6781.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/272281/6781.pdf)

214 <http://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2015/03/Renting-Homes-general-principles-evidence-web.pdf>

215 <http://www.wlqa.gov.uk/consultation-responses-social-services-and-housing/wlqa-consultation-response-renting-homes-a-better-way-for-wales>

216 <http://www.welshtenants.org.uk/wp-content/uploads/downloads/2013/05/Update-May-2013.pdf>

217 [http://www.whq.org.uk/main/articleDetail.php?ART\\_id=1268](http://www.whq.org.uk/main/articleDetail.php?ART_id=1268)

218 [http://www.lawcom.gov.uk/wp-content/uploads/2015/03/lc337\\_renting\\_homes\\_in\\_wales\\_english-language-version.pdf](http://www.lawcom.gov.uk/wp-content/uploads/2015/03/lc337_renting_homes_in_wales_english-language-version.pdf)

### Land Registry House Price Index by region (June 2015)

| Region                 | Monthly change % | Annual change % | Average price (£) |
|------------------------|------------------|-----------------|-------------------|
| North East             | 3.00%            | 2.40%           | £102,064          |
| London                 | 1.80%            | 9.20%           | £481,820          |
| Wales                  | 1.70%            | 2.70%           | £119,099          |
| South West             | 0.80%            | 5.20%           | £189,850          |
| East Midlands          | 0.70%            | 5.00%           | £134,965          |
| South East             | 0.40%            | 8.40%           | £247,375          |
| North West             | 0.20%            | 3.60%           | £114,754          |
| West Midlands          | -0.20%           | 2.10%           | £137,209          |
| East Midlands          | -0.80%           | 7.80%           | £203,428          |
| Yorkshire & the Humber | -0.90%           | 1.40%           | £121,070          |

Source: Land Registry

### o droi allan Tai cydweithredol

Yn dilyn y cyhoeddiad targed o 500 o eiddo newydd gan ddefnyddio'r model tai cydweithredol a gyhoeddwyd yn y Papur Gwyn Tai yn 2012, a chyhoeddi adroddiad CIH 2013, mae Llywodraeth Cymru'n parhau i ariannu'r prosiect tai cydweithredol cenedlaethol a gyflawnir gan ganolfan cydweithredol Cymru. Arweinir tai cydweithredol gan y gymuned ac fe'u rheolir yn unol â'r gwerthoedd a'r egwyddorion cydweithredol, gan annog a chefnogi rheolaeth y gymuned leol dros dai a chymdogaethau. Mae'r prosiect bellach wedi cychwyn 25 o brosiectau tai cydweithredol, gan ddarparu cefnogaeth i 343 o drigolion

cydweithredol mewn 87 o gartrefi. O ganlyniad, rhoddwyd cyfle i nifer gynyddol o deuluoedd a chymunedau ar draws Cymru i ddatblygu eu hatebion tai eu hunain. Yn 2015, sicrhaoedd y prosiect hefyd gyllid ychwanegol gan y Nationwide Foundation i ddarparu cefnogaeth arbenigol ychwanegol i grwpiau tai cydweithredol er mwyn adeiladu a meithrin cymunedau cydweithredol ledled Cymru.

Yn 2015, yn dilyn cyhoeddi prosiect tai cydweithredol bach newydd a gefnogir gan Gartrefi Cymoedd Merthyr a'r awdurdod lleol ym Merthyr, cyhoeddodd Cartrefi Cymoedd Merthyr ei fwriad i fod y cwmni tai cydweithredol mawr cyntaf yng Nghymru. Cymeradwyodd y landlord cymdeithasol cofrestredig, a sefydlwyd yn dilyn trosglwyddiad gwirfoddol graddfa fawr yn 2009, set newydd o reolau llywodraethu ym mis Mehefin, ac mae wrthi'n ceisio cymeradwaeth gan fenthycwyr, yr awdurdod lleol a llywodraeth Cymru am y newid, y mae'n gobeithio'u cael ar waith cyn diwedd y flwyddyn, gyda'r sefydliad cydweithredol gweithwyr a thenantiaid newydd yn bwriadu cael ei lansio ym mis Mai 2016.

## 8: TAI SECTOR PREIFAT

Mae'r sector preifat yn lletya mwyaf poblogaeth Cymru o bell ffordd, gan gwmpasu

perchen-feddanwyr a'r sector rhent preifat (SRhP); roedd yn cyfrif am amcangyfrif o 84% o'r cyfanswm stoc ar gyfer 2013/14.

### Perchen-feddiannaeth

Mae perchen-feddanwyr yn cyfrif am ryw 70% o stoc tai Cymru, ac fel y trafodwyd yn gynharach, mae'r tueddiadau'n dangos dirywiad yn nifer y prynwyr tro cyntaf a bod niferoedd y deiliaid cartrefi iau yn lleihau. Mae hyn oherwydd prisiau tai'n codi, materion fforddiadwyedd cynyddol wrth i brisiau tai godi'n anghymesur o gymharu ag enillion cyfartalog aelwydydd a newidiadau mewn arfer benthyca ar ôl y dirwasgiad.

Mae ONS yn adrodd bod rhaniad daearyddol sylweddol yn parhau yn 2014 rhwng yr ardaloedd hynny lle'r oedd y tai ar eu drutaf a'r rhai mwyaf fforddiadwy yn dibynnu ar incwm ar draws Cymru a Lloegr.

O'r 30 o ardaloedd lleiaf fforddiadwy i brynu tŷ yng Nghymru a Lloegr, roedd 23 yn Llundain neu Dde-ddwyrain

219 <http://wales.gov.uk/consultations/housing-and-regeneration/housewhitepaper/?lang=en>

220 <http://www.walescooperative.org/index.php?cID=826&cType=document>

221 <https://www.mynewsdesk.com/uk/wales-co-operative-centre/pressreleases/affordable-housing-options-boosted-by-nationwide-foundation-s-investment-in-welsh-co-operative-housing-project-dewisidiadau-tai-fforddiadwy-n-1045838>

222 <http://www.mvhomes.org.uk/News-Detail.aspx?cmsid=2336&hash=wwonvO9vOJWBLP5FPFPdFg>

223 <http://www.insidehousing.co.uk/association-plans-pioneering-mutual-model/7010531.article>

224 <http://visual.ons.gov.uk/uk-perspectives-housing-and-home-ownership-in-the-uk/>

225 [https://fullfact.org/economy/housing\\_home\\_ownership\\_house\\_prices-31339](https://fullfact.org/economy/housing_home_ownership_house_prices-31339)

226 p9 UK Housing Review briefing paper, <http://www.cih.org/resources/PDF/Policy%20free%20download%20pdfs/UKHR%20Briefing%202014%20bookmarked.pdf>

227 <http://visual.ons.gov.uk/affordability-housing/>

228 <http://www.lloydsbankinggroup.com/Media/Press-Releases/2015/halifax/generation-rent-2015-mother-knows-best-difference-of-opinion-between-parents-and-children-over-ftb-market/>

UK Repossessions, buy-to-let and owner-occupied markets



Source: Council of mortgage lenders

Lloegr. At ei gilydd, yr ardaloedd mwyaf fforddiadwy i brynu tŷ yn 2014, oedd yng ngogledd Lloegr neu Gymru, gyda Blaenau Gwent yr ardal fwyaf fforddiadwy a San Steffan yn Llundain y lleiaf fforddiadwy.

Menter gwerth £170 miliwn llywodraeth Cymru yw Cymorth i Brynu - Cymru, a drafodwyd yn fanwl yn adolygiad y llynedd. Mae'n darparu benthyciad rhannu ecwiti i brynwyr y tro cyntaf a pherchnogion cartrefi presennol i brynu eiddo newydd ei adeiladu hyd at werth o £300,000 gydag isafswm blaendal o 5%. Yn 2015, cyhoeddodd y gweinidog Lesley Griffiths estyniad i'r cynllun, y bydd y manylion yn cael eu rhoi ar ôl yr adolygiad gwario nesaf. Ar hyn o bryd, cynhelir gwerthusiad annibynnol o Gymorth i Brynu - Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n adrodd bod 1,200 o bobl wedi defnyddio'r fenter i brynu eu cartref hyd yma.

Ym mis Ebrill, cyhoeddodd Halifax ei bumed adroddiad blynyddol o 'Generation Rent'. Yn 2014, canfu'r adroddiad fod nifer y prynwyr tro cyntaf wedi codi i'w lefel uchaf ers saith mlynedd, ond bod y diffyg cysylltiad yn tyfu rhwng realiti'r sefyllfa i brynwyr y tro cyntaf a'u hamgyffrediad o'r farchnad. Mae'r gwelliant mewn amodau economaidd ynghyd â chynlluniau uchel eu proffil y llywodraeth wedi gweld niferoedd y prynwyr tro cyntaf yn dringo'n ôl i 311,500 yn 2014 o bwyt i sel o 192,300 yn ystod y dirwasgiad yn 2008. Fodd bynnag, mae gan brynwyr y tro cyntaf safbwyt negyddol ynghylch eu cyfleoedd o fynd ar yr ysgol dai, gyda 21% yn credu ei bod hi bron yn amhosibl i brynwyr tro cyntaf gael morgais.

Mae adroddiad 'Generation Rent' yn datgelu bod prisau eiddo uchel yn rhwystr mwy arwyddocaol i berchentyaeth i bobl Llundain na'r rheiny sy'n byw mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig. Nid yw'n syndod bod cyfran uchaf y darpar brynwyr tro cyntaf sy'n fodlon cyfaddawdu er mwyn prynu eu heiddo cyntaf yn dod o Lundain (95%), gyda'r rheiny sy'n byw yng Nghymru'r lleiaf tebygol o gyfaddawdu (84%), sy'nadlewyrchu o bosibl fforddiadwyedd gwell tai yng Nghymru o gymharu â rhanbarthau yn Lloegr.

Dywed data cyfrifiad 2011 wrthym o'r 15 miliwn o aelwydydd perchen-feddianwyr yng Nghymru a Lloegr, roedd 7.2 miliwn o gartrefi'n rhai oedd pobl yn berchen yn llwyr arnynt tra'r oedd y 7.8 miliwn oedd yn weddill yn cael eu prynu gyda morgais, gyda 91% yn byw mewn tŷ, yn hytrach na fflatiau. Ym mis Mehefin 2015, datganodd y Gofrestrfa Tir mai pris cyfartalog eiddo ar gyfer Cymru oedd £119,899 a phris eiddo cyfartalog ar gyfer Cymru a Lloegr oedd £181,689 ar gyfer yr un cyfnod.


Mae ailfeddiannu morgeisi'n parhau â'u hamcanestyniad am i lawr fel yr adroddwyd gan y cyngor benthycwyr morgeisi yn 2015, tuedd a gefnogwyd yn sylweddol gan y cyfraddau llog isel parhaus yn y Deyrnas Unedig.

Ym mis Tachwedd 2014, cyhoeddwyd gwerthusiad blwyddyn 2 o gynllun llywodraeth Cymru, Troi Tai'n Cartrefi. Mae'r cynllun, a lansiwyd ym mis Ebrill 2012 am gyfnod o dair blynedd gyda chronfa o £20m, yn rhoi benthyciadau di-log i ddod ag eiddo gwag nôl i ddefnydd yng Nghymru. Amod y benthyciad yw bod y cartref naill ai'n cael ei werthu neu ei rentu gan y perchnogion wrth gwblhau'r gwaith grant. Dyfarnwyd grantiau Troi Tai'n Cartrefi i 414 o adeiladau o fis Ebrill 2012 i fis Mawrth 2014, lle cafodd 230 o fenthyciadau hyd at uchafswm o £20,000 eu cymeradwyo; gwnaed 185 o'r benthyciadau hyn ym mlwyddyn 2. Dylid ystyried y grantiau yng nghydddestun y strategaeth mynd i'r afael â chartrefi gwag ehangach a fabwysiadwyd gan gynghorau Cymru, dan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, gyda 2,178 eiddo'n cael eu defnyddio o'r newydd yn 2013/14 yn sgil ymyriad uniongyrchol awdurdodau lleol.

Cynllun tlodi tanwydd yw Nest a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i gynnig pecyn o fesurau gwella ynni cartref a chyngor am ddim i aelwydydd oedd yn cael budd-dal trwy brawf modd ac sy'n byw mewn cartref ynni aneffeithlon iawn. Cyhoeddwyd gwerthusiad annibynnol o gynllun Nest yn 2015. Canfu'r adroddiad fod Nest wedi darparu cyllid o ryw £58m rhwng Ebrill 2011 a Medi 2014 gan ddarparu cyngor a chefnogaeth i dros 60,000 o aelwydydd ledled Cymru, lle darparwyd pecyn o fesurau gwella ynni cartref am ddim i fwy na 15,000 o aelwydydd, gan gynyddu cyfradd SAP 94% o eiddo i gyfradd o E neu uwch (o F/G), ac wedi cefnogi 46 menter fach a chanolig eu maint, gan greu cyfanswm o 83 o brentisiaethau, hyfforddeion a swyddi

### The private rented sector

Yn y gyllideb ym mis Gorffennaf 2015, cyhoeddodd y Canghellor, George Osborne newid i'r gostyngiad yn



y dreth morgais i landlordiaid preifat, gan ddatgan y byddai'r gostyngiad yn cael ei dorri o 40-45% i gyfradd sylfaenol y dreth o 20%. Bydd hyn yn effeithio'n drwm ar y costau i'w didynnu ar gyfer landlordiaid a bydd yn cael ei gyflwyno dros bedair blynedd o fis Ebrill 2017 ymlaen.

Honnodd Deloitte y byddai'r mesur bron yn dyblu cost effeithiol benthyca ar gyfer trethdalwr ar y gyfradd treth uchaf, gyda thaliadau llog o £100 sy'n costio £55 ar ôl y gostyngiad mewn treth ar hyn o bryd, yn codi i £80 o 2020 ymlaen.

Er y datganodd y Canghellor fod ei nod yn ymgais i "wastatau'r cae chwarae" rhwng landlordiaid prinhasid a pherchen-feddianwyr, mae rhai arbenigwyr yn darogan mai canlyniad anfwriadol y penderfyniad fydd i'r landlordiaid yr effeithiwyd arnynt gynyddu'r rhenti i leihau'r colledion. Fodd bynnag, ymgais yw hyn i gael diwedd ar y fantais sylweddol a fwyneir gan landlordiaid prynu-i-osod ers y dirywiad economaidd, yn bennaf o ran y gallu i droi at fenthyca morgais llog yn unig o gymharu â chyfngiadau modern morgeisi o'r fath i berchen-feddianwyr, yn enwedig prynwyr y tro cyntaf, fel y dadansoddyd yn flaenorol gan CIH yn yr UK Housing Review 2014.

Wyneba'r tenantiaid heriau fforddiadwyedd cynyddol hefyd; canfu'r LSE o ganiatáu ar gyfer rhenti cynyddol, incymau tenantiaid preifat syrthiodd gyflymaf o 2007/08 i 2012/13, i lawr gan 13 y cant mewn termau go iawn .

Disodlodd arolwg cenedlaethol Cymru yr arolwg Byw yng Nghymru a ddaeth i ben yn 2008 ond mae ynddo ychydig iawn o wybodaeth mewn perthynas â thai o gymharu. Caiff rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol yn ymwneud ag aelwydydd Cymru sy'n rhent ei gynnwys yn yr arolwg.

Er mwyn helpu mesur effeithiau'r ddeddfwriaeth rhentu cartrefi newydd, cynhwysodd yr Arolwg Cenedlaethol rai cwestiynau am fodlonrwydd pobl gyda'u llety. Er bod 94% o bobl yn fodlon (68% yn fodlon iawn a 26% yn weddol fodlon) â'u llety yng Nghymru, amrywiodd hyn yn ôl deiliadaeth. Adroddodd y perchen-feddianwyr ar gyfradd fodlonrwydd o 97% o gymharu â 90% o'r rheiny mewn llety rhent preifat ac 83% o'r rheiny oedd mewn tai cymdeithasol.

Mewn perthynas ag atgyweiriadau a chynnal a chadw i'r rheiny sy'n rhentu, adroddodd yr arolwg fod 74% o denantiaid yn fodlon, gyda thenantiaid yn y sector rhent preifat yn adrodd lefelau bodlonrwydd uwch o gymharu â thenantiaid tai cymdeithasol, yn

enwedig tenantiaid preifat sy'n rhentu wrth ffrind neu berthynas.

Y rheiny oedd yn rhentu wrth landlord preifat unigol oedd y rhai mwyaf tebygol o fod yn yr eiddo am y cyfnod amser byrraf, gyda 48% o'r bobl yn rhentu wrth gyflogwr neu sefydliad arall a 44% o'r rheiny'n rhentu wrth landlord preifat unigol gan adrodd eu bod wedi byw yn eu cyfeiriad presennol am lai na 12 mis, o gymharu ag 11% o'r rheiny oedd yn rhentu mewn tai cymdeithasol. Yn wir, roedd 44% o'r rheiny oedd yn rhentu mewn tai cymdeithasol wedi byw yn eu heiddo am 10 mlynedd neu'n rhagor, o gymharu â dim ond 6% o'r rheiny oedd yn rhentu wrth landlord preifat unigol.

Sefydlwyd Rhent Gyntaf fel cynyrch tai a ariennir gan grant cyfalaf newydd gan lywodraeth Cymru yn 2011, gan ddarparu ateb rhent canolradd wedi'i anelu at bobl sy'n methu troi at berchentyaeth ond a all fforddio mwy na rhent cymdeithasol, sef aelwydydd gydag incymau sydd rhwng £16,000 a £30,000 y flwyddyn. Cynyrch rhent canolradd ydyw sy'n caniatáu ar gyfer prynu'r cartref rhent yn y dyfodol. Yn 2014, comisiynodd Ilywodraeth Cymru adolygiad o Rent Gyntaf a chyhoeddwyd yr adroddiad yn 2015. Canfu'r adroddiad fod pump o'r 11 o ymatebwyr ar ran awdurdodau lleol yn cynnig Rhent Gyntaf, fel ag y gwnaeth wyt h ymdeithas tai, ond ni chynigiodd pob darparwr y dewis prynu gyda Rhent Gyntaf. At ei gilydd, cynigiodd y darparwyr eiddo un, dwy a thair ystafell wely am renti sydd hyd at 80% o renti'r farchnad.

Rhododd yr adroddiad adolygiad cymysg o'r cynyrch gan ddatgan nad oedd cyngorau a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn ei farnu fel rhan greiddiol o'u harwy tai canolradd, nac yn faes gweithgarwch wedi'i brif-ffrydio, gyda hyfywedd datblygu Rhent Gyntaf a'i lefelau grant presennol yn cael eu cwestiynu, yn enwedig mewn ardaloedd gwerth is.

Dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru), bydd cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol i bob landlord ac asiantaeth sy'n darparu cartrefi rhent yn breifat yng Nghymru'n dod i rym yn yr hydref 2015. Lansiwyd gwefan newydd Rhentu Doeth Cymru ym mis Mehefin 2015 i ddarparu ymarferoldeb y gofyniad. Bydd yn ofynnol i landlordiaid cofrestru eu hunain a chyfeiriadau eu holl eiddo rhent yng Nghymru, ac os byddant yn ymgymryd â'r swyddogaeth i osod neu reoli tai, rhaid iddynt wneud cais am drwydded hefyd. Rhaid i asiantaethau sy'n darparu'r gwasanaethau hynny yng Nghymru ddod yn drwyddedigion hefyd, gan

229 <http://www.ons.gov.uk/ons/rel/census/2011-census/detailed-characteristics-on-housing-for-local-authorities-in-england-and-wales/short-story-on-detailed-characteristics.html>

230 [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/447551/June\\_2015\\_HPI.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/447551/June_2015_HPI.pdf)

231 <https://www.cml.org.uk/news/press-releases/mortgage-arrears-and-repossessions-continue-to-fall-in-second/>

232 <http://gov.wales/statistics-and-research/houses-into-homes/?lang=en>

233 <http://www.wlga.gov.uk/houses-into-homes-scheme>

234 <http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/150310-evaluation-nest-energy-efficiency-scheme-summary-en.pdf>

235 <http://www.bbc.co.uk/news/business-33447991>

fodloni manylion y drwydded sy'n cynnwys hyfforddi a bodloni'r gofyniad person 'addas a phriodol'. Gan ddechrau yn yr hydref 2016, bydd hysbysiadau cosb benodol ar waith ar gyfer toriadau a bydd gorfodaeth yn cael ei gwneud ar lefel awdurdod lleol, sydd yn ei hanfod yn rhoi 12 mis i landlordiaid preifat ac asiantaethau ufuddhau i'r cynllun newydd.

Bydd y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) yn newid y gyfraith denantiaeth i bob tenant yng Nghymru gan gynnwys y rhai yn y sector preifat. Fel y crybwylwyd yn gynharach, cynnig dadleuol yw gollwng y moratoriwm chwe mis yn y contract safonol newydd.


Mae gan denantiaethau byrddaliol sicr cyfredol isafswm cyfnod meddiannaeth o chwe mis cyn y gellir gwneud gorchymyn adennill meddiant yn eu herbyn, oni fod y denantiaeth yn cael ei thorri. Ystyriodd Comisiwn y Gyfraith mai ychydig werth ymarferol oedd iddynt oherwydd ystyriai bod landlordiaid yn dymuno mwyhau'r cyfnod meddiannaeth. Y ddadl a ddefnyddiwyd ar gyfer dileu'r moratoriwm yn y bil yw oherwydd ei fod yn creu mwy o hyblygrwydd i denantiaid sy'n ffafrio neu sy'n gofyn am denantiaethau tymor byr trwy eu cynnwys nhw yn y cynllun contract safonol, ac nad yw'r moratoriwm presennol yn atal landlordiaid gwael rhag ymddwyn yn wael ar hyn o bryd.

Mae'n dadlau y bydd dileu'r moratoriwm yn helpu meithrin y berthynas rhwng landlordiaid a deiliaid contractau trwy annog partïon i gytuno ar gyfnod y denantiaeth gyda'i gilydd, ac yna bydd fframwaith rheoleiddio clir yn gorfodi'r cytundebau hynny. Yn ogystal, ystyriwyd y byddai landlordiaid yn cael eu hannog i gynnig contractau i grwpiau o bobl risg uwch. Byddai hyn yn cefnogi'r newid i alluogi ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd ddigartrefedd yn y sector preifat gan awdurdodau lleol a drafodwyd ym mhennod 2. Mae'r cynnig wedi cael cefnogaeth gan rai sefydliadau tai gan gynnwys Cymdeithas genedlaethol y Landlordiaid ac mae Cartrefi Cymunedol Cymru wedi dadlau hefyd y bydd sefydlu cynllun trwyddedu cenedlaethol newydd yn helpu

hefyd i fynd i'r afael ag arfer gwael gan landlordiaid gwael.

Fodd bynnag, ceir pryderon cynyddol gan grwpiau cynrychioliadol a sefydliadau cyngor annibynnol gan gynnwys Tenantiaid Cymru a Chyngor ar Bopeth y bydd dileu'r moratoriwm chwe mis yn 'arwain at sector rhent preifat dwy haen ac yn ei hanfod yn gostwng hawliau'r tenantiaid a diogelwch y ddeiliadaeth'. Dadleua Cyngor ar Bopeth y gallai'r rheiny a chanddynt lai o ddewisidaau, er enghrafft tenantiaid ar incymau is, gael eu gorfodi i dderbyn contractau cyfnodol misol gan landlordiaid, gan adael yr aelwyd mewn cyflwr deiliadaeth ansicr, gan fod yn destun deufis o rybudd byth a hefyd.

At hynny, dadleuir lle caiff mwy o hyblygrwydd am gyfnod tenantiaeth fyrrach ei ffafrio gan y tenant a'r landlord, bydd y contract safonol arfaethedig yn galluogi tenantiaid a landlordiaid i gytuno ar hyn gyda'i gilydd. Mae gan CLILC bryderon am y moratoriwm hefyd, sef mai'r neges i denantiaid fydd mai ychydig ddiogelwch sydd yn y sector preifat yng Nghymru gan danseilio'r ymdrechion o bosibl i hyrwyddo'r sector fel deiliadaeth o ddewis ac a allai ddenu buddsoddiad gan landlordiaid preifat llai dymunol i Gymru. Mae gan gynghorau hefyd bryderon y bydd y newid yn groes i hawl newydd awdurdodau lleol i gyflawni eu



ddyletswyddau digartrefedd yn y sector preifat gan fod angen i awdurdodau lleol wneud hynny dim ond lle credant y bydd y denantiaeth yn cael ei chynnal am isafswm o chwe mis.

Yn ogystal, mae Shelter Cymru yn gwrthwynebu dileu'r moratoriwm ar yr egwyddor ei fod yn erydu hawliau'r tenantiaid, mewn sector sydd eisoes yn pwysedd blaidd landlordiaid, gan fod y galw'n llawer mwy'n hylfenwad.

Yn 2014, lansiwyd prosiect canolfannau cydweithredol Cymru Eich Arian Chi Eich Cartref Chi, gan adeiladu ar y prosiect Trechu digartrefedd trwy gynhwysiant

236 <http://www.cityam.com/219736/july-budget-2015-how-changes-mortgage-tax-relief-will-affect-buy-to-let-property/>

237 [http://pwc.blogs.com/press\\_room/2015/07/budget-pwc-comments-on-impact-of-interest-relief-withdrawals-on-buy-to-let-property\\_.html](http://pwc.blogs.com/press_room/2015/07/budget-pwc-comments-on-impact-of-interest-relief-withdrawals-on-buy-to-let-property_.html)

238 <http://www.telegraph.co.uk/finance/personalfinance/investing/buy-to-let/10767912/Landlords-substantial-mortgage-advantage-denied-to-first-time-buyers.html>

239 <http://sticerd.lse.ac.uk/dps/case/spcc/RR05.pdf>

240 <http://gov.wales/docs/statistics/2015/150611-national-survey-wales-2014-15-headline-results-en.pdf>

241 <http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-rent-first/?lang=en>

242 <https://www.rentsmart.gov.wales/en/>

243 [http://www.whq.org.uk/main/articleDetail.php?ART\\_id=1499&searchText=moratorium](http://www.whq.org.uk/main/articleDetail.php?ART_id=1499&searchText=moratorium)

244 <http://www.senedd.assembly.wales/documents/s39071/RH%2025%20-%20National%20Landlords%20Association.html?CT=2>

245 [http://chcymru.org.uk/uploads/general/renting\\_homes.pdf](http://chcymru.org.uk/uploads/general/renting_homes.pdf)

246 <http://www.welshtenants.org.uk/wp-content/uploads/downloads/2013/08/Welsh-Tenants-Response%20to%20CT12.pdf>

247 [http://www.whq.org.uk/main/articleDetail.php?ART\\_id=1499&searchText=moratorium](http://www.whq.org.uk/main/articleDetail.php?ART_id=1499&searchText=moratorium)

248 <http://www.senedd.assembly.wales/documents/s38696/RH%2031%20-%20Welsh%20Local%20Government%20Association.html?CT=2>

249 [http://yogidev.co.uk/sheltercymru-files/RH-moratorium-mythbuster-FINAL\\_PDF](http://yogidev.co.uk/sheltercymru-files/RH-moratorium-mythbuster-FINAL_PDF)

250 <http://www.walescooperative.org/our-work/your-money-your-home/>

251 <http://www.walescooperative.org/wp-content/uploads/2015/03/THFI-Legacy-Report-ENG.pdf>

252 <http://www.cih.org/leadingdiversityby2020>

253 [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/31480/11-745-workers-in-employment](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/31480/11-745-workers-in-employment)

254 McKinsey and company, Diversity Matters. 2014 [accessed at [http://www.mckinsey.com/global\\_locations/europe\\_and\\_middleeast/united\\_kingdom/en/latest\\_thinking](http://www.mckinsey.com/global_locations/europe_and_middleeast/united_kingdom/en/latest_thinking)]

255 Credit Suisse Research Institute (2012) "Gender diversity and the impact on corporate performance"

256 Lu Hong and Scott E. Page, Groups of diverse problem solvers can outperform groups of high-ability problem solvers. 2004 <http://www.pnas.org/content/101/46/16385.abstract>

257 [http://www.cih.org/resources/PDF/Presidential%20Commission/CIH%20Report%20June%2019th%20A4%20\\_Print\\_Single%20pages.pdf](http://www.cih.org/resources/PDF/Presidential%20Commission/CIH%20Report%20June%2019th%20A4%20_Print_Single%20pages.pdf)

258 <http://dotmailer-surveys.com/d6yrx0e-571b8ae8>

259 <http://www.insidehousing.co.uk/welsh-housing-minister-backs-cihs-diversity-drive/7010653.article?adfeuccess=1>

ariannol - cafodd eu hadroddiad etifeddiaeth ei lansio ym mis Rhagfyr. Mae prosiect Eich Arian Chi Eich Cartref Chi, sy'n anelu at helpu mynd i'r afael ag eithrio ariannol tenantiaid y sector rhent preifat a lleihau digartrefedd yng Nghymru, gan baratoi pobl ar gyfer cychwyn y Credyd Cynhwysol, yn canolbwntio yn y lle cyntaf ar siroedd Ynys Môn, Blaenau Gwent, Caerffili a Chasnewydd, ond yn cynnig cefnogaeth i awdurdodau lleol eraill lle mae'r adnoddau'n caniatáu.

## 9: LLYWODRAETHU AC AMRYWIAETH

Lansiwyd Comisiwn Llywyddol CIH yn 2014 gan y llywydd ar y pryd, Steve Stride, er mwyn astudio ffyrrd o wella amrywiaeth arweinyddiaeth y diwydiant tai, er mwyn cryfhau busnesau a chynrychioli staff, defnyddwyr gwasanaeth a chymdogaethau'n well. Nod y comisiwn oedd gwneud argymhellion ar gyfer newid real ac effeithiol yn y gymuned tai.

Canfu'r comisiwn fod yr achos busnes dros amrywiaeth wedi'i dystio a'i sefydlu'n dda, trwy sawl adroddiad ymchwil a gyhoeddwyd a sawl diwydiant arall gan gynnwys y sector preifat a oedd eisoes wedi cymryd camau ac wedi cynyddu targedau, er enghraift adroddiad Davies 2011 a geisiodd gynyddu nifer y menywod ar y byrddau yn y FTSE. Casglodd y comisiwn nad yw amrywiaeth mewn arweinyddiaeth bellach y 'peth iawn i'w wneud' o reidrwydd, mae gweithlu amrywiol o ran nodweddion gwarchodedig, profiad a syniadau'n lleihau'r perygl o feddwl fel grŵp, ac yn fwy gwydn ac mae ganddynt berfformiad sefydliadol gwell.

Canfu'r comisiwn nad oedd arweinyddiaeth tai mor amrywiol ag y dylai fod o fewn lefelau uwch swyddog a byrddau llywodraethu, ac mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan y comisiynwyr yn awgrymu bod dal i fod rhagfarn ac arfer gwahaniaethol anymwybodol.

Roedd yr adroddiad terfynol 'Leading diversity by 2020' yn cynnwys her '10 gan 20' i ddarparwyr tai; deg her i weithredu arnynt, gan alluogi landlordiaid i nodi a gosod eu targedau a'u camau gweithredu eu hunain, pa sefydliadau fyddai'n cael eu gwahodd i gofrestru a gweithio tuag atyt erbyn 2020. Yng Nghymru, lansiwyd yr adroddiad gan y Gweinidog Lesley Griffiths a hyd yma mae wyth landlord cymdeithasol Cymru wedi cofrestru i'r her.

Ym mis Rhagfyr 2014, caeodd ymgynghoriad llywodraeth Cymru ar ganllawiau drafft mewn berthynas â thal aelodau bwrdd ar gyfer cymdeithasau tai; gan ofyn a ddylai llywodraeth Cymru ganiatáu

i dalu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig anweithredol, ac os felly, ar ba lefel. Yn dilyn yr ymgynghoriad, cyhoeddodd y Gweinidog ym mis Mawrth 2015 nad oedd hi o blaidd talu aelodau bwrdd a datganodd nad oedd dystiolaeth glir y byddai tâl yn arwain at lywodraethu cryfach.

Ym mis Chwefror 2015, lansiodd Cartrefi Cymunedol Cymru god llywodraethu newydd i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig Cymru, gan osod safonau ac arferion i fyrrdau er mwyn datblygu strwythurau llywodraethu da a chefnogi gwelliant parhaus i wasanaethau. Mae'r cod yn cynnwys y gofyniad i roi polisi adnewyddu bwrdd ar waith sy'n cynnwys ystyried sylfaen sgiliau briodol, lefel yr amrywiaeth a gosod uchafswm cyfnod y swydd, gydag uchafswm cyfnod cyffredinol o wasanaeth ar y bwrdd i aelodau bwrdd anweithredol o ddim mwy na naw mlynedd.

Ar yr un pryd, ail-lansiwyd y gwasanaeth Dewch ar y Bwrdd ar y cyd â Chwarae Teg a Thai Pawb, sef gwasanaeth i gefnogi'r gwaith o baru darpar ymgeiswyr anweithredol newydd gyda landlordiaid sy'n chwilio am aelodau bwrdd llywodraethol newydd.

## 10: CEFNOGI POBL, BYW YN ANNIBYNOL A DIGARTREFEDD

Sefydlwyd y rhaglen Cefnogi Pobl yn 2003 ac mae'n ariannu gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai yng Nghymru. Ei nod yw atal a lleihau digartrefedd a chefnogi byw yn annibynnol; ariannu amrywiaeth o brosiectau gan gynnwys hosteli digartrefedd, llochesi cam-drin domestig, cymorth fel y bo'r angen, larymau cymunedol a thai â chymorth.

Yn dilyn y newidiadau i weinyddu a llywodraethu'r rhaglen yn dilyn adolygiad 2010 Aylward mae Llywodraeth Cymru'n talu grant rhaglen cefnogi pobl yn flynyddol i awdurdodau lleol fel grant wedi'i neilltuo. Yn dilyn diogelu'r gyllideb yn 2014/15, cyhoeddwyd ym mis Hydref y byddai'r grant yn cael ei dorri gan 7.4%, sef £10 miliwn o gyfanswm y pot cenedlaethol gan ddod â chyfanswm lefel y cyllid i lawr i £124,409,000 ar gyfer 2015/16.

Er gwaetha'r toriadau diweddar i gefnogi pobl yng Nghymru, fe'i diogelwyd i raddau llawer mwy na'r rhaglen yn Lloegr. Canfu'r Swyddfa Archwilio

260 <http://m.insidehousing.co.uk/sector-disappointment-over-board-pay-decision/7008517.article>

261 [http://chcymru.org.uk/uploads/events\\_attachments/Code\\_of\\_Governance.pdf](http://chcymru.org.uk/uploads/events_attachments/Code_of_Governance.pdf)

262 <http://chcymru.org.uk/en/board-members/come-on-board>

263 <http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/140227-spna8-minutes-en.pdf>


264 <http://www.insidehousing.co.uk/welsh-government-cuts-supporting-people-budget-by-10m/7006022.article>

265 <http://gov.wales/docs/cae8d/publications/141202-meg-en.pdf>

266 <http://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2014/11/impact-of-funding-reductions-on-local-authorities.pdf>


267 <http://www.cymorthcymru.org.uk/en/policy/campaigns/lets-keep-supporting-people>

268 <http://gov.wales/statistics-and-research/independent-review-supporting-people-transition-year/?lang=en>



Genedlaethol yn adroddiad diweddar Lloegr fod y gostyngiadau gwario mewn gwasanaethau tai wedi dod yn bennaf o ostyngiadau a gynlluniwyd i'r rhaglen cefnogi pobl. Yn ystod 2010/11 i 2014/15, cwmpodd y gwariant ar yr ardal cefnogi pobl gan ganolrif o 45.3%, ar draws un haen ac ar draws cynghorau sir. Mae hyn yn cymharu â chyfanswm gostyngiad o 11.77% ar gyfer y grant cefnogi pobl yng Nghymru ar gyfer yr un cyfnod. Lansiwyd yr ymgyrch 'keep on supporting people' yn 2015 yn dilyn cyhoeddiad y toriadau diweddaraf gan Cymorth Cymru, sef y corff cynrychioliadol ar gyfer darparwyr cymorth, a Chartrefi Cymunedol Cymru, fel a drafodwyd yn y traethawd gwadd ym mhennod dau adolygiad eleni.

Cyhoeddwyd adolygiad interim o'r flwyddyn drawsnewid ar gyfer y fframwaith cefnogi pobl newydd ym mis Medi 2014, yn dilyn uno'r grant refeniw cefnogi pobl a'r grant cefnogi pobl i'r grant rhaglen cefnogi pobl newydd a gweithrediad y strwythurau llywodraethu newydd yn 2012, fel yr amlinellwyd yn nhafn ffeithiau CIH Cymru. Nododd y pwylgorau cydweithredol rhanbarthol (PCR) drafferthion cychwynnol, fodd bynnag



ystyriwyd bod y pwylgorau cydweithredol rhanbarthol a chanddynt hanes cryfach o weithio cydweithredol (Gwent a Gogledd Cymru), yn ôl y disgwyl, yn symud ymlaen yn fwy effeithiol o fewn y fframwaith newydd. Gwnaeth yr adroddiad argymhellion amryfal i gryfhau gweledigaeth strategol y rhaglenni, llywodraethu a rôl

269 <http://www.cih.org/resources/PDF/Wales%20general/CIH%20Supporting%20People%20English.pdf>

270 <http://gov.wales/statistics-and-research/supporting-people-research-older-peoples-services/?lang=en>

271 <http://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2015/07/Homelessness-Snapshop-July-2015.pdf>

272 <http://gov.wales/statistics-and-research/local-authority-projects-mitigate-impact-housing-benefit-reform-using-homelessness-grant-funding/?lang=en>

273 [http://www.crisis.org.uk/data/files/publications/HomelessnessMonitorWales2015\\_ExecutiveSummary.pdf](http://www.crisis.org.uk/data/files/publications/HomelessnessMonitorWales2015_ExecutiveSummary.pdf)

274 <http://nearlylegal.co.uk/2015/02/lets-move-wales/>

275 <http://www.assembly.wales/Research%20Documents/15-026-Renting%20Homes/15-026.pdf>

276 <http://gov.wales/statistics-and-research/review-independent-living-adaptations/?lang=en>

277 <http://www.senedd.assembly.wales/documents/s7352/Impact%20analysis%20of%20existing%20homelessness%20legislation%20in%20Wales.pdf>

278 <http://sheltercymru.org.uk/equal-ground-standard/>

grwpiau PCRh a'u cydlynwyr rhanbarthol sy'n gweithio ar draws yr awdurdod i gefnogi'r PCRh.


Ar hyn o bryd, cynhelir ymchwil gyfredol ar y rhaglen cefnogi pobl sy'n canolbwytio ar wasanaethau pobl hŷn a ariennir gan Cefnogi Pobl. Cyhoeddwyd y canfyddiadau interim sy'n dod i'r amlwg o'r ffocws ar gyflawni i ffwrdd o ddeiliadaeth tuag at ddull seiliedig ar anghenion ym mis Mawrth, ac mae disgwl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r adroddiad terfynol yn fuan.

Nod y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) a drafodwyd yn fanwl uchod, yw darparu newid sylweddol i denantiaethau tai â chymorth. Darperir am y tro cyntaf ddull gyda mwy o strwythur i gytundebau meddiannaeth ar gyfer pobl sy'n byw yn y fath lety. Bydd y bil yn rhoi mwy o gydbwysedd i hawliau tenantiaid a landlordiaid.

Cynhwysir contractau â chymorth safonol dan Ran 8 (Rhannau 143 i 145) y bil, ac mae'n eithrio darparwyr tai â chymorth o'r gofyniad i gyhoeddi contract meddiannaeth lle bwriedir i'r llety fod am chwe mis neu'n llai. Ar ôl chwe mis, bydd y contract yn newid yn awtomatig i gontract â chymorth safonol (gyda rhai estyniadau'n cael eu caniatâu). Bydd modd i landlordiaid cymunedol ac elusennau cofrestredig gyhoeddi contractau â chymorth safonol mewn perthynas â llety â chymorth, ac mae dwy hawl ychwanegol ar gael i landlordiaid er mwyn galluogi symudedd yn yr un prosiect a phŵer eithrio dros dro o 48 awr ar gael pan fydd deilydd y contract (y tenant) wedi cymryd rhan mewn gweithredoedd treisgar neu'n creu perygl o niwed sylweddol. Gellir ond defnyddio'r hawl olaf dair gwaith o fewn cyfnod o chwe mis.

Ym mis Ionawr 2015, cyhoeddwyd adolygiad o raglenni grant sy'n ariannu addasiadau byw yn annibynnol gan Lywodraeth Cymru ac fe'i cynhaliwyd gan Shelter Cymru. Archwiliodd a phroffodd yr adolygiad y newidiadau potensial i'r mecanweithiau strwythurol a chyflawni i wella effeithlonrwydd a mynd i'r afael â'r anghysonderau cynhenid yn y system gyfredol a adlewyrchir mewn gwahanol ardaloedd o Gymru. Roedd yr ymchwil yn cynnwys adolygiad o'r £35 miliwn y flwyddyn o grant cyfleusterau i'r anabl a'r £8 miliwn y flwyddyn o grantiau addasiadau ffisegol i denantiaid cymdeithasol. Gwnaed cyfanswm o 18 argymhelliaid gan gynnwys y dylid cael symudiad tuag at ddarpariaeth gyffredinol o addasiadau heb brawf modd yn y tymor hir, y dylai mân addasiadau (a ddiffinnir fel rhai sy'n costio £1,000 neu'n llai) gael eu heithrio o brawf modd yn gynt ac y dylai Awdurdodau Lleol nad oes ganddynt eisoes gofrestr tai gwbl weithredol hygrych ar waith weithio gyda phartneriaid landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ddatblygu un a chynnwys y sector rhent preifat, ac y dylai timau amlddisgyblaethol gyda therapyddion galwedigaethol gael eu hystyried gan bob cyngor.

Ym mis Ebrill 2015, gweithredwyd Rhan 2 Deddf Tai (Cymru), sy'n cynnwys newidiadau arwyddocaol i'r dyletswyddau digartrefedd i awdurdodau lleol, ar draws pob awdurdod lleol fel y datganwyd yn gynharach uchod. Gosodwyd gofyniad gwasanaeth atal digartrefedd statudol newydd ar awdurdodau lleol, a ddyylanwadwyd yn drwm gan y model 'atebion tai' oedd yn dod i'r amlwg, yn ogystal â galluogi'r cinghorau i ddefnyddio llety addas yn y sector preifat i gyflawni eu dyletswydd ddigartrefedd i aelwyd ydydd. At hynny, gwnaed dyletswydd i gydweithredu yn ddyletswydd ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig dan y ddeddf. Achos o lygaid



279 [http://d3n8a8pro7vhmx.cloudfront.net/themes/5417d73201925b2f5800001/attachments/original/1434463838/Building\\_New\\_Social\\_Rent\\_Homes.pdf?1434463838](http://d3n8a8pro7vhmx.cloudfront.net/themes/5417d73201925b2f5800001/attachments/original/1434463838/Building_New_Social_Rent_Homes.pdf?1434463838)

280 <http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/regeneration/vibrant-and-viable-places/?lang=en>

281 <http://gov.wales/newsroom/housing-and-regeneration/2015/150324-2m-for-regeneration-projects-across-wales/?lang=en>

282 <http://gov.wales/newsroom/housing-and-regeneration/2015/150722-minister-approves-major-regeneration-plans-for-town-centres-across-wales/?lang=en>

283 [www.cih.org.uk/2i](http://www.cih.org.uk/2i)

284 [http://www.regenwales.org/project\\_9\\_The-Deep-Place-Study](http://www.regenwales.org/project_9_The-Deep-Place-Study)

285 [http://chcymru.org.uk/uploads/events\\_attachments/WERU\\_Full\\_report\\_FINAL.pdf](http://chcymru.org.uk/uploads/events_attachments/WERU_Full_report_FINAL.pdf)

286 <http://www.housing.org.uk/get-involved/post-election/homes-for-britain-campaign/>

287 <https://www.youtube.com/watch?v=yxej3vsYqjU>

pawb ar Gymru yw hi fel y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i roi atal digartrefedd ar droedle statudol.

Mae'r traethawd ym mhennod dau'r adolygiad eleni'n rhoi manylion ar weithgarwch yr awdurdodau lleol sy'n digwydd ar draws Cymru er mwyn paratoi gogyfer a chefnogi'r gweithrediad, gyda ffocws cryf ar gefnogi newid mewn diwylliant, hyfforddi gweithwyr tai proffesiynol a datblygu partneriaethau ar draws y sectorau.

Ym mis Ionawr 2015, cyhoeddodd Shelter Cymru's Equal Ground Standard, sef pecyn cymorth a ddyluniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth digartrefedd sy'n cefnogi gwerthusiad gwasanaeth dan arweiniad y defnyddwyr, gyda'r bwriad o symud ymlaen nodau rhan dau Deddf Tai (Cymru) 2014. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd Shelter Cymru ei Homelessness Snapshot ac ynddo ddeg gwers yn cwblhau ei waith achos yn chwarter cyntaf y dyletswyddau newydd, gan ddatgan sawl esiampl o arfer da ond dangosodd hefyd rywfaint o arfer gwael sy'n cyflwyno rhwystrau i weithredu effeithiol, ac sy'n gweithio yn erbyn ysbryd y ddeddfwriaeth.

Mae data ystadegol gan Lywodraeth Cymru a gasglwyd o ddatganiadau awdurdodau lleol yn dystio tuedd am i lawr mewn aelwydydd a dderbyniwyd yn ddigartref; gan ostwng bron i hanner mewn deng mlynedd o 2004/05 (9,855 o aelwydydd) i 2014/15 (5,070). Dylanwadir ar hyn yn sicr bron gan y defnydd cynyddol o fethodolegau atal digartrefedd yn ôl adrannau digartrefedd y cyngor, a phrosiectau eraill sy'n cefnogi lliniaru yn erbyn effaith y newidiadau diwygio lles a'r effaith anghymesur ar Gymru a drafodwyd uchod.

Datganodd adroddiad Crisis JRF ddatblygiad pryderus o leihau mynediad i dai cymdeithasol gan aelwydydd digartref, er gwaetha'r argaeledd cynyddol o osodiadau sector cymdeithasol yn 2013/14, dirywiad cymesur i oddeutu 18% o norm o 25%.


Awgrymant er y gallai'r patrwm hwn i ryw raddau adlewyrchu'r dirywiad yn lefel y derbyniadau digartrefedd statudol sy'n deillio o ymyriadau atal llwyddiannus, mae'r nifer sydd wedi'u hailletya mewn tai cymdeithasol wedi cwympo hefyd fel cyfran o'r cyfanswm derbyniadau, i 61% o 70% flwyddyn ynghynt, yr awgrymant eu bod yn nodi tuedd fod y flaenoriaeth wedi'i lleihau ar gyfer yr aelwydydd hynny. Gan ystyried y mater a drafodwyd yn gynharach ynghylch y

materion oedd yn dod i'r amlwg mewn perthynas â chyfngiadau mynediad i dai cymdeithasol yn sgil fforddiadwyedd aelwydydd, mae hyn yn atgyfnerthu'r awgrym o ymchwiliad pellach i'r rhwystrau y mae aelwydydd tlotach Cymru'n eu hwynebu wrth geisio bodloni eu hanghenion tai fforddiadwy, a chwestiwn amlwg arall yw a oes patrymau'n dod i'r amlwg o ran y gwahaniaethau rhwng mynediad tai cymdeithasol iaelwydydd digartref mewn awdurdodau sy'n cadw stoc ac sydd wedi trosglwyddo stoc.

## 11: BUDDSODDIAD MEWN TAI, ADFYWIO, ISADEILEDD AC ETHOLIADAU

Mae adolygiadau blaenorol wedi canolbwytio ar y berthynas bwysig rhwng tai ac adfywio a'r ysgogiad economaidd trwy fuddsoddi mewn cartrefi yng Nghymru, ac ni fydd adolygiad 2015 yn ailadrodd cynnwys blaenorol ar y pwnc hwn. Fodd bynnag, hoffai'r adolygiad eleni gyfeirio at yr ymchwil a gynhaliwyd yn Lloegr gan Capital Economics a gomisiynwyd gan gyfrannwr traethawd Adolygiad Tai Cymru 2014, SHOUT, sy'n gwneud achos economaidd da am fuddsoddiad cynyddol mewn tai cymdeithasol yn seiliedig ar yr arbedion i'r dyfodol i wariant lles trwy'r gostyngiad mewn rhwymedigaethau i fudd-dal tai.

Bydd Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid a drafodwyd yn adolygiad y llynedd yn rhedeg o 2014



288 [http://www.cih.org/news-article/display/vpathDCR/templatedata/cih/news-article/data/Welsh\\_housing\\_manifesto\\_launched\\_today](http://www.cih.org/news-article/display/vpathDCR/templatedata/cih/news-article/data/Welsh_housing_manifesto_launched_today)

289 <http://www.socialhousing.co.uk/building-the-case-for-housing-as-national-economic-infrastructure/7009127.article>

Sue Essex, Housing Planning and scoping study: Summary note of study findings for Housing and Planning: Together for Delivery Event, Welsh Government:2012

290 <http://www.bbc.co.uk/news/uk-18623096>

291 <http://uknea.unep-wcmc.org/>

292 <http://www.walesonline.co.uk/business/business-opinion/weve-waited-long-m4-relief-9657469>

293 <http://www.bbc.co.uk/news/science-environment-31682529>

294 <http://www.anglesey.gov.uk/business/energy-island/>

295 <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-33314634>

296 [http://www.mgbarryconsulting.com/wa\\_metroreport.pdf](http://www.mgbarryconsulting.com/wa_metroreport.pdf)

297 <http://www.clickonwales.org/2014/03/putting-cardiff-and-the-valleys-on-the-map-together/>

298 [http://www.whq.org.uk/main/articleDetail.php?ART\\_id=1458](http://www.whq.org.uk/main/articleDetail.php?ART_id=1458)

i 2017 ac mae'n darparu cronfa adfywio gwerth £100 miliwn i awdurdodau lleol ei buddsoddi mewn canol trefi, cymunedau arfordirol ac ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Ym mis Mawrth 2015, cyhoeddodd y gweinidog grant cyfalaf o £2 miliwn ar gyfer prosiect adfywio i'w rhannu rhwng cynghorau Casnewydd, Castell-nedd Port Talbot, Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg a Wrecsam i ariannu prosiectau adfywio allweddol. Dilynwyd hyn ym mis Gorffennaf 2015 gan gyhoeddiad y byddai £5 miliwn o gyllid cyfalaf yn cael ei fenthyca i saith awdurdod lleol i adfywio canol trefi, at ddiben creu swyddi a gwella eiddo masnachol, a darparu cartrefi newydd fel rhan o gronfa trechu tlodi llywodraeth Cymru, gyda £1 miliwn bellach wedi'i chlustnodi i'r gronfa bartneriaeth canol trefi ar draws 20 canol tref yng Nghymru.

Adroddodd adolygiad y llynedd ar flwyddyn olaf y prosiect i2i yn CIH Cymru. Nododd yr adroddiad yn ystod cyfnod 2013, fod dystiolaeth yn arolwg blynnyddol CIH Cymru o wariant o £183m gan y sector tai yng Nghymru ar brosiectau SATC, gyda thros bum mil o gyfleoedd gwaith a hyfforddiant yn cael eu creu yn ystod cyfnod y prosiect o fis Medi 2008 i fis Rhagfyr 2013 gan ddefnyddio egwyddorion dulliau pecyn cymorth GALLU GWNEUD i gaffael cyflenwi, gwasanaethau a buddiannau cymunedol, sy'n gyfwerth â 19.7 o gyfleoedd yr wythnos. Yn 2014, cyhoeddodd Crew ei astudiaeth lle dwfn trawiadol o Dredegard, gan gyfeirio at ddulliau i2i yn ei argymhellion, gan awgrymu y gall modelau economaidd mwy lleol ddileu tlodi a chyflawni cynaliadwyedd, gyda chadwyni cyflenwi a phatrymau cyflogaeth lleol mewn economïau lleol lled-annibynnol.

Mae adroddiad uned ymchwil economi Cymru eleni a gomisiynwyd gan Gartrefi Cymunedol Cymru i gyfrifo effaith economaidd ei aelodaeth, yn dangos o'r £2 biliwn a warwyd gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, warwyd £514 miliwn ar weithgareddau adfywio.

Mae aelodau Cartrefi Cymunedol Cymru wedi gwario rhyw £2.5bn yn economi Cymru ar weithgarwch cysylltiedig â thai yn ystod y saith mlynedd y mae Uned Ymchwil Economi Cymru wedi bod yn ymgymryd â'r dadansoddiad o effaith gymdeithasol-economaidd cymdeithasau tai a chwmnïau cydfuddiannol cymunedol yng Nghymru. Gyda chyllid ychwanegol gan awdurdodau lleol sy'n cadw stoc ar ôl Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai, fel y trafodwyd yn gynharach, mae'r ysgogiad economaidd ac adfywio i economi Cymru o weithgareddau cymdeithasol cysylltiedig â thai'n parhau i gael effaith sylweddol.

Roedd ymgyrch Homes for Britain yn 2014 yn gydwethrediad llwyddiannus dan arweiniad y National Federation yn Lloegr, i godi proffil yr argyfwng tai i'w gwneud yn fwy o flaenoriaeth wleidyddol cyn etholiad cyffredinol y Deyrnas Unedig yn 2015. Aeth

CIH Cymru i bartneriaeth gyda Chartrefi Cymunedol Cymru, gan fynd â'n haelodau a'n cynrychiolwyr i gwrdd ag Aelodau Seneddol Cymru yn y senedd a chynrychioli Cymru yn y rali tai mwyaf mewn cenhedlaeth.

Ym mis Ebrill 2015, lansiwyd manifesto Homes for all Cymru yng nghynhadledd TAI, oedd yn egluro blaenoriaethau polisi cyfun ei 16 a mwy o aelodau gan gynnwys CIH Cymru. Mae cymuned cartrefi Cymru bellach yn datblygu ymgyrch Cartrefi i Gymru, wrth arwain at etholiadau cynulliad 2016. Gyda'r nod o wneud tai'n ystyriaeth allweddol i holl bartïon gwleidyddol Cymru ac etholaeth Cymru, canolbwytia'r ymgyrch ar yr angen am atebion gwleidyddol i ddod â'r argyfwng tai i ben. Mae mwy o sefydliadau tai Cymru wedi ymuno â Chartrefi Cymunedol Cymru a CIH Cymru i lofnodi i'r ymgyrch newydd. Cred nifer gynyddol o weithwyr tai proffesiynol a sylwebwyr tai y dylid deall bod tai yn isadeiledd hollbwysig mewn unrhyw ddadansoddiad economaidd, yn ogystal â deall rôl sefydledig tai fel grym ar gyfer cyflawnder cymdeithasol, cydraddoldeb a lles y cyhoedd. Hyrwydd ymgyrch Cartrefi i Gymru'r naratif hwn fel rhesymau hanfodol yngylch pam y dylai tai gael eu hystyried yn flaenoriaeth wleidyddol ar raddfa genedlaethol. Anogir darllenwyr yr adolygiad eleni i ddilyn ymgyrch Cartrefi i Gymru dros y deng mis nesaf ac os ydych chi'n aelod o CIH, yn weithiwr tai proffesiynol neu'n weithredydd, dewch i gymryd rhan.

Ochr yn ochr â gwella a diogelu'r cyflwr stoc presennol i'r dyfodol, yr her fwyaf i ddod â'r argyfwng tai i ben yng Nghymru yw cynyddu'r cyflenwad tai i fodloni angen y boblogaeth. Nododd Sue Essex mai'r pedwar rhwystr mwyaf i adeiladu cartrefi yng Nghymru oedd cyllid, tir, cynllunio a gwrtwynebiad (yr agwedd nid ar fy nhiriogaeth i). Mae cael cefnogaeth y cyhoedd ac ymateb i adroddiadau gwrt-h-ddatblygu i frwydro yn erbyn gwrtwynebiad cenedlaethol a lleol yn bwysig er mwyn cyflawni cynnydd yn y cyflenwad. Cyflwynodd golygydd cartref y BBC, Mark Easton, ddadansoddiad defnyddiol yn 2012 ar amgyffrediad a realiti wrth ddatblygu a threfoli ym Mhrydain, yn dilyn cyhoeddi'r UK national ecosystem assessment .

Gan gasglu bod 'darlun meddyliol Prydain o'i thirwedd ymhell i ffwrdd o'r realiti', adroddodd fod y dirwedd drefol yn cyfrif am ddim ond 10.6% o Loegr, 1.9% o'r Alban, 3.6% o Ogledd Iwerddon, a 4.1% o Gymru. Gan ddefnyddio'r data a ddadansoddiwyd gan bum cant o arbenigwyr a gynhyrchodd yr hyn maen nhw'n ei honni yw'r corff dystiolaeth cynhenid cyntaf ar gyflwr amgylchedd naturiol Prydain, cyfrifwyd mai dim ond 6.8% o arwynebedd tir y Deyrnas Unedig sydd bellach yn cael ei ddosbarthu'n drefol (diffiniad sy'n cynnwys datblygiad a ffyrrd gwledig). Golyga hyn nad yw 93% o'r Deyrnas Unedig yn drefol, a hyd yn oed wedyn, nid yw 'trefol' yr un fath ag 'adeiladwyd arno' oherwydd mae'n cynnwys lleoedd glas; parciau; rhandiroedd,

meysydd chwaraeon ac ati.

Mae nifer o brosiectau isadeiledd mawr bellach ar y gweill ledled Cymru gyda goblygiadau tai deilliannol i gymunedau lleol, gan gynnwys ffordd liniaru'r M4 yng Nghasnewydd, gwaith morlyn llanw Abertawe, ynys ynni Môn, trydaneiddio system gludiant y Cymoedd a metro De Cymru, a rhaid i'r cyflenwad cartrefi newydd chwarae rhan hanfodol mewn unrhyw gynllun isadeiledd cenedlaethol i'r dyfodol.

Er enghraifft, mae'r metro newydd yn rhoi dull cynllunio economaidd newidiol; gan symud i ffwrdd o strategaeth adnewyddu ddiffygol rhywsut (byddai llawer yn dadlau strategaeth sydd wedi methu) sy'n canolbwytio ar ddod â diwydiannau newydd i gymoedd De Cymru, a thuag at strategaeth rhanbarth prifddinas Caerdydd. Ceisia'r strategaeth hon adeiladu twf pellach ar gyfer diwydiant a marchnadoedd lwyddiannus trwy roi cyfleoedd newydd yn sgil gwell isadeiledd, yn enwedig system gludiant effeithlon i'r bobl hynny yn llain cymudo'r brifddinas; uchafswm taith arfaethedig o 40 munud o'r cyrion i naill ai Caerdydd neu Gasnewydd. Dylai'r rheiny sy'n gorfforol bellach i ffwrdd o gyfleoedd gwaith ar hyn o bryd ac i'r dyfodol elwa ar y buddsoddiad newydd hwn mewn isadeiledd; gan ei fod yn cydnabod yn well y gyd-ddibyniaeth lawn rhwng Caerdydd a'i hawdurdodau cyfagos, a'r rôl bwysig poblogaeth y Cymoedd, a'r trefi arfordirol yn nwyrain Cymru i lwyddiant economaidd diweddar y brifddinas.

Nid oes rhaid dweud bod tai'n ystyriaeth bwysig o greu lle yng nghyd-destun buddsoddiad newydd Cymru mewn isadeiledd, fel y dywed David Waite yn rhifyn 97 y Welsh Housing Quarterly;

'...mae'r cyd-ddibyniaethau ymarferol sy'n dyfnhau ar draws rhanbarth y ddinas, yn codi nifer o gwestiynau yngylch adfywio a pha arfau a galluoedd sydd gan asiantaethau'r sector cyhoeddus a thrydyddol i gefnogi'r gwaith o greu lleoedd. Bydd angen i awdurdodau lleol, ynghyd â chymdeithasau tai, fod yn effro i'r cyd-destunau gofodol newidiol y bydd Metro'n esgor arnynt.'

Mae angen gofyn nifer fawr o gwestiynau cysylltiedig â thai yng nghyd-destun y polisi rhanbarth dinas newydd. Beth fydd yr effaith ar yr amcanestyniadau aelwydydd presennol? Ble fydd poblogaethau'n dewis byw mewn parth cymudo gwell o ran ei weithrediad a mwy o faint o gwmpas y brifddinas? Sut bydd hyn yn effeithio ar heriau cyfredol y cyflwr stoc a'r gofynion adeiladu newydd ar draws deiliadaethau? Beth fydd yr effaith ar ddiddordeb y datblygwyr yn y de-ddwyrain, sef ardal fwyaf poblog Cymru?

## 12: WELSH HOUSING QUARTERLY 100

Esgeulus fyddai peidio â chrybwyl yn yr adolygiad ddathliadau WHQ100 sydd ar ddod ym mis Tachwedd 2015. Bydd y Welsh Housing Quarterly'n cyhoeddi ei 100fed rhifyn yn yr hydref 2015 ac mae'n parhau i fod yr unig gyhoeddiad yng Nghymru ymrwymedig i dai ac adfywio a olygir yn annibynnol.

Gyda chefnogaeth o'r dechrau'n deg hyd heddiw gan lywodraeth Cymru, y berchnogaeth ohono'n trosglwyddo o Brifysgol Caerdydd i'r Sefydliad Tai Siartredig yn 2012, mae'r rheolaeth ohono'n parhau gyda bwrdd annibynnol y WHQ, sy'n cynnwys dwsin o weithwyr tai proffesiynol Cymru'n cynghori'r golygydd. Bydd y cylchgrawn, sydd bellach yn ei 25ain blwyddyn, yn dathlu'r cyflawniad hwn mewn digwyddiad gweinidogol ym Mae Caerdydd i lansio'i wefan newydd, pecynnau tanysgrifio, hysbysebu a masnachol.

Ni ellir tanseilio pwysigrwydd ein cylchgrawn cenedlaethol o ran dylanwad, cyfathrebu a deialog i'r gymuned tai. Mae nifer y cyfeiriadau at WHQ yn yr adolygiad hwn ac yn adolygiadau'r gorffennol yn dangos rôl bwysig y cyhoeddiad mewn dadleuon tai cenedlaethol. Hoffai CIH Cymru achub ar y cyfreithiol i ddioch i bawb sydd wedi galluogi'r cylchgrawn i gyflawni a thyfu; i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth ariannol barhaus; i'r cannoedd o gyfranwyr sydd wedi darparu cynnwys rhad ac am ddim; i'r tanysgrifwyr unigol a'r sefydliadau sydd wedi hysbysebu ynddo a'i noddi; i'r golygyddion hen a newydd, sef Angela Evans, Tamsin Stirling a Jules Birch, ac i'r cadeiryddion bwrdd ymgynghorol hen a newydd, Judy Wayne ac Antonia Forte.

Dyma lwndestun i 25 mlynedd nesaf WHQ!

### Diolch yn fawr

Nod y grŵp tai trawsbleidiol yw darparu fforwm i Aelodau'r Cynulliad, o wahanol bleidiau gwleidyddol, i gyfarfod er mwyn ystyried a thrafod themâu cyfredol mewn meysydd polisi cysylltiedig â thai. Ceisia'r grŵp hefyd ddarparu deialog ystyrlon rhwng y Cynulliad a'r gymuned tai cenedlaethol.

Bydd newid arwyddocaol yn digwydd i'r grŵp yn ystod y 9 mis nesaf; bydd y Cadeirydd presennol a'r cynrychiolydd Llafur Sandy Mewies, a'r cyn Gweinidog Tai a chynrychiolydd Plaid Cymru Jocelyn

## 13: MANIFFESTO CIH CYMRU'N GOFYN AM ETHOLIADAU CYNULLIAD CYMRU 2016

| Thema                    | Cyd-destun   | Mae CIH Cymru'n galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i wneud y canlynol:   |
|--------------------------|--|--|
| CYNYDDU TAI CYMDEITHASOL | <p>Mae CIH Cymru'n llonyfarch Llywodraeth bresennol Cymru am fod ar y trywydd iawn i gyflawni ei charged o 10,000 o dai cymdeithasol yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Fodd bynnag, mae'r galw'n parhau i ragori'r cyflenwad. Amcangyfrifodd adroddiad 2010 Holmans a Hunt y byddai angen 5,100 o gartrefi cymdeithasol ychwanegol bob blwyddyn, rydym ymhell iawn o gyflawni hyn.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi lleisio ymrwymiad cryf i flaenoriaethu'r gwaith o gyflawni tai cymdeithasol. Mae angen i'r llywodraeth nesaf adeiladu ar yr ymrwymiad hwn a diogelu'r stoc tai cymdeithasol sy'n bodoli ar hyn o bryd, gan gefnogi darparwyr tai cymdeithasol i adeiladu mwy o gartrefi gwirioneddol fforddiadwy.</p> <p>Mae Safon Ansawdd Tai Cymru wedi sicrhau gwelliant sylweddol i nifer fawr o gartrefi cymdeithasol ledled Cymru. Bydd y dyddiad cau i gyflawni SATC yn syrthio o fewn y Cynulliad nesaf - ac felly mae'n bryd hefyd dechrau meddwl am y camau nesaf ar gyfer safonau mewn tai cymdeithasol.</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gosod targed uchelgeisiol ar gyfer cartrefi fforddiadwy newydd sy'n bodloni'r angen a nodwyd</li> <li>• Dod â diwedd i Hawl i Brynu a Hawl i Gaffael yng Nghymru</li> <li>• Galw gweithgor i ystyried sut i sicrhau bod safonau SATC yn cael eu cynnal a'u cadw y tu hwnt i 2020, ac adolygu'r safonau cyfredol i sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'r diben</li> </ul>   |
| ISADEILEDD YW TAI        | <p>Mae tai'n hanfodol i les economaidd a chymdeithasol cymunedau, ac felly, dylid ystyried tai fel math o isadeiledd hollbwysig yng Nghymru. Rhaid i ni ddeall a chipio'r darlun llawn o'n tai, cynllunio'n briodol ar lefel genedlaethol a chefnogi rhagleni adfywio.</p> <p>Mae perchnogaeth o ail gartrefi'n parhau i fod yn broblem mewn sawl cymuned yng Nghymru, gan wthio prisiau tai i fyny i'r trigolion lleol a throi cartrefi'n adnodd sy'n cael ei ddefnyddio'n annigonol gyda chanlyniadau dilynol i'r economiau lleol a'r gwasanaethau cymunedol.</p>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adfer yr Arolwg Cyflwr Tai i gynnal ein dealtwriaeth o'r stoc yng Nghymru, cefnogi datblygiad cynlluniau isadeiledd cenedlaethol ansawdd uchel, cynlluniau datblygu rhanbarthol a lleol ac asesiadau o'r farchnad tai lleol.</li> <li>• Adeiladu ar Iwyddiant y rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid gyda rhaglen adfywio newydd a chanddi ffocws cryf ar dai ac eiddo masnachol er mwyn gyrru datblygiad economaidd yn ei flaen.</li> <li>• Rhoi gallu i awdurdodau lleol Cymru osod treth isadeiledd ar ail gartrefi i'w defnyddio ar gyfer cyflawni tai ychwanegol mewn cymunedau sy'n cael eu heffeithio</li> </ul> |

| Thema                        | Cyd-destun   | Mae CIH Cymru'n galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i wneud y canlynol:  |
|------------------------------|--|---|
| <i>TAI FEL FFORDD O ATAL</i> | <p>Mae tai'n dylanwadu'n uniongyrchol ar gyfleoedd bywyd hanfodol person fel addysg a chyflogaeth. Mae gan dai'r ôl arwyddocaol i'w chwarae wrth atal afiechyd ac ymyrraeth gan y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol. Crea'r buddsoddiad mewn tai arbedion enfawr i feisydd gwasanaeth eraill; sy'n cynnwys budd-dal tai, y cyllidebau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Golyga'r cyfuniad o ddemograffeg newidiol a chyni San Steffan fod pwyslais cynyddol ar ddatblygu'r agenda atal. Rhaid i ni feithrin modelau cyflawni gwasanaethau newydd, gyda thai wrth wraidd y strategaethau hyn, er mwyn sicrhau ein bod ni'n parhau i fodloni anghenion pobl a chymunedau yng Nghymru i'r dyfodol.</p>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu 'cronfa her iechyd, tai a gofal cymdeithasol' dan arweiniad tai</li> <li>• Diogelu a chynyddu'r buddsoddiad yn y rhaglen Cefnogi Pobl</li> <li>• Sefydlu comisiwn i adolygu anghenion tai pobl hŷn yng Nghymru i'r dyfodol</li> </ul>   |
| <i>TRECHU TLODI</i>          | <p>Mae sicrhau y gall aelwydydd fforddio'u costau tai'n hanfodol i drechu tlodi yng Nghymru. Mae gan deuluoedd sy'n cael profiad o ddigartrefedd a tlodi ansawdd bywyd is, a chanlyniadau amgylcheddol ac iechyd tlotach. Mae cynyddu cyflenwad y cartrefi'n cadw tai'n fwy fforddiadwy ac ar gael. Mae gwella effeithlonrwydd ynni a chynhesrwydd cartrefi hen ac oer Cymru'n gwella iechyd ac incwm aelwydydd.</p> <p>Erbyn hyn, mae'r sector rhent preifat yn ddewis deiliadaeth parhaol i nifer fawr o deuluoedd. Mae unioni camau, fforddiadwyedd a diogelwch yn uchel ar restr pryderon tenantiaid preifat. Croesewir rheoleiddio cynyddol o landlordiaid preifat a diwygio tenantiaeth, ond rhaid i ni fonitro a rheoli unrhyw ganlyniadau anfwriadol gan y ddeddfwriaeth newydd a chefnogi'r sector i wella a phroffesiynoli..</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymroi i ddod â digartrefedd teuluol i ben</li> <li>• Galw tasglu i adolygu a deall anghenion ac effeithiau'r ddeddfwriaeth newydd ar y sector rhent preifat i'r dyfodol</li> <li>• Ariannu rhaglenni effeithlonrwydd ynni newydd sy'n cynnig cyngor, cefnogaeth a grantiau i ddeiliaid cartrefi ar incymau isel i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi.</li> </ul>               |
| <i>CYDWEITHIO</i>            | <p>Rhaid i awdurdodau lleol sy'n wynebu ad-drefnu a thoriadau i gyllid barhau i gydnabod a chefnogi'r ôl y swyddogaeth tai strategol.</p> <p>Bydd partneriaethau'r trydydd sector yn chwarae'r ôl gynyddol wrth gyflawni gwasanaethau cymunedol a bydd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn gerbydau cymunedol allweddol i archwilio'r dulliau cyflawni newydd hyn. Mae angen i Gymru ddatblygu perthynas gydlynol, strategol rhwng y llywodraeth a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn gwreddu'r agenda trawsnewid.</p> <p>Mae sicrhau bod llais tenantiaid Cymru'n cael ei ddatblygu, ei gefnogi a'i gynnwys yn fwyfwy pwysig yng nghyd-destun trawsnewid gwasanaethau cymunedol, ddeddfwriaeth newydd, newid demograffig i ddeiliadaeth a pholisiau cyni.</p>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymroi i gynnwys landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn agenda trawsnewid y gwasanaethau cyhoeddus</li> <li>• Gwarantu y bydd y swyddogaeth tai strategol yn cael ei diffinio, ei blaenoriaethu a'i chefnogi yn strwythurau newydd yr awdurdodau lleol</li> <li>• Sicrhau bod corff cenedlaethol ac annibynnol, traws sector i gynrychioli tenantiaid ar gyfer Cymru.</li> </ul> |



CHAPTER 4

# COMPENDIUM OF TABLES

■ VIKKI HISCOCKS ■



**PRINCIPALITY**  
COMMERCIAL



# CHAPTER / PENNOD 4

---



# COMPENDIUM OF TABLES / CASGLIAD O DABLAU

## COMPENDIUM OF TABLES / PENNOD 4: CASGLIAD O DABLAU

|                     |   |                    |  |
|---------------------|---|--------------------|--|
| <b>TABLE 4.1.1</b>  | Dwelling stock estimates by year and tenure   | <b>TABL 4.1.1</b>  | Amcangyfrifon stoc anheddu yn ôl blwyddyn a deiliadaeth  |
| <b>TABLE 4.1.2</b>  | Social Housing Stock: Total stock (including non social housing stock) by year, provider type and accommodation type                      | <b>TABL 4.1.2</b>  | Stoc Tai Cymdeithasol: Cyfanswm stoc (gan gynnwys stoc tai heb fod yn gymdeithasol) yn ôl blwyddyn, math o ddarparwr a math o lety                                   |
| <b>TABLE 4.1.3</b>  | Total stock levels by type of provider and unitary authority (provider, accommodation, area 2014-15)                                      | <b>TABL 4.1.3</b>  | Cyfanswm lefelau stoc yn ôl math o ddarparwr ac awdurdod unedol (darparwr, llety, ardal 2014-15)   |
| <b>TABLE 4.1.4</b>  | Social housing vacancies by year, provider type, duration and availability  | <b>TABL 4.1.4</b>  | Tai cymdeithasol gwag yn ôl blwyddyn, math o ddarparwr, parhad ac argaeedd   |
| <b>TABLE 4.1.5</b>  | Dwellings demolished by local authority and clearance area (2012-13)  | <b>TABL 4.1.5</b>  | Anheddu a ddymchwelwyd yn ôl awdurdod lleol ac ardal glirio (2012-13)  |
| <b>TABLE 4.1.6</b>  | Assessments and resolved hazards by area, type of assessment and dwelling   | <b>TABL 4.1.6</b>  | Asesiadau a pheryglon wedi'u datrys yn ôl ardal, math o asesiad ac annedd  |
| <b>TABLE 4.1.7</b>  | Category 1 and 2 hazards identified by hazard type, dwelling and category   | <b>TABL 4.1.7</b>  | Peryglon Categori 1 a 2 a ddynodwyd yn ôl math o berygl, annedd a chategori  |
| <b>TABLE 4.1.8</b>  | Household projections for Wales, by household type (a)  | <b>TABL 4.1.8</b>  | Rhagamcanion aelwydydd ar gyfer Cymru, yn ôl math o aelwyd (a)   |
| <b>TABLE 4.1.9</b>  | Local authority household projections for Wales - all households (a)  | <b>TABL 4.1.9</b>  | Amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol ar gyfer Cymru - pob aelwyd (a)   |
| <b>TABLE 4.1.10</b> | Rooms, bedrooms and central heating   | <b>TABL 4.1.10</b> | Ystafelloedd, ystafelloedd gwely a gwres canolog   |
| <b>TABLE 4.2.1</b>  | Simple average house prices, by new/other dwellings, type of buyer  | <b>TABL 4.2.1</b>  | Prisiau tai cyfartalog syml, yn ôl anheddu newydd/eraill, math o brynwyr   |
| <b>TABLE 4.2.2</b>  | Monthly average house prices in Wales, by house type  | <b>TABL 4.2.2</b>  | Cyfartaledd prisiau tai misol yng Nghymru, yn ôl math o dŷ   |
| <b>TABLE 4.2.3</b>  | Mean house prices by local authority (quarterly) <sup>1-5</sup>   | <b>TABL 4.2.3</b>  | Prisiau cymedrig tai yn ôl awdurdod lleol (chwarterol) <sup>1-5</sup>  |
| <b>TABLE 4.2.4</b>  | Number of housing sales in Wales  | <b>TABL 4.2.4</b>  | Nifer y gwerthiannau tai yng Nghymru   |
| <b>TABLE 4.2.5</b>  | Property sales by local authority in Wales <sup>1-4</sup>   | <b>TABL 4.2.5</b>  | Gwerthiannau eiddo yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru <sup>1-4</sup>   |
| <b>TABLE 4.2.6</b>  | Average house prices, by local authority and dwelling type  | <b>TABL 4.2.6</b>  | Prisiau tai cyfartalog, yn ôl awdurdod lleol a math o annedd   |
| <b>TABLE 4.2.7</b>  | Simple average house prices, mortgage advances and incomes of borrowers, by new/other dwellings and type of buyer from 2005 (quarterly)   | <b>TABL 4.2.7</b>  | Prisiau tai cyfartalog syml, benthiadau morgeisi, ac incwm benthycwyr, yn ôl anheddu newydd/eraill a math o brynwyr o 2005 ymlaen (chwarterol)                       |
| <b>TABLE 4.2.8</b>  | Private sector monthly rents recorded by property type, Wales (a,b) January to December 2014  | <b>TABL 4.2.8</b>  | Rhenti misol y sector preifat a gofnodwyd yn ôl math o eiddo, Cymru (a,b) Ionawr i fis Rhagfyr 2014  |
| <b>TABLE 4.3.1</b>  | New dwellings started and completed by tenure (a)   | <b>TABL 4.3.1</b>  | Anheddu newydd y dechreuwyd eu hadeiladu ac a gwblhawyd yn ôl deiliadaeth (a)  |
| <b>TABLE 4.3.2</b>  | Number of completed new builds by local authority   | <b>TABL 4.3.2</b>  | Nifer y tai newydd a gwblhawyd fesul awdurdod lleol  |
| <b>TABLE 4.3.3</b>  | All additional affordable housing provision, by local authority area  | <b>TABL 4.3.3</b>  | Pob darpariaeth tai fforddiadwy ychwanegol, yn ôl awdurdod lleol   |
| <b>TABLE 4.3.4</b>  | Additional affordable housing provision by registered social landlords only, by location in Wales, tenure and funding (2013-14 Delivered) | <b>TABL 4.3.4</b>  | Darpariaeth tai fforddiadwy ychwanegol gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn unig, yn ôl lleoliad yng Nghymru, deiliadaeth a chyllid (Cyflawnwyd yn 2013-14) |

|                    |   |                   |   |
|--------------------|---|-------------------|---|
| <b>TABLE 4.3.5</b> | Provision of affordable housing on land made available in each local authority in the last five years, by funding source                    | <b>TABL 4.3.5</b> | Darpariaeth tai fforddiadwy ar dir a wnaed ar gael ym mhob awdurdod lleol yn y pum mlynedd ddiwethaf, yn ôl ffynhonnell ariannu                 |
| <b>TABLE 4.3.6</b> | Provision of affordable housing through planning obligations and on rural exception sites by authority, measure and planning type (2013-14) | <b>TABL 4.3.6</b> | Darpariaeth tai fforddiadwy trwy rwymedigaethau cynllunio ac ar safleoedd eithriedig gwledig yn ôl awdurdod, mesur a math o gynllunio (2013-14) |
| <b>TABLE 4.3.7</b> | Financial contributions towards affordable housing via planning obligations by local authority and amount (2013-14)                         | <b>TABL 4.3.7</b> | Cyfraniadau ariannol tuag at dai fforddiadwy trwy rwymedigaethau cynllunio yn ôl awdurdod lleol a swm (2013-14)                                 |
| <b>TABLE 4.3.8</b> | Social Housing Sales (a)  | <b>TABL 4.3.8</b> | Gwerthiant Tai Cymdeithasol (a)   |
| <b>TABLE 4.3.9</b> | Help to Buy - Wales completed purchases by local authority and date   | <b>TABL 4.3.9</b> | Cymorth i Brynu - pryniannau a gwblhawyd yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol a dyddiad   |
| <b>TABLE 4.4.1</b> | Homelessness (by type of decision taken)  | <b>TABL 4.4.1</b> | Digartrefedd (yn ôl y math o benderfyniad a wnaethpwyd)   |
| <b>TABLE 4.4.2</b> | Households accepted as homeless by priority need  | <b>TABL 4.4.2</b> | Aelwydydd a dderbynwyd yn ddigartref yn ôl angen blaenoriaethol   |
| <b>TABLE 4.4.3</b> | Homelessness (by reason for homelessness)   | <b>TABL 4.4.3</b> | Digartrefedd (yn ôl rheswm am ddigartrefedd)  |
| <b>TABLE 4.4.4</b> | Households accommodated temporarily by accommodation type and year  | <b>TABL 4.4.4</b> | Aelwydydd sy'n cael eu lletya dros dro yn ôl math o lety a blwyddyn   |
| <b>TABLE 4.4.5</b> | Social Housing Lettings (2013-14)   | <b>TABL 4.4.5</b> | Gosodiadau Tai Cymdeithasol (2013-14)   |
| <b>TABLE 4.5.1</b> | Private Sector Renewal assistance for housing renewal by local authority area, activity and measure (2013-14)                               | <b>TABL 4.5.1</b> | Cymorth Adnewyddu Sector Preifat ar gyfer adnewyddu tai yn ôl ardal awdurdod lleol, gweithgaredd, mesur (2013-14)                               |
| <b>TABLE 4.5.2</b> | Disabled facilities grants by local authority area and type of grant (2013-14)  | <b>TABL 4.5.2</b> | Grantiau Cyfleusterau Anabl yn ôl ardal awdurdod lleol a math o grant (2013-14)   |
| <b>TABLE 4.5.3</b> | Renewal areas by local authority area and number  | <b>TABL 4.5.3</b> | Ardaloedd adnewyddu yn ôl ardal awdurdod lleol a nifer  |
| <b>TABLE 4.5.4</b> | Estimated gross spending of Welsh HAs in Wales by category 2013-14  | <b>TABL 4.5.4</b> | Amcangyfrif o wariant crynswth Cymdeithasau Tai Cymru yng Nghymru yn ôl categori 2013-14  |
| <b>TABLE 4.5.5</b> | Estimated economic impacts of the Housing Associations of Wales on the Welsh economy 2013-14  | <b>TABL 4.5.5</b> | Amcangyfrif o effeithiau economaidd Cymdeithasau Tai Cymru ar economi Cymru 2013-14   |
| <b>TABLE 4.5.6</b> | Estimated regeneration spend of housing associations in Wales (excluding staff costs) 2008-14 (constant prices year 2014 pounds)            | <b>TABL 4.5.6</b> | Amcangyfrif o wariant adfywio cymdeithasau tai yng Nghymru (ac eithrio costau staff) 2008-14 (prisiau cyson blwyddyn 2014 punnoedd)             |
| <b>TABLE 4.5.7</b> | Houses in multiple occupation by local authority area (2011/12-2013/14)   | <b>TABL 4.5.7</b> | Tai amlfeddiannaeth yn ôl ardal awdurdod lleol (2011/12-2013-14)  |
| <b>TABLE 4.5.8</b> | Compliance with the overall Welsh Housing Quality Standard by provider and measure (2013-14)  | <b>TABL 4.5.8</b> | Ufudd-dod i Safon Ansawdd Tai Cymru yn gyffredinol yn ôl darparwr a mesur (2013-14)   |

# CHAPTER / PENNOD 4

---



COMPENDIUM OF TABLES / CASGLIAD O DABLAU

# DWELLING STOCK, HOUSEHOLDS AND TENURE / STOC ANHEDDAU, AELWYDYDD A DEILIADAETH

**Table 4.1.1 Dwelling stock estimates by year and tenure**  
**Tabl 4.1.1 Amcangyfrifon o'r stoc anheddau yn ôl blwyddyn a deiliadaeth**

| Local Authority<br>(Number) (1) | Owner occupied<br>(Number) (2) | Owner occupied/<br>Privately rented<br>(Number) | Privately rented<br>(Number) | Registered Social Landlord<br>(Number) (3) | All tenures (Number)          |  |
|---------------------------------|--------------------------------|---|------------------------------|--|-------------------------------|--|
|                                 |                                |   |                              |  | Awdurdod<br>Lleol (Nifer) (1) | Yn eiddo i berchen-<br>feddianwyr (Nifer)<br>(2) |
| 2000-01                         | 187,855.00                     | 941,200.97                                      | 1,031,646.00                 | 90,445.03                                  | 54,999.00                     | 1,274,500.00                                     |
| 2001-02                         | 182,957.00                     | 956,973.85                                      | 1,045,512.80                 | 88,538.95                                  | 56,687.00                     | 1,285,156.80                                     |
| 2002-03                         | 175,626.33                     | 965,963.56                                      | 1,063,319.60                 | 97,356.04                                  | 57,164.67                     | 1,296,110.60                                     |
| 2003-04                         | 159,740.33                     | 980,226.14                                      | 1,082,972.40                 | 102,746.26                                 | 64,497.67                     | 1,307,210.40                                     |
| 2004-05                         | 155,955.00                     | 989,625.79                                      | 1,098,031.87                 | 108,406.08                                 | 65,091.33                     | 1,319,078.20                                     |
